CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

# Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog

# CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD PRIFYSGOL CYMRU

## CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR


*Cyfarwyddwr*
Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PhD, DLitt

*Golygydd y Gyfres*
Ann Parry Owen, BA, PhD

*Cymrodyr Ymchwil*
R. Iestyn Daniel, BA, PhD
Erwain Haf Rheinallt, MA

*Golygyddion Ymgynghorol*
Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,
MA, BD, DLitt, DLitt Celt, FSA, MRIA, FBA
Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, FBA

*Bwrdd Golygyddol*
Gareth A. Bevan, MA
Dafydd H. Evans, BA, DPhil
Dafydd Johnston, BA, PhD
A. Cynfael Lake, MA, PhD
Peredur Lynch, BA, PhD

# GWAITH HUW AP DAFYDD AP LLYWELYN AP MADOG

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE

ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1995

ⓗ Prifysgol Cymru ©, 1995.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded CC BY-NC-SA 4.0.

Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 14 9

Diolchir i'r Academi Brydeinig, Ymddiriedolaeth Leverhulme ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

# *Rhagair*

Rhan o draethawd a gyflwynwyd am radd MA yn 1979 yw'r gyfrol hon. Bu llafur enfawr P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies*, yn fodd i lenwi sawl bwlch yn y nodiadau wrth i'r gwaith gael ei adolygu, a bu cyfle hefyd i elwa ar y *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* ac ar y rhaglen gyfrifiadurol 'Maldwyn'.

Dymunaf gydnabod cydweithrediad parod staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r llyfrgelloedd eraill y bûm yn ymweld â hwy wrth gopïo a golygu canu Huw ap Dafydd. Carwn gyfleu fy niolch hefyd i Mr Gareth Bevan, golygydd Geiriadur Prifysgol Cymru, a'i staff, am eu cymwynasau hwy, i Mrs Carys Briddon am ei gofal wrth deipio'r deunydd, i Dr Ann Parry Owen am ei gwaith golygyddol, i aelodau'r Bwrdd Golygyddol am eu sylwadau gwerthfawr, ac i Mr W. Gerallt Harries, cyfarwyddwr yr ymchwil wreiddiol. Gwerthfawrogaf barodrwydd Cyfarwyddwr y Ganolfan, yr Athro Geraint H. Jenkins, a'r ddau Olygydd Ymgynghorol, yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams a'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, i gynnwys y gwaith yng nghyfres Beirdd yr Uchelwyr. Gwerthfawrogaf hefyd y nawdd a dderbyniais gan Gronfa Syr David Hughes Parry.

Prin yw'r copïau o bob cywydd, ond y mae'r testunau, at ei gilydd, yn rhai pur ddibynadwy. Rhestrir y ffynonellau, pan ddigwydd y testun mewn mwy nag un llawysgrif, yn ôl eu pwysigrwydd. Nodir yr amrywiadau bob tro yn orgraff y llawysgrif flaenaf. Defnyddir bachau petryal pan fo gair neu eiriau yn eisiau yn y llawysgrif(au), a chofnodir yr hyn a ychwanegwyd gan y golygydd, pan oedd y testun naill ai'n ddiffygiol neu'n wallus, mewn llythrennau italig.

A. Cynfael Lake
4 Gorffennaf, 1995

# *Cynnwys*


*Td.*

RHAGAIR ........................................ v

BYRFODDAU

Llyfryddol ........................................ ix

Termau a geiriau ........................................ xv

GWAITH HUW AP DAFYDD AP LLYWELYN AP MADOG

RHAGYMADRODD ........................................ 1

TESTUN

1. Moliant y Sersiant Pirs Gruffudd, Caerwys ........................................ 13
2. Moliant Hywel ap Siôn ap Dafydd, Bryncynddel ........................................ 16
3. Erchi bwa gan Lewys ab Ithel, Llaneurgain ........................................ 19
4. Erchi bwa gan Elis ap Gruffudd, prior Rhuddlan ........................................ 22
5. Marwnad Siôn ab Elis Eutun, Rhiwabon ........................................ 24
6. Marwnad Rhisiart ap Hywel, Alrhe ........................................ 26
7. Cyngor i Rys ap Siôn ap Maredudd, Derwen ........................................ 28
8. Moliant Rhys ap Siôn ap Maredudd, Derwen ........................................ 30
9. Moliant Syr Robert ap Siôn, person Llanfwrog ........................................ 32
10. Erchi pais gan Syr Tomas ap Robert, ficer Llanynys ........................................ 35
11. Moliant Pirs Salbri, Bachymbyd ........................................ 37
12. Marwnad Syr Rhoser Salbri, Lleweni ........................................ 40
13. Moliant Robert Salbri a Gwenhwyfar, Llanrwst ........................................ 43
14. Moliant Syr Siôn Aled, ficer Llansannan ........................................ 45
15. Marwnad Tudur Aled ........................................ 47
16. Moliant Robert ap Rhys, Plas Iolyn ........................................ 50
17. Moliant Elis ap Hywel, Crogen ........................................ 53
18. Moliant Siôn ap Hywel Fychan, Caer-gai ........................................ 56
19. Erchi dagr gan Lewys ab Owain, Dolgellau ........................................ 58
20. Moliant Lewys Cyffin a Lowri, Gartheryr ........................................ 61
21. Moliant Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn ........................................ 63
22. Erchi march gan Elisau ........................................ 66
23. Gwallt merch ........................................ 68

CERDDI ANSICR EU HAWDURAETH
24. I gymodi Wmffre ap Hywel â'i geraint .... 71
25. Erchi bwcled gan Siancyn ap Siôn, Caethle .... 74
26. Erchi chwe ych dros Siôn Trefor .... 76
27. Awdl foliant i Siôn Trefor .... 79

ATODIAD
28. Annerch Lewys Môn a Huw ap Dafydd .... 83

NODIADAU .... 85
GEIRFA .... 115
ENWAU PERSONAU .... 121
ENWAU LLEOEDD .... 123
LLAWYSGRIFAU .... 125
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .... 129
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU .... 131

# *Byrfoddau*

## *Llyfryddol*

| | |
|---|---|
| Arch Camb | *Archaeologia Cambrensis,* 1846– |
| B | *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921– |
| Bangor | Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor |
| BD | *Brut Dingestow,* gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942) |
| BL Add | Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain |
| Bodley | Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen |
| Brog | Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| BU | *Barddoniaeth yr Uchelwyr,* gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1957) |
| ByCy | *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953) |
| ByCyAt | *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970) |
| CAMBM | *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850) |
| Card | Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd |
| CLC | *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986) |
| CLlH | *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caer-dydd, 1935) |

| | |
|---|---|
| CM | Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| CMCS | *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies,* 1993– |
| CP | *The Complete Peerage (*London, 1910–40) |
| CTC | C.T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A. Cymru [Bangor], 1973) |
| Cylchg CHSFeir | *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd,* 1949– |
| Cylchg HSG | *Cylchgrawn Hanes Sir Gaernarfon,* 1939– |
| Cylchg LlGC | *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939– |
| DE | *Gwaith Dafydd ab Edmwnd,* gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914) |
| DLlM | A. Cynfael Lake, 'Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan' (M.A. Cymru [Abertawe], 1979) |
| DN | *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923) |
| DWH | M.P. Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3) |
| L. Dwnn: HV | *Heraldic Visitations of Wales,* gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846) |
| EEW | T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923) |
| EmW | Robert Williams, *Enwogion Cymru: A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (Llandovery, 1852) |
| G | *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63) |
| GB | *Geiriadur Beiblaidd,* gol. Thomas Rees, D. Francis Roberts, J.T. Evans, David Williams, Ifor Williams (Wrecsam, 1926) |

GDG — *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)

GDLl — *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)

GGH — *Gwaith Gruffudd Hiraethog,* gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)

GGl$^2$ — *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)

GIF — *Gwaith Iorwerth Fynglwyd,* gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

GIG — *Gwaith Iolo Goch*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1988)

GLD — *Gwaith Lewys Daron,* gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)

GLE — R.W. Macdonald, 'Bywyd a Gwaith Lewis ab Edward' (M.A. Lerpwl, 1960–1)

GLGC — *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995)

GLM — *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

GMW — D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)

GO — *L'œuvre poétique de Gutun Owain,* gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)

GP — *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)

GPC — *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950– )

GSC — 'Gwaith Siôn Ceri' yn A. Cynfael Lake, 'Pedwar o Farwnadwyr Tudur Aled' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1994)

GSOG — David Gwilym Williams, 'Testun beirniadol ac astudiaeth o gerddi Syr Owain ap Gwilym' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1962)

GSRh — *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch,* gol.

| | |
|---|---|
| | Nerys A. Jones ac E.H. Rheinallt (Aberystwyth, 1995) |
| GST | *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980) |
| GTP | *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn,* gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958) |
| GWL ii | A.O.H. Jarman & Gwilym Rees Hughes, *A Guide to Welsh Literature,* ii (Swansea, 1979) |
| GWLl | Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983) |
| Haf | Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd |
| HPF | J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7) |
| HMNLW | *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– ) |
| IGE[2] | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill,* gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937) |
| J | Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen |
| O. Jones: Cymru | Owen Jones, *Cymru: Yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraphyddol* (Llundain, 1875) |
| LBS | S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–18) |
| LGCD | *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984) |
| LPFD | *Letters & Papers, Foreign & Domestic of the Reign of Henry VIII (*21 vols., London) |
| LSEW | *Lists of Sheriffs for England and Wales,* List & Indexes No. IX (Public Records Office, London, 1898) |
| LlCy | *Llên Cymru*, 1950– |

| | |
|---|---|
| LlGC | Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaeth-ol Cymru, Aberystwyth |
| Llst | Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| E. Lhuyd: Par | *Parochialia,* Supplement to *Arch Camb,* 1909–11 |
| MFGLl | *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau (*Y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1978) |
| J. Morris-Jones: CD | John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925) |
| Mos | Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| NBM | Glenys Davies, *Noddwyr Beirdd ym Meirion* (Dolgellau, 1974) |
| NCE | *New Catholic Encyclopaedia (*Washington, 1967) |
| NLWCM | J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts,* i (Aberystwyth, 1921) |
| OBWV | *The Oxford Book of Welsh Verse,* ed. Thomas Parry (Oxford, 1962) |
| OED | *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989) |
| Owain Gwynedd: Gw | D. Roy Saer, 'Testun beirniadol o waith Owain Gwynedd, ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1961) |
| PACF | J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914) |
| Pen | Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| RR | 'Gwaith Raff ap Robert' yn A. Cynfael Lake, 'Pedwar o Farwnadwyr Tudur Aled' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1994) |
| RWM | *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E. |

| | |
|---|---|
| TA | *Gwaith Tudur Aled,* gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926) |
| TCHSDd | *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952– |
| D.R. Thomas: HDStA | D.R. Thomas, *The History of the Diocese of St. Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13) |
| THSC | *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3– |
| Traeth | *Y Traethodydd*, 1845– |
| Treigladau | T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952) |
| TYP$^2$ | *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978) |
| WATU | Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969) |
| WCD | P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993) |
| WG | J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913) |
| WG1 | P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974) |
| WG2 | P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983) |
| WMW | Helen Chandler, 'The Will in Medieval Wales to 1540' (M.Phil. Cymru [Aberystwyth], 1991) |
| Wy | Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| YB | *Ysgrifau Beirniadol,* gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965– ) |

## *Termau a geiriau*

| | |
|---|---|
| a. | ansoddair, -eiriol |
| adf. | adferf |
| amhff. | amherffaith |
| amhrs. | amhersonol |
| anh. | anhysbys |
| ardd. | arddodiad, -iaid |
| arg. | argraffiad |
| *art.cit.* | *articulo citato* |
| b. | benywaidd (ac weithiau berf) |
| be. | berfenw |
| bf. | (f.) berf, -au |
| *c.* | *circa* |
| c. | (g.) canrif |
| C. | Canol |
| cf. | cymharer |
| Cym. | Cymraeg |
| cys. | cysylltair, cysylltiad |
| d.g. | dan y gair |
| dib. | dibynnol |
| diw. | diweddar |
| e. | enw |
| eb. | enw benywaidd |
| e.c. | enw cyffredin |
| ed. | *edited by, edition* |
| e.e. | er enghraifft |
| eg. | enw gwrywaidd |
| e.p. | enw priod |
| *ex inf.* | *ex informatione* |
| f. | ffolio |
| *fl.* | *floruit* |
| ff. | ffolios |
| g. | (c.) canrif |
| g. | gwrywaidd |
| gol. | golygydd, golygwyd gan |
| grb. | gorberffaith |
| grch. | gorchmynnol |
| grff. | gorffennol |
| gthg. | gwrthgyferbynier, -iol |
| gw. | gweler |
| Gwydd. | Gwyddeleg |
| H. | Hen |
| h.y. | hynny yw |
| *ib.* | *ibidem* |
| *id.* | *idem* |
| *l.c.* | *loco citato* |
| ll. | lluosog; llinell |
| Llad. | Lladin |
| llau. | llinellau |
| llsgr. | llawysgrif |
| llsgrau. | llawysgrifau |
| m. | mewnol |
| myn. | mynegol |
| neg. | negydd, -ol |
| *ob.* | *obiit* |
| *op.cit.* | *opere citato* |
| p. | priod |
| pres. | presennol |
| prff. | perffaith |
| prs. | person, -ol |
| pth. | perthynol |
| r | *recto* |
| rh. | rhagenw, -ol |
| S. | Saesneg |
| *sc.* | *scilicet* |
| *s.n.* | *sub nomine* |
| td. | tudalen |
| tt. | tudalennau |
| un. | unigol |
| v | *verso* |
| vols. | *volumes* |

# *Rhagymadrodd*

## *Cysylltiadau teuluol y bardd, a'r canu a briodolir iddo*

Nid yw enw Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog i'w weld yn *Welsh Genealogies* P.C. Bartrum, ond cofnodir enw Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a dangosir bod i'r gŵr hwn ddau blentyn, sef mab, Ieuan, a merch, Constans.[1] A derbyn bod yr ach yn gywir, prin y gellir cyfiawnhau dilyn y trywydd hwn ymhellach wrth geisio lleoli'r bardd dan sylw. Nodir yn rhestr Thomas Wiliems o'r beirdd a ganai 'yn amser y trydydd clymiad ar gerdd' mai yng Nghilcain y claddwyd Huw ap Dafydd,[2] ond y mae lle i gredu mai o Nantglyn yr hanoedd. Dangosodd M.T. Burdett-Jones i Thomas Lloyd, y geiriadurwr, ychwanegu enwau nifer o feirdd at ei gopi o *Repertorium Poeticum*, gan gynnwys 'Huw ap Davydd o Nantglyn'.[3] Y mae'n arwydd-ocaol hefyd fod disgynyddion Ieuan ap Llywelyn ap Madog, brawd Dafydd a enwir uchod, yn byw yn Nantglyn yng nghwmwd Is Aled.

Diogelwyd yn y llawysgrifau bedwar cywydd o waith Dafydd ap Llyw-elyn ap Madog. Cywyddau i saint yw dau ohonynt, y naill i Ddyfnog a'r llall i Fordeyrn,[4] a'r ddau yn bur werthfawr am na ddiogelwyd yn unman arall draddodiadau am fuchedd y ddau sant a'u cysylltiadau daearyddol. O safbwynt yr astudiaeth hon, cymwynas bennaf y ddau gywydd hyn yw'r dystiolaeth anuniongyrchol a geir mai gŵr o Nantglyn neu'r cyffiniau oedd y bardd oherwydd i Fordeyrn y cysegrwyd eglwys Nantglyn, a chysylltir Dyfnog yntau â Llanddyfnog, sef Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, ryw bum milltir i'r dwyrain i gyfeiriad Dinbych.[5]

Cywydd i'r grog yn Llanfair yw'r drydedd gerdd sydd ar glawr:

> Dy ddelw a'th lun dy hunan,
> Doeth yn grair i Lanfair lân.[6]

Saif Nantglyn rhwng Llanfair Talhaearn a Llanfair Dyffryn Clwyd. Gan fod croglofft yn yr olaf yr erys ei holion hyd heddiw, geill mai yma yr oedd y

[1] WG2 1467. Yn *ib.* 274 cofnodir bod Dafydd ap Llywelyn ap Madog ap Robin o Abergele yn briod â Marged, merch Ieuan ap Maredudd, ond nid enwir eu disgynyddion.

[2] BL Add 31055, 48v; Mos 110, 188.

[3] M.T. Burdett-Jones, 'Poetarum Nomina Thomas Lloyd, Plas Power', Cylchg LlGC xxviii (1993–4), 249–54. Ychwanegwyd enw Dafydd ap Llywelyn ap Madog hefyd.

[4] DLlM cerddi 2–3.

[5] Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Woodbridge, 1987), 193–5 a LBS iii, 502–4 (Mordeyrn); Elissa R. Henken, *op.cit.* 251–2 a LBS ii, 397–8 (Dyfnog).

[6] DLlM 1.25–6.

grog y canodd Dafydd ap Llywelyn iddi.[7] Cywydd i erchi telyn ar ran gwraig o'r enw Elin Llwyd a oedd yn gares i'r rhoddwr, Syr Gruffudd Coetmor, yw'r darn olaf a ddiogelwyd. Awgrymir bod y gŵr hwn yn ficer Llanfair; tybed ai ar ei gais ef y canodd Dafydd i'r grog?[8]

Cysylltir Dafydd ap Llywelyn ap Madog felly ag ardal y perthynai iddi gryn fri yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg ar gyfrif gweithgarwch ei beirdd. Ac i uchelwyr sir Ddinbych a sir y Fflint y canodd Huw ap Dafydd y rhan fwyaf o'i gerddi, er iddo deithio yn achlysurol i sir Feirionnydd ac i Arfon i ddwyn ei gerddi adref. Tâl nodi, fodd bynnag, nad oes yn y canu ddim sy'n tystio bod Huw ap Dafydd yn fab i'r bardd a ganodd y pedwar cywydd uchod. Englyn Tudur Aled i Huw a Lewys Môn yw'r unig ddolen gyswllt; digwydd hwn ar ddiwedd cywydd Dafydd ap Llywelyn i'r grog yn Llanfair yn llawysgrif Caerdydd 63.[9] Cofnodir enw'r bardd yn llawn yn y pum llawysgrif sy'n cynnwys y farwnad a ganodd i Dudur Aled, ac yn y dryll o gywydd gofyn march a ddiogelwyd,[10] a diogel casglu, yn enwedig yng ngoleuni sylw Thomas Lloyd, fod Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog yn fab i'r prydydd a ganodd i'r ddau sant, Mordeyrn a Dyfnog.

Ysywaeth, ni ddigwydd yr enw yn llawn yn y llawysgrifau sy'n cynnwys y cerddi eraill; i Huw ap Dafydd y priodolir y rhain yn ddiwahân.[11] Gellid dadlau bod a wnelo'r anghysondeb ynghylch enw'r bardd â phrinder y copïau. Mewn un ffynhonnell yn unig y cofnodwyd deunaw o blith y saith gerdd ar hugain yn y casgliad,[12] ac mewn dwy lawysgrif yn unig y ceir chwech o blith y cerddi sy'n weddill. Diau fod cerddi cyfain wedi eu colli—gwelir un cwpled disberod wrth enw Huw Llwyd yng Ngeirlyfr Wiliam Llŷn:

> ti bevnydd a wyt bennod
> a thi sy benn kledrenn klod.[13]

—a chopïau pellach o'r cerddi a oroesodd.[14] Y mae dau o'r cywyddau yn y

[7] D.R. Thomas: HDStA ii, 96; hefyd Edward Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd* (Harmondsworth, 1986), 206.

[8] DLlM cerdd 4. Ni lwyddwyd i daro ar ach Syr Gruffudd Coetmor, ac anghyflawn yw'r rhestri o ficeriaid Llanfair Dyffryn Clwyd a Llanfair Talhaearn yn D.R. Thomas: HDStA ii, 99–100, iii, 223.

[9] Cerdd 28 isod.

[10] Cerddi 15 a 22 isod. Hefyd yn Brog 6 lle y digwydd un o'r ddau gopi o gerdd 1.

[11] Fe'i gelwir yn Huw ap Huw Dafydd yn Card 4.10 [= RWM 84] (cerddi 20 a 23 isod), ac yn Hywel ap Dafydd yn LlGC 435B (cerdd 2). Neilltuwyd tudalen ar gyfer llinellau cyntaf Huw ap Dafydd yn *Repertorium Poeticum* (fersiwn Llst 57), ond ni chofnodwyd arno yr un cywydd.

[12] Yn achos pedwar o'r cywyddau, ceir ail gopi diweddarach sy'n seiliedig ar y testun hŷn.

[13] Card 4.10 (= RWM 82), 42r.

[14] Copïodd John Jones, Gellilyfdy, dri o'r cywyddau—cerddi 7, 8, 11—i'w bumed llyfr a gollwyd, ysywaeth, bellach. Gw. Pen 221, 179, 185, 187; M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd llyfr cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.

casgliad yn anghyflawn,[15] ac yn llawysgrif Peniarth 127 gwelir diwedd darniog cywydd o waith Huw Llwyd i Siôn Trefor (o Wigynt).[16] Fodd bynnag, digwydd enw Huw ap Dafydd mewn llawysgrifau cynnar a dibynadwy megis Peniarth 64 (yn llaw Simwnt Fychan), Mostyn 148 a Llansteffan 163, a rhaid tybio mai wrth yr enw hwn yr adwaenid y bardd.[17]

Gan fod yr enw hwn yn un pur gyffredin, ni ellir datgan gyda sicrwydd mai mab Dafydd ap Llywelyn ap Madog a ganodd yr holl gerddi hynny sydd wrth enw Huw ap Dafydd. O droi at y *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau*, gwelir bod sawl bardd ag enw tebyg, a chan fod Wiliam Bodwrda yn tadogi'r cywydd erchi march y cyfeiriwyd ato uchod ar Huw *Llwyd* ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a chan fod *Huw* a *Hywel* yn ymgyfnewid, fel y tystia'r cwpled isod sy'n digwydd yng nghywydd Tudur Aled i Hywel ap Gruffudd ap Rhys:

> Hywel, taro'r bêl trwy'r byd,
> Huw, dêl iwch hoedl a iechyd![18]

ni ellir pennu pa gerddi sy'n perthyn i'r bardd o Nantglyn heb ystyried yn gyntaf y gweithiau hynny a briodolir i feirdd megis Syr Huw Dafydd, Hywel ap Dafydd Llwyd, Huw (neu Hywel) Llwyd, Huw Llwyd Fyr, a Syr Huw Llwyd. Parodd yr enwau gryn ddryswch i'r bywgraffwyr, ac ni ddylid llyncu yn ddihalen yr hyn a gofnodir am y beirdd, eu cysylltiadau daearyddol, a chyfnod eu canu mewn cyhoeddiadau megis *Enwogion Cymru* a *Cymru* Owen Jones. Dangosir yn y drafodaeth isod mai yn ystod y dauddegau a'r tridegau y lluniwyd y cerddi sydd yn y casgliad hwn, er i Dr John Davies, Mallwyd, awgrymu bod Huw ap Dafydd yn ei flodau tua 1500.[19] Yn *Enwogion Cymru,* ar y llaw arall, cynigir mai yn ystod y blynyddoedd 1570–1610 y canai Hywel (sic) ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog.[20]

Wrth ystyried canu Huw ap Dafydd, rhaid gwahaniaethu rhyngddo ef a'r beirdd a ganlyn.

*Hywel Dafi, neu Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys*

Bardd cynhyrchiol o Raglan a oedd yn ei flodau rhwng 1450 a 1480. Canodd nifer o gywyddau serch a duwiol, ynghyd â chorff o ganu defodol i uchelwyr Brycheiniog, Gwent a Morgannwg.[21] I Huw Dafi y priodolir y

[15] Collwyd pum ll. yng ngherdd 16, a gadawyd bwlch ar gyfer tua 24 ll. ar ddechrau cerdd 22.
[16] Gw. isod tt. 11–12.
[17] Gw. 'Llawysgrifau', isod tt. 125–7.
[18] TA XXXVIII.71–2.
[19] M.T. Burdett-Jones, '"Index Auctorum" Henry Salesbury ac "Authorum Britannicorum Nomina" John Davies', Cylchg LlGC xxvi (1989–90), 353–60.
[20] EmW 229.
[21] ByCy 380; CLC 287.

cywydd 'Gwallt Merch' (cerdd 23 isod) yn y pum llawysgrif a luniodd Llywelyn Siôn. Er mai Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys a welir fynychaf ar ddiwedd cywyddau'r bardd yn llawysgrifau Llywelyn Siôn, digwydd y ffurf Huw Dafi yn achlysurol. Ni chopïodd Llywelyn Siôn yr un cywydd arall o waith Huw ap Dafydd, a rhaid casglu mai ffurf ar enw'r bardd o Raglan yw Huw Dafi, nid ffurf ar Huw ap Dafydd.

*Huw Llwyd o Gynfal, sef Huw Llwyd ap Dafydd Llwyd ap Hywel ap Rhys*
Awgrymir iddo fyw rhwng tua 1568 a 1630.[22] Diogelwyd chwech o'i gywyddau, rhyw bymtheg o englynion a dyrnaid o gerddi rhydd. Ef, yn ddiau, yw'r Hywel ap Dafydd Llwyd (fl. 1560–1600) a grybwyllir yn *Enwogion Cymru*.[23] Yn y fersiwn o'r *Repertorium Poeticum* sydd yn llawysgrif Llansteffan 57, rhestrir dau gywydd o'i waith o dan enw Huw Llwyd o Gynfal; rhestrir dau arall o dan enw Huw Llwyd, ac un arall drachefn o dan enw Huw Dafydd Llwyd.[24]

*Syr Huw Dafydd*
Enwir Huw ap Dafydd o Ewias, 'bardd tra enwog' (1480–1520), a Huw Dafi (1570–1600) gan Owen Jones ac yn *Enwogion Cymru*.[25] Gellid tybio mai dilyn Dr John Davies a wnaed wrth ddyddio'r cyntaf, ond dangoswyd eisoes mai brodor o Is Aled oedd ef ac nid gŵr o'r De. Lluniodd Syr Huw Dafydd awdl i Dduw, cyfres o englynion yn dychanu'r Pab, ac awdl yn deisyf gras Duw i'w alluogi i ymwrthod â'i serch at ferch ag *eurwallt gnwd hirwallt*. Bu'n ymryson hefyd â Siâms Parry ac â Thomas Powell.[26] Digwydd y pum darn yn llawysgrif Llansteffan 50 ynghyd â nifer o weithiau a briodolir i Siâms Parry.[27] Yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun:

Ni bu ddyn mewn gwŷn a gwasg
Fal ydd wy' rhwng Gwy ac Wysg;
Tyr edefyn o'i dynn dasg,
Od yw, cyn dirwyn hyd Wysg.[28]

Diau ein bod ar dir diogel wrth honni mai Syr Huw Dafydd/Huw Dafi oedd y bardd o'r De a ganai yn chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg.

[22] CLC 370. Ceir ei waith yn A. Cynfael Lake, 'Gwaith Huw Llwyd o Gynfal', Cylchg CHSFeir ix (1981–4), 67–88; gw. hefyd Gwyn Thomas, 'Dau Lwyd o Gynfal', YB v (1970), 71–98.
[23] EmW 229–30.
[24] Llst 57, 115, 117, 119.
[25] O. Jones: Cymru 661; EmW 228.
[26] DLlM cerddi 78–82.
[27] RWM ii, 529–30 a ByCy 691, lle y rhoddir James Rhys Parry, 'Eos Eyas', yn ei flodau rhwng 1570 a 1625. Ai'r ail ymrysonwr oedd y Thomas Powell o blwyf Cantref, sir Frycheiniog, y ceir cofnod arno yn ByCy 730?
[28] DLlM 80.71–4.

*Hywel ap Dafydd Llwyd ab y Gof*
Tadogir arno dri chywydd serch a fu'n bur boblogaidd, a barnu wrth y copïau a ddiogelwyd (ond hawlir pob un i feirdd eraill yn ogystal), ynghyd â chywydd marwnad i'r bardd Dafydd Llwyd o Fathafarn.[29] Rhoddir ef yn ei flodau tua 1500.[30]

*Huw Llwyd*
Awdur cywydd byr sy'n difrïo Eiddig ac yn annog gwraig hwnnw i'w adael (*Y ddyn a wisc addaw yn wen*). Digwydd hwn yn llawysgrif Peniarth 76 wrth enw Huw Llwyd, ond fe'i priodolir mewn ffynonellau eraill i Dudur Aled, Bedo Brwynllys ac i Ddafydd ap Gwilym. Barnai Thomas Parry mai 'Cywydd ystrydebol i Eiddig ydyw, a'i arddull yn rhugl a'i iaith yn llawer llai coeth nag iaith DG'.[31]

*Syr Huw Llwyd*
Un cywydd serch sydd wrth ei enw (*Y vyn alawnt vain olef*) ac fe'i cofnodwyd yn llawysgrif Peniarth 76. Seiliwyd y gerdd ar y fformwla gyfarwydd: disgrifio rhannau o'r corff yn eu tro gan ddechrau â'r 'tâl gwastad' a gorffen trwy foli'r traed. Geill mai ei eiddo ef yw'r cywydd wrth enw Huw Llwyd (gw. uchod).

*Huw Llwyd Fyr*
Canodd ddau gywydd i ddau o feibion Ieuan ap Phylip ap Rhydderch. Amlinellir cysylltiadau diwylliannol hendaid y brodyr, Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Barcrhydderch yng Nglyn Aeron, yn arolwg D. Hywel E. Roberts ar noddwyr Ceredigion.[32] Dengys *Welsh Genealogies* mai yng Nghil-y-pyll yn Llangeitho y trigai Owain ab Ieuan a'i ddisgynyddion, tra cartrefai ei frawd, Dafydd, yn y Morfa Mawr.[33] Gellid dadlau mai'r un yw'r bardd â Huw Llwyd o Wynedd a ganodd i ofyn bwcled gan Siancyn ap Siôn, Caethle,[34] oherwydd ailadroddir pum cwpled clo'r cywydd gofyn air am air yn y cywydd a ganwyd i Ddafydd ab Ieuan. Tâl nodi hefyd mai Mawd, merch Rhydderch ap Rhys ap Maredudd o'r Tywyn yn y Ferwig, oedd gwraig Siancyn, ac y buasai i'r bardd a ganodd yng Nghaethle droedle hefyd yng Ngheredigion.

Ar ran Siôn ap Rhys o Lanfihangel-yng-Ngheri y canodd Huw Llwyd o Wynedd, ac y mae'n arwyddocaol mai gŵyr o'r Canolbarth a ddiogelodd ddau gywydd Huw Llwyd Fyr, sef Wmffre Dafis (Llansteffan 118, unig

[29] GDLl cerdd 98. Ceir copi o'r tri chywydd serch yn DLlM cerddi 83–5.
[30] ByCy 380.
[31] GDG clxxxiv.
[32] H.D.E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Aberteifi', LlCy x (1968–9), 83–9; gw. hefyd GDG lxiv–lxv a D. Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 19–22.
[33] WG1 180; WG2 365–7.
[34] Cerdd 25 a td. 11 isod.

ffynhonnell y cywydd i Ddafydd)[35] a'r bardd Huw Arwystl (copïydd Peniarth 82 sy'n cynnwys y cywydd i Owain).[36] Ond nid annichon mai i ddisgynyddion Rhydderch ab Ieuan Llwyd y mae'r diolch am ddiogelu'r cywydd i Ddafydd; gwelir bod rhan gyntaf Llansteffan 118 yn rhoi lle anrhydeddus i'r canu i deulu'r Morfa Mawr ac i uchelwyr eraill Ceredigion, a geill ei bod yn seiliedig ar lawysgrif deuluol.

*Beirdd eraill*

Diogelwyd yn y llawysgrifau amryfal englynion a briodolir i Huw Llwyd—canodd y bardd hwn ddau englyn i Siôn Tudur, a gellir ei osod felly yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg—i Huw Dafydd ac i Hywel Dafydd, a chan fod lle i gredu ddarfod llunio'r englynion hyn dros gyfnod o ganrif, y mae'n dilyn fod yma waith y dylid ei briodoli i sawl bardd.[37] Priodolir un englyn yn llawysgrif Mostyn 131, 831 i Huw ap Dafydd:

> y kyw glas heb ras a gais briwsion
> oi gessel yw ddwyvron
> kod pibe garre gwyrion
> erbyn y ffair ar be[n] ffon.

Cynigir yn betrus ar sail nodweddion y canu ac ar sail yr hyn sy'n hysbys am y noddwyr a gyfarchwyd, mai Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog a ganodd yr holl gerddi wrth enw Huw ap Dafydd, ond erys rhai amheuon ynglŷn â'r cywydd i erchi dagr gan Lewys ab Owain o Ddolgellau. Trafodir y cywydd hwn isod ynghyd â'r tri chywydd a'r awdl a dadogir ar Huw (Hywel) Llwyd ac a gynhwyswyd yn y casgliad.

## *Ei ganu defodol*

Diogelwyd tri chywydd ar hugain o waith Huw ap Dafydd, cywyddau defodol oll, ac eithrio cerdd 23 yn y casgliad sy'n gywydd serch. Er na phriodolir iddo yr un cywydd crefyddol—ac y mae hyn yn destun syndod pan ystyrir canu Dafydd ap Llywelyn ap Madog—gwelir bod pump o'i noddwyr yn wŷr eglwysig. Gellir dosbarthu'r canu fel a ganlyn:

[35] RWM ii, 579–92.
[36] *Ib*. i, 531–9.
[37] GST cerdd 267. Barnai Enid Roberts mai yn ystod y blynyddoedd 1550–1628 y canai Huw ap Dafydd (ByCyAt 106), ond ni ellir cysoni'r cyfnod hwn â thystiolaeth y cywyddau. Diau mai Huw (ap) Dafydd arall a oedd gan Dr Roberts mewn golwg wrth gynnig y dyddiad hwn. Am restr o'r gweithiau a briodolir i'r beirdd a'r elfennau *Huw* a *Dafydd* yn eu henwau, gw. MFGLl 1362, 1363, 1359, 1414, 1415, 1421, 1422, 1607.

| | |
|---|---|
| Moliant | 12 |
| Cyngor | 1 |
| Marwnad | 4 |
| Gofyn | 5 |

Trigai'r rhan fwyaf o'r gwŷr y canodd Huw ap Dafydd iddynt yn Nyffryn Clwyd a'r cyffiniau, ac o fewn cyrraedd hwylus felly i Nantglyn. O graffu ar gylch daearyddol y canu, gwelir i'r bardd ymweld â sawl cartref a fu'n gyrchfan i brydyddion chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, a gallai ymfalchïo iddo gyfarch rhai o wŷr amlycaf Gwynedd, megis Robert ap Rhys a Syr Rhoser Salbri. Tybed ai Tudur Aled, ei athro barddol, a'i cyflwynodd i benteuluoedd Plas Iolyn a Lleweni, ac i Syr Wiliam Gruffudd, Siambrlen Gwynedd, unig noddwr y bardd yn Arfon? Ond nid i'r cylch dethol hwn y perthynai holl noddwyr y bardd. At ei gilydd, prin yw'r canu sydd ar glawr i'r gwyrda a gyfarchodd Huw ap Dafydd, a hynny efallai am fod tuedd i fardd is ei statws a'i gyraeddiadau na'i athro geisio nawdd gwŷr na allent gystadlu â'r Salbrïaid a'u cymheiriaid o ran eu da bydol. Wrth astudio cylch canu bardd megis Huw ap Dafydd a drigai nid nepell o gartrefi'r noddwyr y canai iddynt, ymglywir â'r galw ymhlith y gwŷr tiriog a'r deiliaid swyddi lleyg ac eglwysig am wasanaeth y prydyddion, ac apêl gyffredinol y diwylliant a gynrychiolent.

Diddorol yw'r modd y cyfleir yn y canu y bwlch rhwng yr haenau uchaf a'r rhai is eu statws. Cynnil yw'r cyfeiriadau at hynafiaid y gwŷr hynny nad oedd amheuaeth ynghylch eu grym a'u statws, megis Syr Wiliam Gruffudd, Syr Rhoser Salbri, Robert ap Rhys a Siôn ab Elis Eutun o Riwabon. Y mae'r ymatal bwriadus yn amlycach gan mai tuedd Huw ap Dafydd yw mawrygu ei noddwyr trwy fydryddu eu hachau yn ofalus-drefnus dros dair cenhedlaeth, ac weithiau dros bedair neu bump. Fel arfer, bydd yr hynafiaid o ochr y tad a'r fam yn destun balchder. Yn achos y ddau gywydd i'r ddau ŵr eglwysig, Syr Robert ap Siôn, person Llanfwrog, a Syr Tomas ap Robert, ficer Llanynys, rhoddir y flaenoriaeth i'r ach o du'r fam; awgrym fod y llinell honno yn rhagori ar linell y tad.

Gellid cynnig ymhellach fod crefft y cywyddau unigol yn ddrych i ymwybod y bardd â statws cymdeithasol. I Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn y cyflwynwyd y cywydd mwyaf caboledig, o ran ei gynganeddiad a'i addurn; ceir 68 llinell ar y cymeriad *m*, a phob llinell namyn un yn cynnwys cynghanedd groes. Y cywyddau sy'n cynnwys cyfartaledd isel o gynganeddion croes yw'r rhai a ganwyd i Syr Tomas ap Robert, ficer Llanynys, ac i ddau ŵr y methwyd â chanfod eu hach yn *Welsh Genealogies*, sef Lewys ab Ithel o Laneurgain—gŵr y dywedir ei fod yn ewythr i'r bardd[38]—ac Elis ap Gruffudd, prior Rhuddlan.

[38] Isod 3.35–6, *Tau, f'ewyrth, eto fwa, / Tau, Lewys, dwyn pob tlws da.*

## *Amser y canu*

Nodir rhai ffeithiau am y noddwyr yn y nodiadau ar y cywyddau unigol. Cynigia'r pedair marwnad yn y casgliad ddyddiadau pendant sy'n hwyluso'n fawr y dasg o amseru gweithgarwch Huw ap Dafydd, ac er na ellir dyddio'r cywyddau moli ac erchi â'r un pendantrwydd, nid dibwys eu tystiolaeth hwy:

| | |
|---|---|
| Tudur Aled | *c*. 1525 |
| Siôn ab Elis Eutun | 1526 |
| Rhisiart ap Hywel | *c*. 1530 |
| Syr Rhoser Salbri | 1530 |
| | |
| Elis ap Gruffudd | 1500–30 |
| Syr Siôn Aled | 1522–36 |
| Lewys ab Ithel | *c*. 1523 |
| Syr Wiliam Gruffudd | cyn 1531 |
| Robert ap Rhys | cyn 1534 |
| Pirs Gruffudd | cyn 1540 |

Rhaid cydnabod y gallai Huw fod wedi dechrau prydyddu cyn 1520 a chanu i Birs Gruffudd neu Syr Rhoser Salbri, dyweder, ond canodd hefyd i'r genhedlaeth a ddilynodd y gwŷr hynny a fu'n croesawu Tudur Aled yn chwarter cyntaf y ganrif, ac nid annichon ei fod yn dal i ganu yn y pedwardegau. Gwŷr ifainc yn ddiau oedd Hywel ap Siôn, Bryncynddel, Elis ap Hywel, Crogen, a Lewys Cyffin, Gartheryr, pan ganodd Huw ap Dafydd iddynt, am mai beirdd a oedd yn eu blodau yn ail a thrydydd chwarter y ganrif a'u marwnadodd, sef Gruffudd Hiraethog, Owain Gwynedd ac Wiliam Llŷn.[39] Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd, rhaid bodloni ar gynnig mai yn nauddegau a thridegau'r unfed ganrif ar bymtheg yr oedd y bardd yn ei flodau, a bod lle i amau'r dyddiad a gynigiwyd gan John Davies, Mallwyd, yn ei eiriadur, sef 1500.

## *Y gynghanedd*

Barnai Simwnt Fychan mai *kynghanedd groes yw yr orav o'r kynghaneddav*,[40] a dyma'r gynghanedd a ddefnyddiwyd fynychaf gan Dudur Aled a Lewys Môn, a chan gyfoeswyr llai helaeth eu cynnyrch megis Lewys Daron a Siôn Ceri.[41] Dengys yr ystadegau isod, sy'n seiliedig ar y cywyddau

[39] GGH cerdd 9, GOG cerdd 4, GWLl cerdd 93.
[40] GP 118.
[41] GLD xx; GSC 20; YB ii (1966), 44–6; Eurys I. Rowlands, 'Dadansoddiad o Gynghanedd Lewys Môn', LlCy iv (1956–7), 135–61.

defodol wrth enw Huw ap Dafydd, ymlyniad y bardd hwn drachefn wrth yr un gynghanedd:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm llinellau | | 1509 |
| Croes | 1246 | 82.6% |
| Traws | 108 | 7.1% |
| Sain | 131 | 8.7% |
| Llusg | 24 | 1.6% |

Pan edrychir ar y cywyddau yn unigol, gwelir bod canran y gynghanedd groes yn uwch nag 82.6% mewn un cywydd ar bymtheg o blith y ddau ar hugain, ac mewn dau gywydd fod pob llinell namyn un yn cynnwys cynganeddion croes.

Ni wahaniaethwyd rhwng y groes a'r groes o gyswllt yn y tabl uchod. Defnyddiwyd y groes o gyswllt ar 90 o achlysuron, sef 7.2% o holl gynganeddion croes y bardd. Gellir dosbarthu'r rhain fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm croes o gyswllt | 90 |
| y cytseiniaid *f, n, r* | 19 |
| cytseiniaid eraill[42] | 57 |
| ewinog | 4 |
| hanner cyswllt | 2 |
| cymhleth[43] | 8 |

Cyfrifir y llinellau hynny sy'n cynnwys *f*, *n*, ac *r* ganolgoll yn llinellau croes. Sylwyd ar 54 enghraifft, y rhan fwyaf o ddigon yn cynnwys *n* ganolgoll (31) ac *r* ganolgoll (19), ond dylid ychwanegu at y rhain 9 llinell ac ynddynt *m* ganolgoll.[44] Yn y cyswllt hwn, dylid galw sylw at un llinell sy'n cynnwys *m* wreiddgoll, sef 16.1.

O ddadansoddi'r cynganeddion traws yn fanylach, ceir bod 22 o blith y 108 llinell yn cynnwys cynganeddion sy'n ymylu ar fod yn gynganeddion croes am mai un gytsain yn unig a erys heb ei hateb yn ail ran y llinell, sef 20% o'r cynganeddion traws.[45]

[42] Y gytsain *d* a atebir fynychaf; digwydd hyn ar 25 achlysur. Benthyciwyd *m* ar saith achlysur yn y cywydd i Syr Wiliam Gruffudd lle y cynhelir y cymeriad *m* o'r dechrau hyd y diwedd.

[43] Cynnwys un o'r cynganeddion cymhleth y bai camosodiad. Am enghreifftiau cyffelyb, gw. GSC 23–4.

[44] Yn J. Morris-Jones: CD 151–2 dyfynnir enghreifftiau o linellau sy'n cynnwys *n* wreiddgoll ac *n* ganolgoll, ond ni chyfeirir at enghreifftiau sy'n cynnwys cytseiniaid eraill. Gw. ymhellach GP 121, a Thomas Parry, 'Cytseiniaid heb eu hateb', *Barddas,* 33 (Medi 1979), 6–7.

[45] Gw. trafodaeth Eurys I. Rowlands ar y pwnc hwn yn LlCy iv (1956–7), 137–8.

Yn achlysurol y dewis y bardd lunio cynganeddion llusg, ac fe'u ceir mewn chwe chywydd yn unig. Fodd bynnag, cynnwys y cywydd i Lewys ab Owain naw enghraifft, traean yr holl gynganeddion llusg sydd yn y canu, ac 11% o gynganeddion y cywydd dan sylw. Ni cheir cynifer o gynganeddion sain yn yr un cywydd arall ychwaith, sef 29 (34% o gynganeddion y cywydd, a ffigwr sy'n cynrychioli 22% o holl gynganeddion sain Huw ap Dafydd). Ar dir cynganeddol, rhaid amau hawl Huw ar y cywydd hwn, er nas priodolir i'r un bardd arall.

Y cywydd tebycaf, o safbwynt ei gyfansoddiad cynganeddol, yw'r un i erchi pais gan Syr Tomas ap Robert. Niferus yw'r cynganeddion llusg yn hwn drachefn (9, sef 10%), ond y tro hwn y mae canran y cynganeddion sain (sef 15%) yn debycach i'r hyn sydd yn y cywyddau eraill. Awgrymwyd bod a wnelo crefft y cywydd yn rhannol â statws y gwrthrych. Gallai hyn esbonio canran gymharol isel y gynghanedd groes yn y cywydd olaf (sef 57%), ond ni ellid cymhwyso'r ddadl hon at y cywydd i Lewys ab Owain lle y gwelir cyn lleied â 35 cynghanedd groes, sef 42%.

O droi at y cywydd serch, ac at y cywyddau lle nad enwir Huw ap Dafydd, ceir bod cryn amrywio, er nad yw canran y gynghanedd groes yn is na 60% yn yr un ohonynt. Y cywydd o waith Huw Llwyd sy'n cynnwys y nifer mwyaf (85%), a pherthyn hwn yn ddaearyddol i diriogaeth glera Huw ap Dafydd ac i'r un cylch o noddwyr. Ni cheir yn hwn yr un gynghanedd lusg. Y mae canran y groes yn 76% yn y cywydd cymod, ond yn disgyn i 60% yn y cywydd i erchi bwcled lle y ceir 11 cynghanedd sain (sef 23%), a'r cywydd serch. Awgrymwyd y gallai'r cywydd erchi fod yn eiddo i Huw Llwyd Fyr; yn anffodus, ceir cryn wahaniaeth rhwng y ddau gywydd sydd wrth enw'r bardd hwn, fel y nodir isod.

## *Cerddi ansicr eu hawduraeth*

### i. Wrth enw Huw ap Dafydd

*Y dyn a'r gwallt dan aur gwiw* (cerdd 23)
Fe'i priodolir mewn llawysgrifau a gopïwyd yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg i Huw ap Dafydd ac i Lewys Glyn Cothi,[46] ac i Hywel Dafi mewn pum llawysgrif a gopïwyd gan Lywelyn Siôn tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ar bymtheg. Ni ddiogelwyd yr un cywydd serch arall o waith Huw ap Dafydd, ond fe'i hawlir iddo yn betrus am fod y testunau yn y llawysgrifau sy'n priodoli'r cywydd iddo yn rhagori rhyw ychydig ar y lleill.

[46] Ni welir yr un cywydd serch wrth enw'r bardd hwn yn GLGC.

*Pwy'r gŵr od, pêr gariadwaith* (cerdd 19)
Yn Hafod 13 [= Card 2.623] y ceir y copi cynharaf, ac felly yn achos y cywydd i erchi bwcled (*Pwy sy 'chlaw Powys â chledd*). Ni elwir Lewys ab Owain yn siryf, ac fe'i canwyd, gellid tybio, cyn 1545, ac ychydig yn ddiweddarach na gweddill y canu. Y mae cyfartaledd y gynghanedd sain (34%) a'r llusg (11%) yn uwch o lawer yn y cywydd hwn nag yn y cywyddau eraill. Serch hynny, rhaid cydnabod bod crefft ar y dyfalu, a'r cymeriad llythrennol yn amlwg yn y llinellau sy'n cyfarch y rhoddwr. Ni phriodolir y cywydd i'r un bardd arall.

ii. Wrth enwau beirdd eraill

*Y mab a'i glod ym mhob glyn* (cerdd 24)
Yn Llansteffan 125 y ceir yr unig gopi, ac wrth enw Hywel Llwyd. (Ychwanegodd y copïwr yr enw *Hywel* wedi iddo ddileu yr enw *Huw*). Priodolir cerdd 22 yn yr un llawysgrif i Huw Llwyd ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, ac efallai fod Wiliam Bodwrda yn dymuno gwahaniaethu rhwng y ddau. Ymwelodd Huw ap Dafydd ag aelwydydd yn nwyrain sir Feirionnydd, a gwyddys i'w athro barddol, Tudur Aled, ymweld â'r Tywyn a chanu yno gywydd cymod adnabyddus.

*Pwy sy 'chlaw Powys â chledd* (cerdd 25)
Enw Huw Llwyd o Wynedd sydd ar ddiwedd y cywydd yn Hafod 13 [= Card 2.623] a chan fod Iaco ab Dewi yn tadogi'r cywydd i erchi dagr ar Huw ap Dafydd yn yr un ffynhonnell, nid annichon ei fod yn barnu mai bardd gwahanol oedd Huw Llwyd o Wynedd. Ailadroddir y pum cwpled olaf yng nghywydd Huw Llwyd Fyr i Ddafydd ab Ieuan, a geill mai ei gywydd ef yw hwn. Sylwer hefyd fod canran y gynghanedd sain (23%) yn uwch na'r hyn sydd yng nghanu Huw ap Dafydd, ond yn debyg i'r hyn sydd yn y cywydd i Ddafydd ab Ieuan (21%, ond gwahanol yw dosbarthiad y cynganeddion yn yr ail gywydd a briodolir i Huw Llwyd Fyr, sef croes 83%, traws 11%, sain 6%). Er bod Caethle ac Ynysymaengwyn ill dau o fewn cyrraedd hwylus i'w gilydd, tâl nodi fod gan y ddau deulu gyswllt trwy briodas â theuluoedd yng Ngheredigion.

*Ebyd sydd â bywyd saint* (cerdd 26)
*Sain Siôr Siôn Trefor, sein trefydd* (cerdd 27)
Y mae'r dystiolaeth ddaearyddol yn sicrach wrth drafod y canu a briodolir i Huw Llwyd yn llawysgrif Peniarth 127, sef y cywydd hwn, yr awdl (cerdd 27), a'r cywydd darniog sy'n gorffen â'r llinellau:

> .. mor alawnt ar maer eilwaith
> gwar a chawc aur goruwch ael
> glan Trevor glain nod ryvel

Aro rwysc evror esgair
ysgwydd duc ni wisgodd dair.[47]

Ymdebyga'r trosiadau o fyd chwedloniaeth i'r hyn sydd yng nghanu Huw ap Dafydd, a digwydd yr ymadrodd *eigion cad* yn awdl Huw Llwyd ac yng nghywydd Huw ap Dafydd i Rys ap Siôn.[48] Cyfetyb y cywydd erchi hefyd i ganu Huw ap Dafydd o ran ei gynganeddiad. Gellir dadlau yn weddol hyderus mai Huw ap Dafydd a ganodd y ddwy gerdd hyn.

[47] Pen 127, 257.

[48] Isod 8.58 a 27.64. Sylwer ar y tebygrwydd hefyd rhwng y llinellau hyn: *Sgwierbrint osawg eurbraff* (5.23), *Gŵr hoff eurbrint, gorff hirbraff* (7.28), *Rhoi hap eurbrint, rhyw purbraff* (26.27).

## *1*
## *Moliant y Sersiant Pirs Gruffudd, Caerwys*

Pwy'n y gorchest pan gyrchynt?
Pwy fal y cawr palfog gynt?
Pa Felwas naid, palfais Nudd,
Pêr ysgraffwin? Pirs Gruffudd.
Etifedd hwnt Dafydd hael
Eto byth wyt, ab Ithael.
Rhoed part o waed Rhotbert wych
I'th ddurfrest a'th wayw hirfrych.
Pais o ddur, pwys y dderwen,
Pwy ond hil y Pendew hen?
Cynnau dy wres Conwy draw;
Clod hir yw clywed d'euraw.
Trwy Stanlai troist dy henlwyth,
Trum ar wŷr Ffrainc, trwm yw'r ffrwyth.
Rhoi yn berbren, rhan burbraff,
Rhydain grym, rhyw Edwin graff.
Tor balis tyrau Bwlen,
Tir byw Cai, hydd Torbog hen.

E'th rifwyd a'th wŷr iefainc,
Arthur ffres, wrth ddorau Ffrainc.
Pa ben tir pob anturiaw?
Pirs, drych i wŷr Paris draw;
Llawes drom yn llywio stryd,
Llew'n dwyn haf Llundain hefyd;
Blaen at wedd, bliant oeddych,
Ben-hydd cwrt, bonheddig gwych;
Trawst dewr sad tros dyrau Sin,
Tarw, barwnwaed tŷ'r brenin.
Pwy'n ŵr o gorff pen ar gant?
Pirs o wrsib, pur Sersiant.
Ac yn eich swydd y gwnewch sôn
Amdanoch ym myw dynion.
Pwy ni'th glyw, pennaeth y glod?
Pêr yw blaen parabl ynod.
Is yw galont os gwelir,
Un uwch ei dop no choed ir.

Mae dy lun am dy laned?
Maint yw'r grym; antur i Gred.
Barwn brau, yn bwrw'n y brig
Bu'r troed abl, bar tridyblyg.
Bron un ais brenin Oswallt,
Braich, a maen gwn brych mewn gallt.

Myn y glod am wayw neu gledd,
Min a'i bennod mewn bonedd.
At y gwasg eto gwisgwch,
Am sir y Fflint mesur fflwch,
Ac ar gynnydd, gwŷr gennyd,
Act yr hen Ector a'i hyd.
Od wyd yn hir, dad ein hiaith,
At yr aelod t*o*r eilwaith.
Mae byth hyd Iorc, mab i'th dad,
O fewn gwŷr ofn neu gariad.

O'r tyddyn yr wyt iddaw,
Â'r hafn drwy wŷr Rhufain draw.
Tras ireiddlwyth tros Ruddlan,
Tasel o aur, ti sy lân.
Gŵr ir fry ar gaerau'r fron,
Gwŷr â chastell gorchestion;
Tyrau trymion, tir tramawr,
Tŷ saig maeth y t'wysog mawr;
Naw bwrdd yn llawn, beirdd yn llys,
Naw bonedd, wyneb ynys.
Wyth ugeinwyr aeth gennyd
Am einioes draw mewn ystryd.
Dyn yr êl dan aur eilwaith,
Digopyr wyd, gap yr iaith.
Da fu erwydd dy fwriad,
Da gwnaethost di gnithio stad.
Da wyd am aur, dad y medd,
Da fu wyneb dy fonedd.
Da fych byth, di-fai uwchben,
Da fu d'aros, dwf derwen.

*Ffynonellau*
A—Pen 86, 6 B—Brog 6, 20r

*Amrywiadau*

1 *A* ..pen.. 3 *B* ..nod.. 4 *B* ..ysgraffwn.. 6 *A* ..ap.. 7 *B* ..rhobart.. 9 *B* ..pwys o.. 10 *B* pennod.. 13 *B* ..troes du.. 15 *B* ..benbren.. 18 *B* ..kwys hir.. 19 *B* oth..aeth.. 23 *B* ..drwm.. 27 *B* traws.. 28 *B* taraw.. 30 *A* ..orsib.. 31 *B* [31–4] 35 *B* ..galawnt.. 38 *B* main.. 39 *B* barwr.. 44 *B* myn.. 48 *B* ack..o hyd 49 *B* ..tad.. 50 *A* ..tvr.., *B* ..dur.. 53 *B* ..i ddwyt.. 60 *B* ..maeth tywyssog.. 66 *B* a.. 67 *B* ..arwydd.. 68 *A* ..gwnaethost yn.., *B* ..gweithio.. 72 *B* daf dy..

## *2*
## *Moliant Hywel ap Siôn ap Dafydd, Bryncynddel*

Bryn y sydd o breins heddiw,
Bryn a dôl barwnwaed yw:
Bryncynddel, Hywel, a'i hyd,
Bryn naw gwin, barwn, gennyd.

Hirddewr gŵr hardd i'r Goron,
Help y sir Hywel ap Siôn.
Hyd drum y rhod troi mae'r hil;
At ras Dafydd troes dwyfil.
Gwn nad aeth o gnawd Ithael
Neb o ryw na bai ŵr hael.
Ednowain aeth dan un iau,
Edwin gynt un ag yntau,
Llwyth, ac am waed lleithig Môn,
Llu to*r*fo*e*dd, llew at Arfon.
Tu Rhobert diarhebwyd;
Tras afal aur tros fil wyd.
O Iarddur, glyn irdderw glas,
Oen y beirdd, wyneb urddas;
Coffawn d'alw, cyff hen dylwyth,
Caut o'u marl ŷd, Coetmor lwyth.
Mynwes di-ofn mewn ystad,
Mae Stanlai am estynwlad.

'Nannerch, Rhydderch y rhoddion,
Naw llu sydd yn y llys hon.
Gŵr am wlad grymiol ydych,
Gosawg Ysgeifiawg, gwas gwych,
A mwy rhyfel, môr hefaid,
Am war y Fflint mur a phlaid.
Eto dwy fil atad fydd,
A maenol Goedymynydd.
Da ddoe oeddud i ddyddiaw,
Da o bai drin â bwa draw.
Heddiw dilesg, hydd dulwyd,
Hywel ddi-rus, haelddewr wyd.

Hwsmon wyt, os mewn natur,
A wnaeth parc o wenith pur.
Wyth franar cynnar cennyd,
Tai ar y ddôl, tiroedd ŷd,
Melinau teg ymlaen tir;
Marcio atoch mae'r cytir.
Erydr yt aeth ar dre-tad;
Wythgan hwyl i'th gynheiliad.

Byrau dy wledd barod lân
Aeth ail faich Ithel Fychan:
Brig ystad,—ba ryw gost oedd?—
Bara gwyn, berw a gwinoedd;
Ych âi gennych i giniaw
A bir drud y bore draw;
Can, Baiwn *a* fenswn fydd,
Cyrff rhost ceirw *y* fforestydd;
Pob rhyw gost rhwng pupr a g*y*rch,
Pedair gŵyl powdr ac el*y*rch;
Pob rhyw bysg ymysg y mêl.
Pob tuedd, pawb at Hywel.

Gwyllt a gwâr gynnar gennyd,
Gwyn wyd i'r beirdd, gwindai'r byd.
Dy law bur a dâl, barwn,
Ban ballai rai ar a wn.
Ti a roddut aur uddun,
Traul naw a'r tri*a*el yn un.
A doe rhifaist d'aur hefyd,
Difalch edn y gwalch, i gyd,
Ac yn hawdd y gwnai heddiw
Blygu'r beilch fal blagur byw.
Gair dilwfr gan garw dulwyd,
Glana' cnawd dyn, glain cnot wyd.

*Ffynonellau*
A—Pen 72, 102 B—LlGC 6681B, 52 C—LlGC 435B, 102

*Amrywiadau*
3 *C* ..a hyd 14 *ABC* ..tyfodd.. 15 *B* ty.. 20 *AB* ..mark.. 22 *AC* ..a mis dynwlad 26 *B* ..o yskeifiawg.. 28 *C* am varr.. 43 *AB* ..bathawd.. 45 *A* ..barw.., *B* ..berw.. 47 *C* ..ar giniaw 49 *ABC* ..o fensswn.. 50 *ABC* ..keirw

fforestydd 51 *ABC* ..a geirch 52 *AB* pedr.., *ABC* ..eleirch 55 *C* gwyll.. 56 *AB* gwin.. 60 *ABC* ..trinel.. 65 *C* ..dilwrf..

## *3*
## *Erchi bwa gan Lewys ab Ithel, Llaneurgain*

Y barwnwalch brau annwyl,
Eurgain, gwin a roi gan gŵyl,
Lewys, hydd gwineulwys hael,
Lân, aethost o lin Ithael.
Seined wyd Siôn nodidawg,
A gwaed Rhys âi'n goed yrhawg;
Iach Hywel, oedd uchel lwyth,
Fychan, o berllan burllwyth,
Ap Hywel, uchel iachoedd,
Bonheddig o Gynfrig oedd;
Afon waed Iefan ydwyd,
Ac o frig llin *G*ynfrig Llwyd;
O d*u* dy dad, dodud win,
Aed yt waed hyd at Edwin.

Rhôi Dduw'*n* aml rhoddion yma;
Rhannodd ywch bob rhinwedd dda.
Llaw â rhinwedd lle'u rhennir,
Llaw Nudd hael, llonydd a hir.
Ni chad awr, ni chaid orig,
Na thorri d'air, na thro dig.
Synnwyr ynot sy uniawn,
Syber o ddull, sobraidd iawn.
Rhoddi nid mal rhai eiddil,
Gildio mwy no golud mil.
Mewn tafarn, er maint yfed,
Mwyna' o'r un man a red,
Gŵr enwog â gair uniawn,
Gŵr eusys wyd grasus iawn.
Lliw d'wyneb garllaw dinas,
Llyna wrid yn llawn o ras.
Tau arfau i ti orfod,
Tau rym a chledd trwm a chlod,
Tau air Ffwg yn torri ffon;
Ti a rydd o'r tai roddion.

Tau, f’ewyrth, eto fwa,
Tau, Lewys, dwyn pob tlws da,—
Da, nid da’r ordeiniwyd hyn,
Dan unclo rhag Dai Nanclyn.
Maddau, Ifor, am Ddafydd;
Mwy, Lewys, rhoist ym lys rhydd.

Dof i gael dy fwa gwych,
Da’i naddwyd, yw newyddwych.
Ni chaid ef, a choed iefanc,
Ir ei bwys, o aur y banc.
Gan hael haws, gwn hwylio hyn,
Garu mawl nog aur melyn.
Eurgloch fal bwa, arglwydd,
Glân a roi o galon rwydd.
Os ei gefn sy gyfiawnwych,
Ei fol a gaf o liw gwych:
Cyrn annwyl cair yn unoed,
Muchudd a lliw rhudd lle’i rhoed.
Da gweithiwyd yn deg weithian
Ei grys ef m*a*l egroes mân.
A saeth fraisg pan saethwyf fry,—
Oes faner a sâi i fyny?
Lluosog yw y llais a gân;
Pob ergyd fal pib organ,
*M*al cloc bêr ei lleferydd
Yn nodi awr yn y dydd.
*F*fon i yrru ffyn eraill,
Ffraeth, yn llywodraeth y llaill.
Trythyll ei blant trwy wythwynt
Draw i ochi gyr drwy awch gwynt.

Rhwydd orchest, rhodd a archaf,
Rhudd a gwyn yn rhodd a gaf.
Rhodded Mair, ddawnair ddoniawg,
Dwy rodd dros y rhodd yrhawg:
Iechyd i’r galon uchel
A’th oes yn deiroes y dêl.

*Ffynhonnell*
LlGC 644B, 74v

*Darlleniadau'r llawysgrif*
12 ..Kynfrig.. 13 o dy.. 15 ..ym amyl.. 54 ..mel.. 59 [ ]al klock.. 61 [ ]fon i..

*4*

## *Erchi bwa gan Elis ap Gruffudd, prior Rhuddlan*

  Pwy yw eryr gwŷr a'u gwin
Sy'n tystio gwaith Sant Awstin?
Prior, ymlaen doctoriaid,
Rhoddlawn gwalch, Rhudd*lan* a gaid.
Anfon iaith i nef a ŵyr,
Elis, un olau synnwyr.
Llwyth Gruffudd yw'r budd, ar barch,
Llin Robin llawn oreubarch;
Gwraidd Edwin, mewn gradd ydwyd,
Dyn o nerth Ednowain wyd,
A phaun Rhys wyd, a phen-rhaith,
Ac o Phylib gyff eilwaith.

  Da yw d'enw, nid wyd annoeth,
Dysgedig bendefig doeth.
Dyfn o wraidd, difeinwr wyd,
A thad i bregeth ydwyd.
Pawl gynt, ac nis plygai ŵr,
Brig iaith, a fu bregethwr.
Am bregeth, ddifeth ddyfyn,
Dewi fry y de*uai* fryn.
Rhoi un wedi'*r* rhain ydwyd,
Tro dau o Dduw, trydydd wyd.
Teg dy daith o'r iaith, ir oedd,
Tr*o*i nifer tua'r nefoedd.

  Elis, o grud i elor,
Gŵr o ras Duw, gorau stôr.
Adeilaist mewn ardaloedd
Dŷ i Fair wen, diofer oedd:
Main a gwydr, mae'n gaeedig,
A derw braisg ydyw'r brig;
Cwyr, clych, cerygl lle cair clod,
Llafur pur, llyfrau parod.
Moli Duw nef dy grefydd,
A mawl i'w fam aml a fydd.
Mawr dy nerth, yn aberthwr,
Da gwnai gamp, dau egin gŵr.

Gorau perchen, llên â llaw,
Bwa ydych heb adaw.
Câr wyf ywch lle cair f'achwyn,
Clöi fy nghêr, clyw fy nghwyn:

Siôn wyf fi, os henw a fydd,
Llwyd o Iefan, llew Dafydd.
Prynu erioed heb oedi
Y bwa mawr y bûm i.
Garbron ni ddaliodd, gair brau,
Bren drud a brynwn dridiau.
Mae gennych chwi, y Prior,
O byst o yw bwâu stôr.
Moeswch ym, y mae eisiau,
Un bwa braisg ni bo brau;
Llafn o yw gwych llyfn a gad,
Awenyddaidd ei naddiad.
Rhwydd fydd ym gael gan hael hyn:
Rhodd cyfiawnwaith, rhudd cefnwyn.
Llwyr wrth ymaflyd â llaw
Lleinw 'nwrn, llinyn arnaw.
Ystaenia *a*r lais os tynnwn,
Ac yn ôl saeth y gwnêl sŵn.
Briwa'r gad, braw ar gedyrn,
Bawl union gwych, blaenau'n gyrn.
O daw'n gam dan ei gymell,
Erioed y pair ergyd pell.
Cwmpas â braich, campus bren,
Neithr o deil wneuthur dolen,
Fal y llafn dur pur, heb bai,
O fewn unawr fo unionai.

Tynnwy' lle rhyglyddwy' glod,
Try ennill ym o'r trinod.
A'r gair oll aed i'r gŵr llên
A'i llithiodd ar y llathen.

*Ffynhonnell*
J 139 [= RWM 14], 495

*Darlleniadau'r llawysgrif*
4 ..rhudd a gaid 12 ..kyff.. 20 ..i dewu i frunn 21 ..wedu rhain.. 24 trri.. 31 kerigl kwyr kluch.. 57 ysteiniar lais..

## *5*
## *Marwnad Siôn ab Elis Eutun, Rhiwabon*

Troes Duw oergwymp tros dewrgorff,
Tarw Elis gwymp, Troelus gorff.
Trais yma, Siôn, trosom sydd;
Trist yw'n byd tros d'enw bedydd.
Tros dy wraig cau'r muriau main,
Tros dy fab troes Duw f'ubain:
Rhoi gweddi drom, rhoi gwaedd drwch,
Yn Rhiwabon rhoi ebwch.
O'th ddaearwyd i'th dderwen,
Aml yw'r waedd ym Maelor wen.

Parhau'n ei said pur hen*w* Siôn,
Peri ceirw parc o wyrion:
Siôn ar ôl Siôn, yr ail s*a*eth,
Siôn o'r hil sy yn helaeth.
Trydydd trwy'r gwinwydd â'r gwaed
—Trawst a'i lwyth tros daleithwaed—
A fyn glod o fin ei gledd;
Euro'i fynwes ar fonedd.
Gwŷr y taid i'w gwrt ydoedd,
A'u cinio, 'mlaen canmil oedd.

Swrth yw'r modd y syrthio'r mis,
Sin heb ail, Siôn ab Elis.
Sgwier*b*rint osawg eurbraff,
Os gair Prins, ysgwïer praff;
Glain di-rus, glân dy reswm,
Galawnt rhwydd tri arglwydd trwm.
Dy blasau dan barcau byd,
Dy lawnder di o lendid.
Nid un gost yn ei gastell,
Ni wnâi ddug neuaddau well.
Da gnot o ŵr, *da* gwnaut hyn:
Adeiladaeth Duw lwydwyn.
Ac i'th oes y gweithiasan'
Glochdai ac eglwystai glân.
Dyddiwr oeddud, ŵr addwyn,
Dyn da ddoe, a Duw'n dy ddwyn.

Duw dug gorff godidog gwych,
Dan y pridd d'wyneb rhwyddwych.
Dy gŵyn i feirdd, dygan' f'oes,
A Duw'n d'ennill, dwyn d'einioes.

Pan oeddut ti, '*n* fud dy fin,
Yn llew breiniol llu brenin,
Ysgwïer ar gwrser gwyn,
Wyth a welid i'th ddilyn.
Er euro brig eryr brau
Wedi i'r gwŷr ado'r gwarae,
Dy hun yr wyd, hen yw'r wedd,
Dan y gweryd yn gorwedd.
Ni ddamwain, O Dduw, yma,
Nid dim, ond *ei* weithred da.
I'th faendy'r aeth, o'i fewn draw,
Wyth ugeinwyr i'th gwynaw.
Uchel y rhoed uwchlaw'r hin
Uwch dy fedd och dwy fyddin.
A'th fesur, o'th ddyfeisiwyd,
Agos i lun Aiacs lwyd.
*G*ynnydd corff, *g*an Dduw y'*i* caid,
*G*urig wyn, gŵr ac enaid,
Wrthefyr lun wrth Ddofr las
A roed arno ryw dyrnas.

Dy lun, Siôn, yn nwyfron iaith,
Draw sy deilwng dros dalaith.
Dewraf oeddud o'r fyddin,
Diwarth a drud wrth y drin.
Da cawn dy fyd cyn dy fedd,
Dyn dewrwych da yn d'orwedd.
Diwedd d'oes, da oeddud, ŵr,
Da bo'r enaid i'w Brynwr.
Draw achos dy ryw uchel
Dy sgrin am d'wysog yr êl.

*Ffynhonnell*
BL Add 14967, 212

*Darlleniadau'r llawysgrif*
11 ..henn.. 13 ..seth 23 ..print.. 31 ..owr y gwnnavt.. 41 ..ti vvd.. 50 ..y.. 57 kynnydd..kann dduw y kaid 58 Curic..

## *6*
## *Marwnad Rhisiart ap Hywel, Alrhe*

Wylo’r wyf ail yr afon;
Wylaf o’m brig lif i’m bron.
Oer fu weled ar Faelor,
Ail rew neu fwg, Alrhe’n fôr.
Niwl a dŵr yn y wlad oedd
Am Risiart, em yr oesoedd,
Fab Hywel, glain uchel glân,
Oer ei fawrgwymp, ŵyr Forgan.
Bwrw ŵyr Iorwerth, bar euraid,
Bu yn y Fflint ben a phlaid.
Bwrw ein henwalch brenhinwych,
Bwrw y llwyn oedd berllan wych.

*I*r oedd, câr i wraidd coron,
Tewdwr mawr, Tudur ym Môn.
Pen a phinagl,—pwy’n ffynnu?—
Pont fawr i’r Ddwy Faelawr fu.
Pruddach yw glan Peryddon
Priddo Llŷr, pen milwyr Môn.
Dal y bêl, dial y bu,
Dan iau pell, dyn heb ballu.
Gŵr i’w gâr oedd gorau gaid,
Ac oen gwyn gan y gweiniaid;
Gelyn y llaill, galon llew,
Gŵr dilesg gair hyd olew.
O’i fin, ar wŷr fwy no’r iaith,
E ddôi gwfr y ddwy gyfraith.

Mab Rhisiart sy ’mhob rheswm
Un fraint ar wŷr, yn faen trwm:
Aer yw Elis i’r aelwyd
Egyr y llys am garw llwyd.
Rhoes air y tad, Rhisiart wyn
Ap Rhisiart; hap i’r rhosyn.
Gyda’r ddau goed ir *e* ddêl
O gyd-iach â gwaed uchel
Chwiorydd, chwech o wraidd chwyrn,
Hael coed, i hilio cedyrn.

Mam i hyn mae yma hi,
Od yw drist, a du drosti.
Mwy dôi rhew, mae du ar hon,
Margred wen, mawrg*r*i dynion;
Lloer Elis lle’r âi wylaw
Ac yn ei bron eigion braw.

Ni phallodd lle llanwodd llu
Naw can gwledd cyn ei gladdu.
Glân oedd ei galon iddynt;
Gwŷr a gweilch a garai gynt.
Cynnal i glêr Canol Gwlad,
Cynyddiaeth cŵn a wyddiad.
Mewn llu byd mae’n llai, heb wedd,
Marchwriaeth meirch o’i orwedd,
A’r aur i’r glêr, eryr glân,
A’i drwsiadau drwy sidan.

Wyled bawb; y wlad y bu
A wnêl cwyn yn ôl canu.
Yn ei lys fyth, wylo sy fau,
Ni chwardd dyn â cherdd dannau.
Cau f’alarch mewn cyfelin,
Cywair i’w gorff cwyr a gwin.
O bu’n ddewr â bôn ei ddart,
Ba le rhoes y bêl, Rhisiart?
Ector fawr act ar ei fedd
A’i darian wedi’i orwedd,
Y pennaf ei opiniwn
A ufuddhaent i fedd hwn.
Duw dug hydd godidog hael,
Nid dwyn enaid dyn anael.
Iawn *i’r* beilchion o’r *b*ylchau
I’w fed*d* a’i hyd ufuddhau.
Ni bu neb na bai’n ei war*t*.
Nifer oes nef i Risiar*t*!

*Ffynhonnell*
Pen 117, 369

*Darlleniadau’r llawysgrif*
13 yr.. 21 ..a gaid 30 a.. 33 ..ira ddel 40 ..mowrgi.. 67 iawn [ ] beilchion or [ ]ylchav 68 iw ved[ ].. 69 ..ward 70 ..Risiard

## *7*
## *Cyngor i Rys ap Siôn ap Maredudd, Derwen*

Y gŵr sy tan gorsed dur
Â gwarthafl a gwayw Arthur,
Rhys freuddewr, rhois fry weddi:
Rhoi oes y tad, Rhys, i ti.
Siôn oedd bob asen iddaw,
Os argoel drud, Syr Gei draw.
Llin Mredudd, llanw môr ydwyd,
Llafn a llath, llaw Iefan Llwyd.
Yn lle'r cyff ni ellir cael,
Heb wraidd, unmab ar Ddinmael.
Rhyw nyth gwalch, rhoi enw y'th gaf,
Rhan o wŷdd yr hen Addaf.
Bydd yn fraisg, baedd Owain frau
Brogyntyn, i'w brig wyntau.
Y derw iefainc o Drefawr,
Dyna lwyn nid ân' i lawr.
Duw a raddiodd dy wreiddion,
Rhoes hap a sir, Rhys ap Siôn.

Bôn gwaed, yn benaig ydwyd,
Brethyn aur bro Ruthun wyd.
Pwy'n fyw â llafn pan fo llid?
Palf â meddiant plwyf Meddwid.
Am iau dy dad mae dy dynn,
A tho iefainc i'th ofyn.
Mae gorchest i'th frest a'th fron;
Ymwasg d'air ymysg dewrion.
Â gwayw'n eu brig, onnen braff,
Gŵr hoff eurbrint, gorff hirbraff.
Tyn i'r rhiw, tywynna 'rhawg,
Ti ai'n bregeth, tân brigawg.
Er a ddalion' o'r ddwywlad,
Mau obaith dyn, mab i'th dad,
Nid wyt ar ôl, nid aut, Rys,
O'r iau flaen i'r Fêl Ynys.
I neb, ben-rhaith, ni bu'n rhad
Na siwrnai na hys arnad.

Gwyllt oeddud; gwell yw dyddiaw
No gwylio drwg na'i gael draw.
Bydd arafddewr, bydd rifddoeth,
Ni bu yn ddewr na bai'n ddoeth.
Eich wyneb ni châi anair;
Nâd i gard newidio gair.
O chwarae disiau nid aeth
Yn nhop ynys un pennaeth.
(Och i'r fath chwarae a fu
Am ei bais, y mab Iesu.)
Gwaetha' 'deilad, gwaith dwylaw,
I ŵr ar drwmp roi aur draw.

Dyro d'arian ar diroedd,
Dal dy ran, diledryw oedd.
Dy dŷ, Rhys, da wyd yrhawg,
Ym a'th groeso, maeth gwresawg.
Llaw Fargred yn gweled gwan
Yw llawrodd y Llaw Arian.
Gorau hon, da gŵyr hynny,
Gan weled dull gynnal tŷ.
A'th fwrdd erioed a'th feirdd, Rys,
Yw bwrdd traul a beirdd Troelus.
Di-oed i glêr, da dy glod,
Dewr wyd, Rhys, a dur trosod.
Y ddeutir a ddaw atad,
Ac ar dy du gwŷr dy dad.

Deinioel rhoed, yn ail rhydain,
D'oes, gŵr march, dewisgarw main.

*Ffynhonnell*
Pen 64, 173

*Darlleniadau'r llawysgrif*
6 ..geil.. 14 ..bric..

## *8*
## *Moliant Rhys ap Siôn ap Maredudd, Derwen*

Y ddeuRys oedd ddihareb
Am ynys hwnt, mwy no Sieb:
Aer y Tywyn o’r tuedd
A’r elain aur o Lyn-nedd.
Ar ôl y rhain yr ail Rhys,
Ato’r awn, y tair ynys.
Gŵr dewr hael â geirda ’rhawg
Glan Clwyd a Glyn Clywedawg.

Nanmor at hoywior Tywyn,
Iorwerth a’i glod wrth y Glyn.
I ti, bardd ateb urddas,
Ydd wyf yr ŵyl Adda Fras.
Y mae’ch gair, mwyhewch gariad,
Am roi gwledd ym mrig y wlad.
Mae’r gair, da oll, Margred wen,
Mal Esyllt am alusen:
Lloer Rys, yn ei llaw yr aeth
Rhan haelion, rhôi yn helaeth,
Lleithig y wlad, llwythau glân,
Llywarch un, Llŷr a Chynan.
Pigodiaid, nawplaid yn un,
Pa ryw henw pur ohonun?
Hon o daid hynod ydoedd,
A hon o’r iach hyna’r oedd.

Rhoed Duw aur ’r hyd dy wyrion,
Rhoes hap a sir, Rhys ap Siôn.
At Fredudd tyfu’r ydwyd
Heb fan llai, ab Iefan Llwyd;
O euraid frig, Ririd frau,
Adda gynt oedd ac yntau;
Blaidd â nerth Bleddyn wrthyd,
Fychan, o bedwar ban byd.
Cyw eryr glân, cai’r aur glog,
Cael gwaed abl Coel Godebog.
Gorau ymysg aur a main
Gair Trefor hyd gwrt Rufain.

Ac un o frig Owain frau
Brogyntyn, a brig yntau.
I’th ddur ystwyth ar wastad
Enillud dop yn lle tad.
Dy frodyr di fu’r adwy;
Diobaith mynd â’u bath mwy.

Tywysen aur, ti sy’n ôl,
Tân byw ydwyd, dyn bydol.
Pwy’n uwch tâl? Pen eich tylwyth,
Palfod Syr Lawnslod ar lwyth.
Syr Gei fych pan ddelych ddig,
Syr Bŵn, aesawr ben ysig.
Troud olwg trwy dy elyn,
Torri gwayw ’dd wyd, draig o ddyn.
Maint Iorys mewn y tiredd
Yma’n cael awch â min cledd:
Llwybr*w*ayw a llid lle bo’r llu,
Llew’n seith*dd*ryll yn eu sathru.

Swyddog ydych sydd geidwad,
Sydd yn glo i swyddau’n gwlad.
Drwy Ruthun draw yr aethoch,
Drwy eigion cad, dragwn coch.
Dwrn wyneb Derwen Anial,
Dy ofn yw dŵr dwfn hyd Iâl.
Rhys dihareb, rhoist arian,
Rhys dewr, i glêr rhoist aur glân.
Rhinwedd unmab rhan Ddinmael,
Rhys, orau Rhys, eryr hael.

*Ffynhonnell*
Pen 64, 176

*Darlleniadau’r llawysgrif*
53 llwybrayw.. 54 ..sseithryll..

## *9*
## *Moliant Syr Robert ap Siôn, person Llanfwrog*

Pwy o wreiddion *pur addysg*?
Purion dawn, pwy a ran *dysg*?
Syr Robart, rhywart i'n rhaid,
Synnwyr yr holl bersoniaid;
Llaw, Ifor Hael yw llyfr hwn,
Llanfwrog, llew hen farwn.
Sefyll ar gyfraith sifil,
Mawr yw dy ddysg ymysg mil.
Didwyll ydd wyd yn dwedyd,
Yn union ganon i gyd.
Gŵr ar ddadl g¡raidd ydwyd,
Gloyn Duw doeth, y glendid wyd.
Gŵr wyt ti gair yt a wedd;
Gyr ran o'r gair i Wynedd.

Rhyw lên od, rhy lân ydwyd,
Rhyw lew o waed rheiol wyd:
Siôn, ar frig synnwyr y fro,
E rodded y gair iddo;
Imp o Ruffudd, a'm proffwyd,
Un piau'r wlad, a'n *perl wyd,*
*A glain brau, dyn* gloyw'n y brig,
*Ar glas*, yn ŵr eglwysig;
Dafydd, rowndwal ardaloedd,
Dan allu saint, Dinllaes, oedd;
Gwaed Reinallt o gydrinwedd,
Bleddyn Pothan, maethlyn medd;
Llath euraid iawnllwyth Urien,
A grawn praff, ac o'r un pren.

Arogl yw ar a glywais,
A'r un sêl, o Ronwy Sais;
Iach Dewdwr, iechyd ydwyd,
Ira'i flaen, o'r afal wyd;
Derwen a blaenbren y blaid
Drwy furiau aur Dreforiaid;
Euro eich gwaed, ir yw'ch gwedd,
Hil Einion hael o Wynedd;

Ffrwd môr wyd yn rhagori,
Ffelwal at afal wyt ti;
Ar adwy, Langffordd rediad,
*Blaen* Bruwtwns, gwns yn y gad;
[ ] sarff [ ]
A’r edn sad o’r [ ]

Afal cystal â’r costart,
Archiagon, ar chweugain art.
Wrth Erclais y’th farneisiwyd;
Grafiad yr un gryfder wyd.
Ofer yw tâl ar ford hir
Na chlod heb iach Elidir.
Maharen, glân lle’r hanwyd,
 gwlân aur ym mhob glin wy*d*.
O’th waedoliaeth ar ieithoedd,
Isa’ gwaed tywysog oedd.
Ei graddau oll a’i gwraidd ir
A’i daioni a ’dwaenir.

Chwi ar lwyth yn nechrau’r w*lad*,
Hwyntau’n dwyn y tyn *danad*.
Chwi y sydd beunydd yn b*en*;
E fu Eisag neu Foes*en*.
I chwi gwedd anrhyd*eddu*,
A chan feirdd eich *henw a fu*.
[ ] y farchnad
[ ] glain y chwe gwlad.
Nid unair mewn daioni
Yn eich oes undyn â chwi;
Nid un rym yn dwyn aur wedd,
Nid un wisg, nid un osgedd;
Nid un fodd â llawrodd llyn,
Nid un waed a dawn ydyn’;
Nid un radd, nid un roddion,
Nid un ystent rhent hyd Rôn.
Nid rhaid sôn am haelioni
Na cherdd ond yr einwch chw*i*.

*Ffynhonnell*
Pen 64, 289

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..wreiddion [ ] 2 ..rann [ ]y[ ] 20 ..an [ ] 21 [ ] gloyw.. 22 [ ] yn wr.. 40 [ ] brvwtwns.. 50 ..glin wy[ ] 55 ..nechrau r w[ ] 56 ..tynn [ ] 57 ..yn b[ ] 58 ..voess[ ] 59 ..gwedd anrryd[ ] 60 ..ych [ ] 72 ..chw[ ]

## *10*
## *Erchi pais gan Syr Tomas ap Robert, ficer Llanynys*

Y gŵr o ddysg, arwydd oedd,
Gŵr o stad i Grist ydoedd,
Pedr a'i gorff, pwy wedi'r gŵr
Piau moliant pum milwr?
Caint cyrr*a*edd, cynta' corun
O'r byd erioed fu Bedr wyn.
Sain Tomas, Syr Tomas, tau,
Llu bedydd, holl wybodau.
Dy ddysg ydoedd ddwys gadarn,
A bonedd uwch heb un ddarn.
Darllain cyfraith, bob deirllin,
Sifil ac art, sy fal gwin.

Saith anian sy i'th wyneb,
Syr Tomas, o'r tu ym*a* i Sieb.
Mab Rhobert, am hap rybell
Ni bu 'rioed wynebwr well.
Gwaed Dafydd âi'n goed tewfawr,
A*b* Wiliam, ail Beli Mawr.
Pob iach '*n* burach no barwn;
Pum mil o'i had; pwy mal hwn?
Gwaed Rhys âi'n goed trwy asur;
Llyna fawr barch Llanfair bur.
Llin Ronwy llawn ar Wynedd,
Cynwrig *lân*, cawn aur a gwledd.
Brau gadarn i'w brig ydwyd,
Blaidd un ll*i*w â Bleddyn Llwyd.
Bleddyn, aer Bleddyn wrol,
*Fy*chan, nid âi ran ar ôl.
Bid Heilyn, bwa talaith,
Frych, yn un o freichiau'n iaith;
Rhys yn ail uwch Rhos â'i nerth
I gadeirio gwaed Iorwerth;
Llaw lân ddewr Llywelyn Ddu,
Llwyth Cynan, lleithig can*n*u.
Gwaed a dysg gwedi disgyn,
Mawr ei gost am aur a gwin.

Syr Tomas, ir wy*t* yma,
Ac imp dysg, o gampau da.
Aut o lendid at Lundain;
Tir a môr yt, aur a main.
Doethaf wy*d* i'th fyw atun;
Nid da hael onid dy hun.
Gŵr o gorff i gau ar gant,
A'ch iad acw uwch decant.
Gwrthefyr, gwŷr i'th ofyn,
A gaem yn hawdd, gymin hyn.

Rhois f'annerch, Rhys wyf finnau,
Datgeiniad i brelad brau.
Caf y bais, cof yw ei bod,
Mwy *yw'r* rhodd am yr hyddod.
Tri chroen trwy *ei* charennydd
A wnïed oll yn un dydd:
Brethyn main, lliain oll oedd,
Dwy blaid o'i dwbwl ydoedd.
Bariwyd ton lle bwriwyd dysg
Pe bai weddaidd pob addysg.
Pais Iesu, pwysai oesoedd,
I Beilad aeth, abled oedd.
Cadwodd ei ben, cydwedd bur,
Heb ddialwaed, heb ddolur.
Dawn yn y bais dan d'ais di
Wrth iawnddull, a'i wyrth ynddi.
Ni chaf annwyd uwch f'einioes;
Bo rhwydd i'r gŵr byw a'i rhoes!

*Ffynhonnell*
Llst 163, 3

*Darlleniadau'r llawysgrif*
5 ..kyredd.. 8 ..hollt.. 13 ..sydd.. 14 ..ym.. 18 ap.. 19 ..iach bvrach.. 24 kynwric kawn.. 26 ..lleew.. 28 [ ]chan.. 34 ..kanv 37 ..irwyd.. 41 ..wyt.. 50 mwy rrodd.. 51 ..trwy chyrenydd

## *11*
## *Moliant Pirs Salbri, Bachymbyd*

Piau pennod pob bonedd,
Pirs, am win Paris a medd?
Coeliwn i un, calon aur,
Carw o Siôn, curas henaur.
Draw o Salbri dros seilbren
Dyma sarff o Domas Hen;
Blaidd y Dôns blwydd hyd Winsawr,
Brau ystoc ieirll, â brest cawr;
Dytwn ffyrf, dod d’enw ffurfaidd,
Duw, ni wn roi dyn un wraidd;
Dôr uwch y wlad, aur a chledd,
Drws o Fenabl dros fonedd,
Ac o Salbri geseilbraff;
Ar wŷr y Prins eryr praff.
Rhoi bu’r taid, Rhobert ydoedd;
Rhoi eto win; rhyw yt oedd.
Llaw aur a chrest Llywarch Rudd
Aeth, a’i wryd, i’th ddeurudd.
Coetmor ffyrf caut mor ffurfaidd,
Cannyn o ryw Cynan wraidd.
O graffwydd gwaed Gruffudd Goch,
Y mae’r ernes mawr arnoch.
Bachymbyd gennyd gannoes,
Barwn o fab ira’n f’oes.

D’aelwyd deg oedd yn dal tir
Deutu Clwyd at y cleidir.
Troist dy iawnbwys tros Dinbych;
Traeth yn aur yt Ruthun wych.
Ystiwart braisg, os dart brau,
Ym, â dwrn am wayw darnau.
Swyddwr glân, os haeddi’r gloch,
Swyddau d’ynys sydd danoch.
Dy roi’n wych heb dario’n ôl,
Doethaf wyd o iaith fydol.
Cyfr a thad cyfraith ydych,

Cyfiawni cwrt, cefnog gwych.
Ar y ddadl iraidd ydwyd
Ac ar y fainc araf wyd.
Cedwch yr heddwch yrhawg,
Cordia wlad, carw dyledawg.
O fewn eu cyrff ofni caid
Yr ai allan ar wylliaid.
Llocha wan oll i'ch einioes
Er ofn dim ar a fo'n d'oes.

Dwg ystod yn dy gastell;
D'wyneb i'r dyn ni bu well.
Byrddau gannwyl, beirdd gennyd,
Brawn a biff breua'n y byd.
Seigiau dy fyrddau, dwy fil
Sydd iddynt, swydd ddieiddil:
Saith ugain gwlad, seithgan gwledd,
Siwgr, gwin, sew o geirw Gwynedd;
Adar maent o dir a môr,
A mêl unsut mal Winsor.

Mae d'arwydd yma i dariaw
Megis, yn drwm, Macsen draw.
Mae'r gwŷr meirch? Mae'r gwewyr mellt?
Mwya' prifiad mab breufellt.
Un wrth y llid â nerth llew,
A dialwr hyd olew.
Un dyn sydd yn dwyn swyddau,
Ni thyn dug wth yn dy iau
Wrth aros, aur i'th wryd,
I roi'r balf ar wŷr y byd,
A difri'n eich dwyfron aur,
A da tynnych did henaur.
Lle cwerylych, llew creulon,
Lletha ieirll â llathwayw onn.
Llawn foliant llwyn o filwyr,
Llid arth â llewod o wŷr.
Llwyn breugoed fal llanw brigwyn,
Llaw Dduw dros fy llew o ddyn.

*Ffynonellau*
A—Pen 64, 143  B—Llst 168, 220

*Amrywiadau*
6 *B* ..o d[ ] 8 *B* ..ivrll b[ ] 21 *B* at.. 32 *B* ..dinas.. 36 *B* kyfionwin.. 40 *B* ..lid karw deleda[ ] 62 *B* ..deg..

*12*

*Marwnad Syr Rhoser Salbri, Lleweni*

Mawr wae'r byd am ŵr âi *i*'r bedd!
Mair dug enw Morda' Gwynedd.
Mawr yn fyw, mae arnaf fi
Môr llawn am aer Lleweni:
Môr oer, glaw am arfau'r glêr,
Mars o'i wres marw Syr Rhoser.
Sêl âi mewn gro, Salmon graff,
Salbri, marchog ceseilbraff.

Sul y Pasg selio pwy oedd?
Sul a brawd Salbri ydoedd.
Y Sul Gwyn isel gennych
O'i fwrw uwch Caer, farchog gwych.
Gweiddi ddoe guddio ei ddwrn;
Gwael a siêd yw gŵyl Sadwrn.
Ni allwn ddoe 'n llawn o ddig,
Nadwylwn, ddull Nadolig.
Drwy Gaeroswallt,—draw gresyn—
Duw, gwaedd hir digwyddo hyn.
Y tir oedd drwm; torrodd draw
Ar ei siwrnai'r oes arnaw.
Yr Iesu, dug ŵr o stad,
A droes wythlef drwy seithwlad:
Y Berfeddwlad, bur foddlawn
Acw'n eu dydd, cwyno'u dawn;
Dialedd Duw a welwn;
Dinbych oll dan y baich hwn.
Ei ddur, a'i faich, oedd ddaered,
A maner llew, main ar lled;
Ei gorff nod, gŵr ffynadwy.
Ai gwŷr â myrr ac aur mwy?
Dwyn Syr mawr dan sêr a main.
—Du am wŷr—dyma'i arwain.

Breugyff enwog, brig ffyniant,
Brodyr a chefndyr a chant.
Ac yno'dd oedd gan ei ddwyn
Ar ei gweddi wraig addwyn:

F’arglwyddes fawr ei gwleddau,
O throes,—du oll i’w thristáu.
Elsbeth ail, os bath Elen,
A wŷl y Groes i Loegr wen.
A bid o’i rhyw bedwar hawg
A dwy ferched i farchawg.
Tyn eto wŷr tanad ti,
Twym seilbraff, Tomas Salbri.
Un wyt ifanc yn tyfu,
A’r hynaf o’r henw a fu.
Aur rhywiog am aer rheiol
I’r llu â nerth iarll yn ôl.
Synnwyr gŵr,—Siôn yw’r gorau,
Siôn a gewch dros hŷn ac iau.
Ffrith o lin gwaed ffrwythlon gynt,
Ffowc â nerth ffawcwn wrthynt.
Nod Rhobert â naid rhybell;
Ni bu raid wynebwr well.

Trôi wayw ysgwâr trwy was gwych;
Tanbaid fu stiwart Dinbych.
Lloegr a Ffrainc lle gorffai’r och,
Llaw a llygad llew lliwgoch.
Ystiwart troes â dur trwm
Am y pris ym mhob rheswm.
Bu ar fainc bower ei farn,
Braich Eidol brau a chadarn.
Cwyn am farn cennym a fydd,
Cwyn tlodion cant o wledydd.
Cwyn glewddoeth cyn ei gladdu,
Cefnai feilch, cyfiawnaf fu.

Iesu, trwm na roesut draw
Yn ei swydd einioes iddaw.
Ni ddygai, mae’n ddiogan,
Na’i dir, na’i goed, na da’r gwan.
Cawn o’i farw, cwyno f’eryr,
Cwyn mal eirth, can*m*il o wŷr.
Cloi gŵr me*wn* clai a gweryd,—
Cilio’n bell calon y byd.
Caewyd am ŵr coed a main.
Caf o’i dref cof hyd Ru*f*ain.
Cwyn Cymro, cainc o Emrys,
Cannoes ar ôl, cwyn Syr Rhys;

Cwyn Troea fawr cawn trwy Fôn,
Cwyn Lloegr yn cynnull eigion.
Cyda'i fedd caewyd y farn,
Clos gwydr am Ercles gadarn.

Uwch ei fedd (o chaf iddaw
Fry uwch y llawr fraich *a* llaw)
Y bo rhydd, o bu rhoddiad,
O fwnai *i* glêr fwy no gwlad.
Gwae ni eilwaith gan wylaw
Gaethiwo'r hael â gwaith rhaw.
Dwyn oes hwn,—daioni sydd
Dan y caib, nid enw cybydd.
Dan ei bwys Duw'n ei basiwn,
Digon teg, dug enaid hwn.

*Ffynhonnell*
BL Add 14967, 223

*Darlleniadau'r llawysgrif*
1 ..air bedd 72 ..kannil.. 73 ..mem.. 76 ..rvain 84 ..vraych llaw 86 ..vwnai gler..

## *13*
## *Moliant Robert Salbri a Gwenhwyfar, Llanrwst*

Y llys teg mawr, llesâd dyn,
Â brig gwinoedd, barc gwenyn,
Llys Robert, llesáu'r aberth,
Lleweni'n un, llawn o nerth;
Llew gwynias, llaw ag onnen,
Llyna ras Duw Llanrwst wen.

O'r ddwylys yr arddelwyd,
Ym mrigau'r llin mawr garw llwyd,
Sul Gwyn, a selio Gwynedd,
Salbri mawr sy lwybrau medd.
Drws  a'i fesur dros Foesen,
Doed hwn o hil Dytwn hen.
Gwaed Fenabl i gadw f'ynys;
Mae hap y llwyn ym mhob llys.
Llaw ruddaur, llew, a roddoch
Lle'r ewch â gair Llywarch Goch.
Ni wn d'ail yn ein dwywlad
Ond urddas Tomas y tad.
Mastr Robart, nawgwart yn un,
Aeth y gwyliau i'th galyn.
Doed ar y corff did aur coch
Fal yr oedd fil o'r eiddoch:
Euro'ch dôl, yr ych dulwyd,
Uwchlaw'r un â choler wyd.
Ni wyra'n d'oes 'r un dy iau,
Ni'th alaethan' a'th lwythau.

Llety *i*'r gwan lle trig ynys,
A llwybr i win lle bu Rys,
Ac yn hafog Wenhwyfar
Y rhoes yn ôl Rhys yn wâr.
Bonedd o Rys ab Einion,
Ŵr du hael, a roed i hon;
Rhys Wyn â brig rhosyn brau,
Penwyn wych, pwy'n un iachau?
Merch oedd ryw Marchudd reiol,
Mae'r un had mawr yn ei hôl:

Llwyn ir o blant, llyna'r blaid,
Llu nefol oll hynafiaid.

Galw y gwin bob gŵyl a gwaith,
A'i roi i weiniaid ar unwaith.
Nid rhaid annog tra dynion
Er achub iaith, yr ych bôn.
Doed Gwynedd i'th wledd a'th lys;
Trig yn hon trigain hynys.
Doethder ac irder i gyd,
Deutu Conwy doed cennyd.
O'th gariad, bennaeth gwrol,
O'th ofn y dôn' i'th fyw'n d'ôl.
Lle'th goeliant llu a'th galyn,
A heibio'r ieirll heb yr un.
Oen Duw oeddych yn dyddiaw
A llew drud yn y llu draw.

Wrth y brud y'th astudiaf,
Wrth fodd a'th garodd y'th gaf.
Uchel wyd uwchlaw a wn;
Is yw corweilch nis carwn.
Chwi'n galonnog, rywiog ras,
Chwarddwn o fod ywch urddas.
Post acw'n pwyso decant,
Praff wyd ym mhob rhiw a phant.
Pwy'n cynnal? Pen iau cennyd;
Perl ac aur purloyw i gyd.
Pa grest iarll? Pa groesau dur?
Pa lew, t'wysog plât asur?
Pa waed o'n hiaith? Poed yn hen
—Pwy mwy stôr?—pum oes derwen!

*Ffynonellau*

A—LlGC 3051D [= Mos 148], 64  B—LlGC 21248D, 22r

*Amrywiadau*

4 *A* llyweni n llawn..  8 *A* ymric y llin am..  11 *A* draws..  12 *A* ..had..  27 *AB* llety r..  39 *A* galw gwin..  40 *A* ..roi weiniaid..  48 *A* ..don fyth yn dol 66 *A* pe..

*14*

## *Moliant Syr Siôn Aled, ficer Llansannan*

Mwy sôn no maes o wenith
Am un heb ler mwy’n ei blith,
Y gŵr, i’w bais gair y byd,
Y sy bur o syberwyd.
Mesur y sydd am Syr Siôn
Mwy no d*eu*frig mewn dwyfron.
Yt oedd, y mae’t hawddamawr,
Aled, o fewn y wlad fawr,
Llên wy*d* ir, llawn o deiriaith,
Llew Tudur oll, tad yr iaith.
Byw’n y ddadl ban ddywedi;
Bwrdd tâl am y bardd wyt ti.

Rhoi bu’r taid, Rhobert ydoedd,
Rhout dy win; rhyw i ti oedd.
Ofer yw gwaed i fro gwalch
Heb enw Ithel benaethwalch.
Ŵyr Lywelyn, ir loywlamp,
Chwi*th* o’r gwaed, chwi aeth â’r gamp.
Bwy’n drechaf ban edrych*wy*d?
Ble’dd awn â llin Bleddyn Llwyd?
At rad f’ach y troed y farn;
Eilwaith coed o lwyth cadarn:
Rhydain llwyd rhoed yn y llys,
Rhyw Olwynog, rhòl ynys.
Gosawg ym wyd, gwisgi main,
Gradd uwch obry gwraidd Chwib*r*ain.
Rhoed power taid, Rhotbert hil;
Rhan oedd o’r rhyw aneiddil.
Ednowain wy*d* yn un iach;
Ni bu lynaets neb lanach.
Am lên Grigs ym mlaen Gwrecsam
Aeth Iâl a gwaed Ithel Gam.

Syr Siôn, wyd siars eneidiol,
Sy fyw’n y dysg saif yn d’ôl.
Sierôm wyd, oes ŵr am iaith
Ar Ladin mor ddilediaith?

Awstin o’r Lladin i’r llall,
I’m bro Syr Ambros arall;
Sain Grugor, croyw ragor Cred;
Siôn heb amau sy’n bumed.
Coeliwn i lew calon lân;
Cerais Yniwl côr Sannan.
Yng ngŵyl a gwaith angel gwych,
Yn y weddi oen oeddych;
Yn ŵr llên i euro llys,
Yn y man un am ynys.

Dŵr a thân, dewriaith einioes,
Â dur yn faedd dewra’n f’oes.
Rhout y claim, rhyw at *y* cledd,
Rhout win yn rhaid Dwy Wynedd.
Rhyw yt, gŵr, lle rhout gariad,
Rhoi gwledd ym mhob rhiw a gwlad,
Glain aur o fraint, glân yw’r frest,
Gweilch a meirch, Gwalchmai orchest.
Cluded dy *f*eirdd clod yt fydd;
Caru’r cŵn, ceirw a’r cynydd.
Uchel y cawn, a chael ced,
Dy ffriw’n ôl Dyffryn Aled.
Er euro’r glêr, eryr glân,
Yr ail sôn, ar ŵyl Sannan,
Y ffwr, *d*a’n fod ffortun faith,
Iti dêl at y dalaith.
Byw Caradog be credynt,
Bicar wyd biau Caer-wynt.
Y meitr a êl, amod draw,
Aur a bagl, ŵr bywioglaw,
I decáu’r brig, dwg garbron
Emyn Curig, mewn coron.

*Ffynhonnell*
LlGC 20574A, 141

*Darlleniadau’r llawysgrif*
6 ..dwyfrig.. 9 ..wyt.. 18 chwi or.. 19 byw n.. edryched 26 ..chwi bain 29 ..wyt.. 49 ..at cledd 55 ..beirdd..a fydd 61 ..tan fod.. 63 ..criadog..

*15*

*Marwnad Tudur Aled*

Bardd Aled, beirdd a wylant,
Beth a gân dyn byth gan dant?
Bro gwingoed brig awengerdd,
Bradwyo cawn brydu cerdd.
Bid diddawn y byd heddiw;
Bonedd a barn ban oedd byw.
Gŵr yn ben, gorau'n y byd,
Cael i'w feddiant celfyddyd.
Trais, y naw sir troes yn siêd,
Tid ar ôl Tudur Aled.

Ail Iolo, o Lywelyn,
Ac o du'r Chwith gwenith gwyn,
A buan dewr i ben dôl,
A thraws â maen a throsol.
Byr yw i neb, obry'n iau,
Brofi neidio'i brif nodau.
Ymysg yr iaith 'mwisgo'r oedd,
Milwr llwyd, mal iarll ydoedd.
Carai feirch, câr i farchawg,
Cyfryw hwn ple caf yrhawg?
Caf yn y bedd cyfan byd,
Caf glander cof a glendid.

Briddo da, breuddwyd a wn,
Bwriwyd cytysg brawd Catwn.
Dyn â llên y dunnell oedd,
Dewis awdwr, dwys ydoedd.
Tydai'n bwys, Tad Awen bur,
Tadwys meddyliau Tudur.
Ni bu wrid, wynebwr iach,
Neb at lun na baut lanach.
Clôi mydr o'i waith clymau draw,
Cefn dwned cyfion danaw.
Cawn yn waeth canu'n ei ôl,
Cawn heb oedi cwyn bydol.
Cof a hir och caf yrhawg
Cau derw am fardd cadeiriawg,

Ac aur dafod, gŵr difai,
A chywydd merch o wŷdd Mai.
Goreuro rhòl geiriau ’rhawg,
Grafio dadl gref odidawg.
Ac yr oedd dalm o gerdd dant,
Gordd ¡raidd y gerdd warant.
Diarfu’r gŵr dyrfa’r gerdd,
Dwys ag irgoed ysgwargerdd,
A geiriau mawr y gwŷr mân;
Un ŵyl uchel ni lechan’.

Duw ni fynnodd dwyn f’einioes;
Dug fy mhen,—dig wyf o’m hoes.
A’r galon drwy eigion draw
Ym fu wyth*dd*ryll am f’athraw.
Ni’m lluddian’, gwn na’m lladdwyd,
Nes ei gloi yn ei wisg lwyd.

Sain Ffranses a weles ŵr
O’i wlad, dewis letywr.
Meistr ym oedd, ystôr am wawd,
Mab breuffyrf ym mhob praffwawd.
Carai farddawd Caerfyrddin,
Canau o fêl acw’n ei fin;
Cytsain fry caid sŵn o’i fron,
Cangau nadd cynganeddion.
Ei felysgerdd heb floesgyn,
A’i ddyfal gwych oedd fal gwin.
Parod oedd ddysg prydydd ynn;
Pawb rowndwal pe byw’r undyn.
Pen awen dysg, pwy un dâl?
Pen â gosteg, pwy’n gystal?
Pura’ gŵr, brau, pêr garbron,
Proffwyd ar odlau preiffion.
A brau gywydd, brig awen,
Aeth i’r pridd a thŷ o’r pren.
Dyfod o’i fath, Difiau du,
Draw âi ’ge*i*nnyn drwy ganu.
Ac yn y trŵn gwyn y trig,
A diobaith ei debyg.

*Ffynonellau*
A—Card 2.114 [= RWM 7], 588  B—J 139 [= RWM 14], 39  C—BL Add 14966, 194$^{v}$  D—BL Add 10313, 170$^{r}$  E—BL Add 31059, 107$^{r}$

*Amrywiadau*
1 *B* ..welant  5 *B* byd..  7 *B* ..vn ben..  8 *B* kae..  11 *B* ail i..  14 *A* ..thraws maen.., *B* ..ar faen..  15 *A* ..vn iav  16 *B* ..neidio brif..  19 *B* ..ferch..  21 *A* ..y byd  23 *C* briddv.., *B* ..do..  25 *B* ..i.., *D* ..duwell..  30 *D* ..neu boet..  31 *C* ..clymv..  32 *C* ..dwneb..  33 *B* ..waith..  39 *A* ..yr hawg  42 *A–E* a..  43 *AB* di arfv gwr.., *B* ..i gerdd  48 *B* ..ym hoes  50 *A–E* ..wythryll..  51 *A* nin..  53 *B* ..ffrawnsis a welis..  54 *B* ai..  56 *CDE* ..ym hol..  57 *B* ..farddwawd..  58 *CDE* canefe fel.., *B* ..ackw oi fin  61 *D* y..  64 *B* ..pob rhyw vndyn  67 *AB* ..gwr per..  72 *A–E* ..genyn..  73 *B* ..gwn..  74 *AB* ..yn i..

## *16*
## *Moliant Robert ap Rhys, Plas Iolyn*

Mae hap Rolant, ein prelad,
Mab Rhys dewr, ym mhob rhyw stad.
Mastr Robart, tor fowart faith,
Mynnut olwg mewn talaith.
Mogelwch wŷr, magl a chas,
A gyd-chwardd gyda'ch urddas.
Gwn fod o gas, gwynfyd gwŷr,
Gwynfa gan genfigenwyr:
Cad i falais, cydfiliaw,
Cytuno llais,—cad dan llaw.
Blinaf fôn', wŷr blaen f'ynys,
Bilio hawg Hiraethawg, Rys.
Dy ddyfyn ydoedd ofer,
Doeth hynny, fal saethu sêr.
Môr o'u hôl, ai am wŷr hwnt,
Mur wyd ym, môr a diamwnt;
Llew'n dwyn brig, Ll*un*dain bregeth,
Llaw piau parch, llew pob peth.

Garbron tâl y Cardnal Coch,
Gwrda wythoes, gwir daethoch,
A'th reswm, maen trwm hyd draw,
Ydoedd ateb dy ddowtiaw.
*Eu gwrit* a wnaid, gair twn oedd,
A'i hatwedyd, yt ydoedd.
Llawen *a* gwych, llew, oen gwâr,
Ys*gw*ydaist us ac adar.
Dwedasant, y meddiant mawr,
Do, gant eraill gyn teirawr,
Da fu'*i* rodd gael dofi'*r* rhain;
Dyma lendid am Lundain,
A'th lewed byth i wlad bell,
A'th esgyb i'th ddwy asgell;
Dugiaid i'th wyliaid o'th ôl,
Draw, bab byw, drwy bob heol.

Ym muriau Sieb mawr yw sôn
Magu eryr am goron.
Wythliw gwin o'th law *a* gaid,
Mwy no gŵr, maneg euraid.
Dug ystad, dy gost ydoedd,
Dy ras, bw beilch, dros bawb oedd.
Ceisio bwrw casau byrion,
Y ddâr fawr, oddi ar ei fôn.
Uwch y tyfaist, chwit hefyd,
Ac is yw beilch o gas byd.
Tarw deiliog tir y dalaith,
Tylodi maent ei lid maith.
Gwedi'r aur gyda'r arian
Trwy l*y*wio'n f'oes treuliai'*n* y fan.
Treuliasant, y mabsant mau,
Y tiroedd at dy warrau.
Caf naw stôr, cefnaist eraill,
Cyfion i'r llew cefnu'r llaill.
Y mae'r balf am wŷr y byd,
Ac â chyfoeth gwych hefyd.
[ ]
[ ]
[ ]
[ ]
[ ]
Eto chwardd at eich urddas.

Yma alusen, mal Iesu,
Yw maddau i bawb, modd y bu.
Awch dialwr i'ch dwylaw
O doech â llid uwch eu llaw.
Man dyfnw*y*llt mwy nid ofnir,
Môr Tawch pan gymero'r tir.
Y gŵr âi 'mrig, aur am rodd,
Oer yw'r ynys, arianrodd.
Dynion dewr a dynn yn d'ôl,
Dewrddwys wyd, urddas Eidol.
Os un hirddewr synhwyrddoeth,
Achos o ddewr,—chwi sy ddoeth.
Clo ffortun, claerwyn yw'r cledd,
Cai Hir llên, carw holl Wynedd,
A'ch gair y sydd uwch gwar Sin
I'th fyw 'r ynys a'th frenin.

Câr Cymru rhag plygu plaid,
Gras a erys, groes euraid.
Gem aur y gwŷr, Gymro gwych,
Gair holl Gred a Lloegr ydych.

*Ffynhonnell*

J 140 [= RWM 15], 107

*Darlleniadau'r llawysgrif*

11 blin a fo n wyr.. 16 ..ymi.. 17 ..llydain.. 23 y gert.. 25 llawen gwuch.. 26 ystydiaist.. 29 ..fu rhodd..dofi rhain 37 ..i gaid 48 ..liwio..traulau y fann 65 ..dyfnwallt..

## *17*
## *Moliant Elis ap Hywel, Crogen*

Elis wrol, ais eryr,
A flaena gad o flaen gwŷr,
Glân wyd, a gŵr glew'n dy garn,
Gosawg Hywel, gwisg haearn,
A hael graffwalch hil Gruffudd
Ap Rhys, yn ail pris 'y Nudd;
Dwrn Iefan, gorff darnfon gwych,
Durfrisg carw, dewrfraisg hirwych;
Ei ddur, Ll'welyn, glaerwyn gledd,
Ddu, draws iawn, dda dros Wynedd;
Eutun mawr at hynai' Môn,
Gytûn, a gwaed dau Einion.
Tros waed a rhyw troist yrhawg,
Traeth asur, o'r tri th'wysawg.

Dyn brau addwyn, don breuddellt,
Edeirnion fawr, darnwayw'n fellt.
Lled y ffair oll yw dy ffyn,
Llyna'n bregeth, llwyn brigwyn.
Hyd ystryd o hedaist draw,
Hyd Fenis hwde finiaw.
Aeth y gloywddur i'th gleddau,
Ac ar y brest gwayw ir brau.
Dewr at unllafn dur tanllyd,
Dur gwyn yw dy wŷr i gyd:
Gŵr âi'n llew â gwŷr yn lladd,
Gwewyr amlwg ar ymladd.
Bron a llaw braff, brau, 'n llew *br*ych,
Bo cannwr bwâu cennych!

Glew yn y corff, glân y'i caid,
Gŵr o'r sir, ar gwrseriaid.
Un rhywiog yn yr heol,
Un dyn nid aeth ond yn d'ôl.
Yn un â'r gwan, oen a'r gwalch,
A dur tanfellt i'r tynfalch,
A llew durwisg, llid eryr,
Ac osglog wyd i gasglu gwŷr.

Beth yw rhywiog—bath rheiol—
Barwn o dir bryn a dôl?
Tân o bres wyt yn y brig,
Tor wayw'n us, tarian ysig.
Cwymput wŷr, camp y taraw,
Cans dwyn ystryd Constans draw.
Ysgwydd ywch a wisgai ddur
A ran nerth yr hen Arthur.
Tynnu dy glaim tan dy gledd,
Tid wen, y tad o Wynedd.
Arweinut aur arnat ti,
Elis hir, o lys Harri.

Gair Ffrolo am garw ffriwlwyd,
Gŵr ar faes ag arfau wyd;
Gŵr am aur wyd, grym yr iaith,
Gwrola' o'r gwŷr eilwaith;
Gŵr i'r glêr, gyw'r eryr glas,
Gŵr wyt arnun, gwŷr tyrnas;
Gŵr hael ym, gorau'n rhoi'i wledd,
Gair a fyn gŵr o fonedd.
Wedi Nudd wyd yn y ddôl
Nudd arall yn ddaearol.
Peri wyth gost pur i'th garn,
Pab wyt hefyd pob tafarn.
Pwy ni'th gâr, pennaeth gwrol?
Pwy biau'r dydd? Pawb ar d'ôl.
Pwy ni chryn pan ewch i'r iau,
Post irfawr, rhag pwys d'arfau?
Pen tëyrn wyd, pont er neb,
Poed einioes piau d'wyneb!

*Ffynonellau*
A—LlGC 278B, 54  B—LlGC 1580B, 265

*Amrywiadau*
2 *B* a flinai.. 6 *B* ..a nudd 9 *B* ddar.. 13 *B* ..dy waed a [ ] troist.. 18 *B* llyna bregeth.. 19 *B* ..a.. 22 *A* ..ych brest.. 23 *B* ..dvr t[ ] 24 *B* ..dy w[ ] 27 *AB* ..gwych, *B* ..llaw gawr brav.. 29 *A* ..kryf.. 30 *B* gwyr.. 33 *B* ..yw r gwalch 35 *A* ar.. 36 *A* ..wr.. 40 *A* ..taria n.. 41 *A* ..wr kap.. 44 *A* ..neth.. 47 *AB* arwain yt.. 49 *B* + i, *B* ..gawr.. 50 *A* ..ar far.., *B* ..i faes.. 53 *A* ..gwir ervr.., *B* ..gwiw eryr.. 55 *B* + ii, *B* ..rroi wledd 59 *A* ..karn 65 *B* ..ai pont..

i kaer Bwlen kawr bywiolwych
a adwaenai nerth dy onnen wych

ii ymwlen gamp ymlaen gwyr
y milwriaisd mal Eryr
dy onwayw mawr di yn i mysg
yn y dwrf a wnai derfysg

## *18*
## *Moliant Siôn ap Hywel Fychan, Caer-gai*

Caer ddyffryn Penllyn p*i*óedd,
Caergynyr, ceirw a gwinoedd?
Caer-gai gynt, cerrig a gwŷdd,
Caer Siôn yw’r curas newydd,
Hywel, fonedd hil f’ynys,
Fychan, llin Fechain, a’u llys.

Aer Hywel, ŵyr Hywel wych,
Ar freuder irf*r*au ydych,
A Gruffudd, gwalch graffwyd*d* gwin,
O wres uncorff, ŵyr Siancyn;
Llwyn hyd Dofr, llawn hyd Hafren,
Lle diwarth, hydd Llwydiarth hen.
I ti gweddai, teg oeddynt,
Fonedd gweilch Eifionydd gynt:
O du Elen doed eilwaith
I ddeilio’r gwŷdd lawer gwaith,
O wres Siôn, hir asen hawg,
Ŵyr Faredudd, arf wridawg.
Dy lin oll hyd Lanuwllyn,
Dwg iddi hap; da gwedd hyn.

Llys y bwyd, lles heb oedi,
Llety *i*’r fil lle tariaf fi.
Yn Uwch-y-llyn ewch â llwyth;
Nid âi aliwn â’i dylwyth.
Elsabéth, ail Sieb wythwin,
Â’i llaw a gyrch lliwiau gwin.
Saith fonedd anrhydeddynt
Sy’n graig o aur Siôn Grae gynt,
Mewn damasg a main diemwnt
A glaswydr, hydd Glosedr hwnt.
Ucha’ gwaed, iach a gedwir,
Yw Iefan Teg o fewn tir:
Eigr gwlad Abertanad hydd
O sir graffwayw Syr Gruffudd.
Gair hon, a’i gŵr a henwir,
Siôn wyt o waed, sy’n y tir.

Tyniad y Syr tanad sydd,
Tarw mawr iawn tir Meirionnydd.
Gwŷr Powys, dywys, yn d’ôl,
Gwŷr sir Gaer, gwrser gwrol.
Ti a ddeil hyd dydd olew
Yn neutu’r llyn natur llew.

Blodau y Bala ydych,
Ar ddarnau gwayw arddwrn gwych.
Mynnaist drwy awch mewn ystryd
Mawl, aur, gwin, milwyr gennyd.
Mynnut roi mewn y tiredd
Milgwn, meirch, Maelgwn, a medd.
Glân wyt a glew o natur,
Os glew dyn, mewn osglau dur.
I’th ôl aed pawb i’th ddilyn,
I’th darian aeth dur yn wyn.
Da’r enillaist ar neillaw
Dy gariad a’th wlad i’th law.
Da wyd, brig dywediad brau,
Doethineb daw o’th enau.
O’th filiwyd trwy arswyd draw,
Biliaist hwnt heb le i stentiaw.

Rhyw yt draw, rhyw waed rheiol,
Rhoi d’ofn ym mhob rhiw a dôl.
Gwisg gadwyn, gosawg ydwyd,
Gwelwch mai ail Gwalchmai wyd.
Un lid, dewr, yn y wlad dau,
Ac un addfed gyneddfau.
Y gŵr am aur, gorau i’m oes,
Ystynnid Iesu d’einioes.

*Ffynonellau*

A—BL Add 24980, 169  B—BL Add 31075, 12$^{v}$

*Amrywiadau*

1 *AB* ..pwy oedd  2 *B* ..ynyr..  8 *AB* ..irfav..  9 *AB* ..graffwyd..  11 *B* llwyd.. 15 *B* ..elain..  16 *B* ..ddeuliw r..  19 *AB* ..hyd llan..  22 *A* llety r fil.., *B* llety vil..  24 *B* nid alliwns..  26 *B* ..lluniau..  34 *B* ..syr..  47 *AB* ..tiroedd  62 *B* ..mai Gwalchmai..

*19*

*Erchi dagr gan Lewys ab Owain, Dolgellau*

Pwy'r gŵr od, pêr gariadwaith,
O gynnydd fodd Gwynedd faith?
Pwy â dros ben, capten cant,
—Pwy sy drechaf?—pwys drychant?
Pwy ond Lewys ddewiswr
O gyff Owain, addfain ŵr?
Gwaed Hywel Ddu fu o faint;
Ucha' gŵr ych o geraint.
Hil Ynyr mewn haelioni,
Bleddyn a Chynfyn ych chwi.

I ddwyn achau i ddeall
Rhy hir a fydd cywydd call.
Nid gwiw 'mryson, gwirionDduw,
Y gorau'*i* stad, â gras Duw.
Uchaf bonedd a gweddiad
Yw gras Duw, gorau *ei* stad.
Nid gwiw cenfigen, â dig *i*awn,
Wrth ras Duw, o thristáwn.
*Ond* chwi yw'r gras urddasfawr,
Lewys, ŵr moddus, air mawr.

Dawnus oedd weled d'wyneb
A chalon wych uwchlaw neb.
Llywia'r dynion llawr danad,
Llorf a llew, arglwydd glew gwlad.
Llaesaist y beilch fal gweilch gwâr,
Llaeswr, toriadwr trydar;
Llesiant Gwynedd, fedd f*ydd*in,
Llywiwr gweilch, unlliw â'r gwin.
Llywiaist, cydiaist â'r cadarn,
*Ll*ethaist a sethraist yn sarn,
Llafn dewrwych llyfn diorwag,
Llafn da o nerth, llyfn di-nag;
Llanwayw a br*w*dwayw breudan,
A lluniaidd arglwyddiaidd glân.
Odiaeth Dolgellau ydych,
A gwisgi iawn, a gwas gwych,

A phen cenedl safedlawr,
A phen-rhaith cyfraith, fal cawr.
Y byd a'ch geilw yn bab ynn,
Balch a difalch yw d'ofyn.
Balch wrth gadarn y'th farnwyd,
I ddifalch iaith ddifalch wyd;
Deliwch weiniaid i'ch dwylaw,
Tynnwch y llaill tan eich llaw.

Anodd yw o iawn ddeall
Fodloni byd, cyngyd call.
Ni all undyn â llawnder
Fodloni sy dan y sêr.
Abl oeddych, *o* bu wleddwr,
Pei abl neb, Pabilon ŵr,
I rannu bodd, o ronyn,
Y byd oll heb ado un.
Eich arfer oedd ar goedd gamp,
Lwys dirgel, Lewys deirgamp.
Mynnwch gynnig diddiglan,
A mynnwch roi mwy no'ch rhan.

Erfyn yr wyf rhag clwyf clais
Rodd awchlem a rydd awchlais:
Bidog yn dorrog o dân
A dyr mael â dur Melan.
Hi a dyr dur, hyder dig,
Hi ni thyr hoywnoeth orig.
Elestre*n* loyw astrus
O'r gwydr a friw'r gwaed ar frys;
Helaeth dirgywaeth dur gwiw,
Haul drwy wydr eildro ydyw;
Llath a modfedd a wedda,
Bidog lomddifiog lem dda;
Tân awchlym, tewyn awchlas,
Tudded aurbwynied yw'r bas;
Cloch â'i sŵn, clau awchus hydd,
Mellten wineuwen newydd;
Cryn lafn sad, duriad deuryw,
Croes bwmel gwain, addfain yw;
Llam hytgyrch, llem wayw atgas,
Llyfn yw a glân, llafn iâ glas.
Llyna rodd i'w hadroddi,
Crair cynnen, hoywen yw hi.

Rhoesoch i bob rhai isel,
Rhout farn i'r cadarn a'r cêl,
Rhowch ym hyn rhag dyfyn dig,
Rhodd glanwalch, rhwydd galennig.
Rhoed Duw wyn ar hyd dy wedd
Gannoes i Gadw Gwynedd.

*Ffynonellau*

A—Card 2.623 [= Haf 13], $63^{v}$ B—BL Add 31075, $17^{r}$

*Amrywiadau*

9 *B* ..haelion 14 *AB* ..goreu stad.. 16 *AB* ..goreu stad 17 *A* ..o dygwn, *B* ..o dygawn 18 *B* ..a thrist iawn 19 *AB* chwi.. 23 *B* llywio r.. 27 *AB* ..feithrin 30 *AB* methraist.. 33 *AB* ..brudwayw.. 36 *B* ..gwasgi.. 39 *AB* ..bawb.. 42 *AB* i ddifalch faith ddifalch fyth wyd 43 *B* ..ach.. 48 *B* ..sydd.. 49 *AB* ..oeddech bu.. 55 *B* ..ddiddiglan 63 *AB* elestrem o loyw.. 65 *A* heleth dir goweth.. 66 *AB* ..heildro.. 69 *B* ..awlym.. 70 *B* ..a bas 74 *AB* ..aeddfain.. 75 *AB* ..yt cyrch.. 79 *B* ..o bob.. 80 *B* rhoid..

## *20*
## *Moliant Lewys Cyffin a Lowri, Gartheryr*

Y gŵr a'i glog yn graig las
A ŵyr finio arf wynias,
Cyffin a'i fyddin a'i farch
A wŷl llewod, ail Llywarch;
Lewys am Ynys y Mêl,
Coffawn iach Cyffin uchel:
Gwalch Siôn yn amgylchu sŷr,
Gŵr â tharian Gartheryr;
Corff Wiliam, cawr â phelau,
Carwr brig, cyw eryr brau;
O frigyn Cyffin y caid,
Ŵyr o Forys, arf euraid;
Palfau cyllid plwyf Collen
O wraidd hil ŵyr Adda hen.
Eich hynaf chwi a hanoedd
*O* hen waed, iach Owain oedd;
Iach o'r Waun ywch a rannwyd
I gyd â llin Gadell lwyd;
Iach Degeingl i chwi dygais
O'i blaen y sydd heb lin Sais;
Iach Wynedd wedi'*i* channu;
O'i mewn nid oes un man du;
Iach Hiraethog uwch Ruthun
I'r llu a gyrch o'r llew gwyn.

Mochnant a'th welant i'th oes
Mwy no'u cynnyrch mewn cannoes:
Un a dâl aur yn dy lys,
Ac yn hon ginio'n hynys.
Dy wraig hael, diorwag yw hi,
Da rhydd, Duw a'i rho iddi.
Merch Rheinallt, mawr yw'ch rhinwedd
Ym mrig y wlad am roi gwledd.
Gwledd Lowri'n llenwi pob llys
Fu lonaid y Fêl Ynys.
Gwraig hael, myn y Grog, yw hon,
A'i gŵr eilwaith digreulon.

Ni thiriodd yng Ngartheryr
Onid gwalch, enaid y gwŷr.

Lewys draw i lywio stryd
Â llwyth edling, llath waedlyd,
Rhudda goed, yr hydd gwaedwyllt,
Rhwygwr gwŷr, yr hygarw gwyllt.
Y tân o'th lafn tyn â'th lid
Ar waith amlwg wrth ymlid.
Dwg wrolaeth digreulawn,
Dewr â gair Ffwg, durgorff iawn;
Chwarel o wŷr a cheraint,
Wrth wŷr fal Arthur o faint;
Llwyn pell yn Llan, heb ballu,
Rhaeadr fawr, rhy hydr fu.
Gŵr hyd Gaer gyrred y gwaith,
Gwrolaf o'r gwŷr eilwaith.

Na ladd neb, na ludd i'n oes;
Da dewinia Duw d'einioes.
Drych ein iaith, edrych, yn wir,
A laddo ef a leddir.
Gwna 'smoneth, difeth wyd, ŵr,
A gwna fal y gwnâi filwr.
Bydd gywir ar dir dy dad,
Un dilesg yn ein dwywlad.
Cais dir nis costia eraill,
A myn i'r llys mwy no'r llaill.
O'th blant y gobeithi blaid,
Tair chwarel o'r tyrch euraid.
Na fydd lwrf neu feddal iawn,
Na chwerylwr, na chreulawn.
Canol dy radd cynnal draw;
Cyff dewrwych, caffwy' d'euraw.

*Ffynonellau*
A—Pen 91, 49 B—Card 4.10 [= RWM 84], 795

*Amrywiadau*
3 *A* elfin.. 4 *A* ai.. 7 *A* ..amgylch.. 10 *B* cariwr.. 15 *A* ..ach hynoedd 16 *AB* ych.. 18 *B* ..llwyd 20 *B* o blaen.. 21 *A* ..wedi chanv, *B* ..wedi chwnnu 24 *B* ..ar llew.. 28 *A* ..hwnn.. 33 *B* ..llenwi llys 46 *A* ..dewgorff.. 49 *B* ..y llan.. 50 *A* ..hyder.. 53 *A* na lladd..

*21*
## *Moliant Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn*

Mae act ar drum Ector draw,
Maint Dwy Wynedd maent danaw.
Mae'n ei rym mewn ei raement,
Mwy no chawr, Mynyw a Chent.
Mae, Syr Gai, mesur y gwaith?
Mawr wyd, Wiliam, i'r dalaith;
Marchog glân am euro'ch cledd,
Milwr gwyn am lawr Gwynedd.
Mynnwch, y gŵr, miniwch gant,
Mae*s*, Syr Wiliam, ais Rolant.
Maint ar eich rhest, mewn torch rhudd,
Myn graffwayw, maneg Ruffudd.
Milwr a llew, mal iarll wyd,
Mawr, o Wilym, i'r aelwyd.

Môn a Gwynedd mae'n gynnes
Myned erioed mewn dy wres.
Modrwy Siân, mae dros Wynedd,
Maen rhigal ym yn rhoi gwledd.
Mal Enid hon ym mlaen tes;
Mwy'r goel oedd am arglwyddes.
Moli'r iach 'Maelor a wn,
Mers, hap Wlster, Mars, Pilstwn,
Mêl glan Gwy yn aml glyn gwych,
Maint Euron am Went hirwych.

Mewn Penrhyn ym pwy'n rhoi'n ôl
Meirch a gwyrdd marchog urddol?
Mae tre fawr yma tra fych,
Mae'n gannwr *iwmyn* gennych.
Mae pwy'n rhoi aur? Mae pen-rhaith?
Mae'r chwe gŵyl, marchog, eilwaith?
Maeth a gwin, mwythau gennyf,
Mae sew ceirw ym, osawg cryf;
Mae adar lu'n mudo i'r wledd,
Mêl, gwin gwyn Maelgwn Gwynedd;
Malu siwgr, mêl a seigiau;
Mae power braisg mab hir brau?

Megis Sin mae gwasanaeth:
Mynnu draw ym win o draeth;
Mae byrddau llawn, mae beirdd llys,
Mil trwy wyliau mal Troelus;
Mae gwŷs neu draul Macsen drwm,
Mae hap Rhodri, mab rhydrwm.

Mur o'r aur glân, mawr i'r glêr,
Mynnud eurdyrch mewn dewrder.
'Mwlen Cai Hir ym mlaen cant,
March a ffon, mawr yw'ch ffyniant.
Mewn ystad y mynnaist ti
Min ar gledd mewn arglwyddi;
Maner drom yn aur dremynt,
Menig Cai ymwanog gynt.
Mal oen aur ym mlaen eraill,
Mal yn llew ym mlaen y llaill.
Menybr ydych mewn brudiau,
Mŵn a dyr brig, mewn dur brau.
Mae byw trychawr, mab trechaf,
Mewn eich corff; ymwan y'ch caf.
Mynnut aros mewn tarian;
Mawr ynod awch môr neu dân.
Mawr yw'ch bod fal môr uwchben,
Moes Hwmbrlond am wayw, Siambrlen.
Myn ostwng yma'n ystwyth
Mwlen a Ffrainc am lawn ffrwyth.
Mynnaist dy wŷr mewn ystâl,
Merch a gair, meirch ag arial.
Molt wyneb iarll, mal tân byw,
Mal yr hydd, milwr heddiw;
Mur a chefn, mawr y'ch ofnwyd,
Mwy no sarff am ynys wyd.

*Ffynonellau*
A—LlGC 3051D [= Mos 148], 584 (llau. 1–14), 527–8 (llau. 15–68) B—J 140 [= RWM 15], 540

*Amrywiadau*
3 *B* maen yn y.. 10 *AB* mae.. 17 *A* mordwy.. 20 *A* may r.. 25 *B* ..pwy ai.. 28 *A* ..imiawn.., *B* ..y mewn.. 29 *B* ..yn rhos mae.. 33 *A* ..lv mvdo.., *B*

..mudor wledd 34 *B* ..glain gwynn.. 37 *B* ..sion.. 43 *B* ..glain.. 47 *B* myn.. 53 *B* ..brwydau 54 *B* mewn dyrr brig.. 63 *B* ..di wyr..

## *22*
## *Erchi march gan Elisau*

…A brau, ’n llidiog, bronllydan,
Ac yn ei glog egni glân;
Llun rhywiog, llanwai’r heol,
Llew dan ŵr, llydan ei ôl.
Troter pan gyffröer ei ffrwyn,
Anelai’*i* war yn olwyn;
Curwr sêr pob cwr i’r sarn,
Cnyw rhywiog yn c*n*oi’r haearn,
A chael gwynt uchel o’i gau,
Awch anadl uwch ei enau.

Glew, ’n irfarch, glân ei arfwng,
Golwg blaidd dan gilwg blwng.
Troi’i ben a gâr tra bo’n gwau;
Tân a ddwrn tan ei ddyrnau.
Carnau blaen, cern heb lonydd,
Cair ei liw ’mhais carlam hydd.
Cair yn fawr bwynt, cefnfyr byw,
Crynhoi *i* naid—crwn iawn ydyw.
Ystwyth fydd os i duth fan,
A’i flew’n sad fal yn sidan.
March a red ym mraich yr allt,
Mawr, â chysur march Oswallt.
Mur, ac eidiog, mor gadarn,
Mae hwp y cawr ym mhob carn,
A mawl a ro*f* mal yr aeth
March efydd am or’chafiaeth.

Erchi’r wyf farch o ryfel
Âi dan ddur; i’m dwyn a ddêl;
Af ar ei gefn i fwrw gwŷr,
I filwriaeth fal eryr.
[    ] y caid, o ryw Cadell,
[    ] o’i raid, a fu ŵr well?
Aed i ’Lisau, Daliesin,
Einioes gwalch Ynys y Gwin.

*Ffynhonnell*
Llst 125, 437

*Darlleniadau'r llawysgrif*
6 ynelai war..  8 ..cloi r..  18 crynoi naid..  25 ..ro..

## *23*
## *Gwallt merch*

Y dyn a'r gwallt dan aur gwiw
Ar y sydd o'r oes heddiw,
A'r lliw, 'nyn, gorllewin ôd,
A'r pen mal gynau'r peunod,
Wrth bentis aur y'th beintiwyd,
Dyn un wallt â Dwynwen wyd;
Chwaer i Wen, gymen gemaur,
Frewy, a'i gwallt o frig aur,
Neu bryd Oswallt manwallt mwyn,
O nef fry ne'r fôr-forwyn.

Da gwyddwn, gwelwn ei gwallt,
Da foliannu dyn felynwallt:
Llurig fal mantell arael
Â gorlliw'r aur garllaw'r ael;
Gwallt tebyg uwch diddig dâl
I aur Sandwig 'ry syndal.
E dyfodd aur edafedd,
Drwsiad gwallt, drosod y gwedd.
Gwisg addfwyn yw, gwisgodd fi,
Gosgedd gwallt o liw gwisgi.
Moli hwn mal anhunawg,
Mil liw cyrs ymylau cawg.
Hoedl i wallt, hudol waith,
Pais tâl yn dwyn pwys talaith;
Pwys gwallt a gudd pais a gŵn,
Pwys ymylgylch pais Maelgwn;
Tew gyrs o aur, Tegau'r sir,
Llathraidd o'r iad y llithrir.

Mae dawn, ddyn hyddawn, heddiw,
Cawn glud annwyl, cunog liw:
Aur yw dy frig ar dy fron,
Aur fu barchwallt fab Eirchion;
Dwy gŵys aur, dygais arwydd,
Dau gyfair serch, digrif swydd;
Llyfnu dy wallt, aur llafnawg,
Llawer cwys unlliw â'r cawg.

O chanaf iddo 'chwaneg,
Ni chair dyn â chwi mor deg:
Wyneb Iesu'n ei basiwn,
Orllewin haul fu'r llun hwn.

Mawr boen yw marw beunydd,
Enbyd am fywyd ym fydd.
Yna'dd wyt ti ar ddianc
A minnau drois yma ar dranc.
Yma fyth, gwen, am na'th gaid,
Wyf ym mhoen, nef i'm henaid!

*Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 341 B—Wy 1, 101 C—Pen 112, 401 D—J 139 [= RWM 14], 402 E—Bangor 13512, 166 F—Card 4.10 [= RWM 84], 827 G—LlGC 834B, 159–60 [diwedd] H—Card 5.44, 255$^{r}$ I—Llst 134, 288$^{v}$ J—LlGC 970E, 484 K—LlGC 21290E, rhif 483 L—Llst 47, 422 M—BL Add 31072, 190$^{r}$ N—Pen 83, 159 O—Llst 133, rhif 647 P—Bodley Welsh f 1, 9$^{r}$ Q—LlGC 5474A, 309

*Amrywiadau*

1 *A–EG* y ddyn.., *B* ..ai gwallt.. 2 *H–M* ..yr oes.. 3 *N/OPQ* ay/a lliw mewn.., *AF/EG* ..lliw mewn gorllew nod/mod, *B* .. lliw mewn.., *D* ..lliw naed mewn gorllew nod, *C* ..mewn gorllew nod, *H–M* ..lliw yn.. 4 *E* ..gownay paenod, *H–M* ..val vn or.. 5 *N*–Q [5–6] 6 *F* ..dwy wen.. 9 *HILM/JK* ..Esyllt manwyllt/manwyll.., *N–Q* ..is allt.. 10 *D* or.., *H–L/M* i vair vawr ner/neur.., *N/OPQ* y vair vy neyr/neu.., *A* ..ne ir.., *D* ..ne or.., *F* ..neu ir.. 12 *BDEG–MOPQ* volianv.., *H–MOPQ* ..dy.., *ACDFG* ..felenwalld 13 *HIK–Q* ..aurael 14 *O* gorlliw r.. 15 *LM* 5–6, *N* ..yw.. 16 *BDEGN* ..ar syndal, *H–MOPQ* ..ner syndal 17 *ACF* ef a.., *EG* e dyfai.., *N* ar dyfwyd.., *OPQ* aur dyfwyd yr.. 18 *N* drwy siad gwallt.., *AF* ..drossot ti gwedd, *D* ..ai gwedd 19 *E* gwasg.., *D* ..oedd fwyn yw.., *E* ..fu.., *G* ..fv yw.., *H–M* ..vodd.., *OP/Q* ..oedd fwyn gwasgodd/a gwasgodd.., *BFH–N* ..gwascodd.. 20 *H–M* ..liw r.. 21 *DG–N* molwn.., *E* molw.., *OP* molwn mal.., *Q* molwn fun mal.., *O* ..vn.., *A–G* ..vn hvnawg, *HJ–M* ..melyn hynaws, *I* ..mal yn hynaws 22 *EG* o liw curs.., *H–M* mal liwr.. ymylav r kaws, *OPQ* mal cyrs o ymyleu r.., *ACDF* ..lliw.., *N* ..kyrs liw.. 23 *H–M* hoedl wallt yn dwyn.., *N* hyd hwedl y wallt.., *BFGOPQ* ..hudol i.., *LM* ..iaith 24 *N–Q* pywys.. 25 *ACDF* ..gown 26 *H–M* ..y milgairch.., *AF* ..maelgown 27 *HJ/IKLM* tew o gyrs/grys yw.., *A–DFN–Q* ..gyrs avr.., *OPQ* ..teg ar y sir, *B* ..yr sir 28 *BH–N* llathraid.., *BF* ..y llithir 29 *DEG* i mae.., *N–Q* nev ddawn.., *AC–G* ..dawn hyddawn.. 30 *H–MO* ..glog.. 31 *B* ..vryd.. 32 *H* ..burchwant.., *JK* ..barchwant.., *M* ..mab.., *O* .. Meirchion 34 *HJ* dwy.., *A–DF* ddav..ddigrif.. 35 *B* ..hir.. 36 *FN–Q* a..,

*OPQ* ..a lliw r.. 37 *DHJ* ..iddi.. 38 *OPQ* ..dim.., *HJ* ..i chwi.., *I–M* ..chwi n aur deg 39 *CEG* ..ne bassiwn, *D* ..neu bassiwn, *BF* ..nevi basiwn 40 *F* or llen win.., *H–Q* ..yw r.., *OPQ* ..llwyn.. 41 *H–M* mawr o.., *Q* mawr boen im.. 43 *OPQ* yma.. 44 *CEGOPQ* minne.., *A* ..mynne dros.., *OP* ..a droes yma i.., *G* ..yma n i.., *BDFN* ..dros.., *H–K* ..mi a droes..i drank, *LMQ* ..i drank, *N* ..yma drangk 45 *G* [45–6], *OPQ* y mae n waeth.., *H–M* yma noeth.., *N* ..gwn..

*Awduraeth*
*A–E* Huw ap Dafydd, *F* Huw ap Huw Dafydd *H–M* Huw Dafi *N–Q* Lewys Glyn Cothi *G* Dienw (collwyd y diwedd)

## *24*
## *Cywydd i gymodi Wmffre ap Hywel â'i geraint*

Y mab a'i glod ym mhob glyn,
A'i ras, uncorff ŵyr Siancyn,
Dyn nefol wyd, yn ifanc,
Hydr o'i bwrs i hau da'r banc.
Eich enw*i* gwalch a wna gwŷr
*O f*ilwriaeth *f*al eryr.
Aerwy pur o aur parod
Am y ffriw dau, Wmffre, dod,
A'r gadwyn aur a gedwi;
I Dywyn doed ar d'own di.
Yr ydoedd o fawr rediad
Obaith dug o fab i'th dad.
Iarll o waed, eurlliw ydwyd,
Wythfed neu nawfed ynn wyd.

Arddel y gwaed o'r Ddôl Goch;
Gwlad Wynedd â, glyw, danoch.
On'd tebyg, mil yn tybiaw,
Yr aech â'i llun ar eich llaw?
Ni aned gŵr, *a* wnaed gas
Ni chwarddai, *un*, o'ch urddas.
Mynnwch rwym, maen eich rhaement,
Merch *â g*waed marchog o Went;
Llin landeg, llanwai Lundain
Lle dôi bris llewod a brain.

Mae bâr saint am y berw sydd
Ar farwnweilch Feirionnydd.
E rydd Duw, arwydd deall,
Nad doeth hep*gor* cyngor call.
Ni'th rôi neb, dieithr i ni,
Eithr un o'th rieni.
Eich cenedl, od eich cannwyll,
Gweli dy barch, galw dy bwyll.
Lle delych â llid aelaw,
Er bod llid arbed y llaw.
Dig yw i swrn dy gasáu;
Di-fud fydd drwg dafodau.

[ ]onion sythion y sydd
I'ch athrod â'ch ewythrydd,
Nâd y gynnen hyd Gonwy
O'th fodd nac o'u hanfodd hwy.
Ni mynn*wn* yma unoed
Myned blaen draen yn dy droed.
Mae gwreiddiau, mae gŵyr iddynt,
Meddwl am lan Gamlan gynt.
Iddew ydoedd a ddoedai
Wrth roi'n wg Arthur a'i nai,
Ofer *i* iarll fwrw ei fawrllid
O bai'r llall heb *f*wrw'r llid.
Er y drin fawr a'r drain fu
Hawdd yw achub heddychu.
Lle bu'r terfysg, llwybr torfoedd,
Lladd yr un,—yn llaw *Dd*uw'r oedd.
Ni adodd ef un dydd aeth
Gael ennyd fod gelyniaeth.
Ni bu gas rhwng neb o'r gwŷr,
Gwaed Einion a gwaed Ynyr.
Dyddi*a*, aed y wlad uddun,
Dewch yn iach ond ewch yn un.
Od ewch yn un, da yw'ch nerth,
E gadeiria gwaed Iorwerth.

Gwalch di-gêl yn rhyfelwr,
Glân doeth fu Owain Glyndŵr.
Pymtheng mlynedd yn gweddu
Tywysog Cyfeiliog fu.
Mab Hywel, archangel chwyrn,
Mur y cadoedd, mawr cedyrn,
Cymro doeth, caem aur dethol,
Cymer enw dug, Cymru'n d'ôl.
Ni wn aut iarll yn y tir
Eithr gwn y'th dd'rogenir.

*Ffynhonnell*
Llst 125, 253

*Darlleniadau'r llawysgrif*
4 hydyr.. 5 ych enw.. 6 a wilwriayth ial.. 10 ir.. 19 ..ni wnaed.. 20 nichwaharddai och.. 22 ..o waed.. 28 ..heb wr.. 41 ni mynen.. 47 ofer iarll.. 48 ..bwrw r.. 52 ..duw.. 57 dyddie..

*Awduraeth*
Hywel Llwyd

*25*

*Erchi bwcled gan Siancyn ap Siôn, Caethle, dros Siôn ap Rhys*

Pwy sy ’chlaw Powys â chledd?
Pen cenedl, penaig Gwynedd,
Siancyn llwydwyn g*y*llidaur
Ap Siôn a’i roddion o’r aur,
Ŵyr Ieuan Fychan a fedd,
A’i wayw llinon, holl Wynedd;
Eginyn Siancyn a’i serch,
Ector heddiw coed Rhydderch;
Bual wyd, ha*b* y wlad hon,
Bonedd Iorwerth a*b* Einion.
Clau wyd yn dwyn clod yn d’ôl,
Glain o Wynedd gloyw anianol.
Nid wyd gaeth, newidiad gŵr,
Ond impren o nod emprwr.
Nodyn wedi naw ydwyd,
Dwg fywyd iarll, degfed wyd.

Siôn ap Rhys felys ei fawl,
Llin Einion, llew anianawl,
Gyrrodd, a honnodd hynny,
Gywydd *i* Feirionnydd fry:
Rhodd Siancyn brigfelyn brau
Rhoi cae Esyllt rhag casau;
Pont a gaid llonaid y llaw,
P*o*s dur lle pwysai daraw;
T’wysog yw at asau gŵr,
Torwyn yn llaw anturiwr;
Tŵr wrth unllaw, torth wenllwyd,
Tybio ôl llaw Tubal llwyd;
Tebyg â’r big ar ei ben
Tŵr wrth fola, torth felen.
E wnaeth gof rhag digofen
Nyth y llaw yn eitha’ llen.
Hardd yw’r lle i hyrddu’r llaw,
Heulwen gof wedi’*i* heiliaw;
Eurlliw o flwch i’r llaw flaen,
Cau i foly acw *i* filaen;

*B*rychwyn grair, breichiau yn grwys,
Bas mawr megis bys meurwys.

*T*or, drwsbost, trawst dyfngost wyd,
*T*rwy galon tir ac aelwyd;
Tro d'ynys a'r tir danad,
Trig yn glo aur trigain gwlad.
Tri dyn dewr troi dan d'orwydd,
Teirsir yt ar air sy rwydd.
Tri chantref yt cyn clefyd,
Teiroes y boch tros y byd.
Tri hael gynt a'u traul gantun,
A'r tri ynn wyd yn troi'n un.

*Ffynonellau*
A—Card 2.623 [= Haf 13], $54^{v}$ B—BL Add 31075, $15^{r}$

*Amrywiadau*
3 *AB* ..gellidaur 8 *AB* ..ynghoed.. 9 *AB* ..a hap.. 10 *AB* ..ap.. 17 *B* Sion Rhys.. 20 *AB* ..o.. 21 *B* ..frau 24 *AB* pys.. 32 *B* ..a llaw.. 34 *AB* ..wedi heiliaw 36 *AB* ..accw filaen 37 *A* crychwyn.., *B* cyrchwyn.. 39 *AB* dor.. 40 *AB* drwy.. 44 *B* ..at..

*Awduraeth*
Huw Llwyd o Wynedd

*26*

*Erchi chwe ych dros Siôn Trefor*

*Ebyd* sydd â bywyd sa*int*,
Felly caf oll eu cwfaint;
Arglwyddi'n coroni Cred
Â sein baner Sain Bened.
Main ac aur mewn ei goron,
A bywyd saith, Abad Siôn;
Clywed i'm oes clod ymhell
Am erchwyn Ystrad Marchell.
Plas Cymer, pa lys cymaint?
Pa dir sy well, Pedr y saint?
Bawd aur barch a'i bedwar bys,
Bid â'i law Abad Lewys.
Abid gwyn abad Gwynedd,
Os ffrâm aur, Sieffre a'i medd;
Bôn iau, 'n fab a'i enw yn fwy,
Brig canon Aberconwy.
Abad, mesur byd Moesen,
Ac ystâl hir Egwestl hen,
Bo'i enw yn ail Beuno i ni,
Bawd soelbraff, Abad Salbri.
Parthau rhyfyg pyrth Rhufain,
Pedwar hael, pwy wedi'*r* rhain?
Syr Tomas, eurwyd d'emau,
Hanmer braff, ei enw m*u*r brau.
Siôn iefanc, ais hen Ifor,
Eutun am awch tân a môr;
Rhoi hap eurbrint, rhyw purbraff,
Rhyw bôn brig Rhiwabon *b*raff.

Siôn yw f'enw sy'n ofyniad,
Trefor gynt a rôi fawr gad,
Ysgwïer ffres ar gyrff Ffrainc,
Mwy no'r duc mewn aur decainc,
Yn cadw Calais, cyd cilient,
A'r dŵr a'r gwŷr, hyd ar Gent.

Wedi morio da 'mwriad
I drefnu hen dref fy nhad.

Mae rhyw ofal mawr hefyd
Mal Hu a’i was,—amlhau ŷd.
Y mae’r wedd ym ar y ddôl
Er ei throi ar waith rheiol;
Ychen a’i tyn o chwant âr
Trwy’r dolau er troi’r dalar:
Aradr cam ar dir cymwys,
Allor a gâr holli’r gŵys;
Caf ei lun fo, cyflawn fydd,
Crŷr o bren, cre*u*wr bronnydd;
Cam sarff yn cymhwyso âr,
Crud yw yn c’reio daear.
Yng ngwar y tir angor teg
Ac wrtho blant y gwartheg:
Cistiau â gyddfau gwaeddfawr,
Cyfion am waith, cefnau mawr;
Ym ar eu cyrff, mawr y caid,
Blew mân o liw’r blowmoniaid;
Pob yn ddau, pawb yn ddewis,
Pennau hyd ffroenau o ffris;
Coronau cair o unoed,
Carnau o’r un cyrn a roed;
Bleiddiau ar ddeau’r ddaear,
Ail acw sud Luwcas wâr;
Môr-lowyr ŷnt marl yr ŷd
Mal yn pori ’mlaen puryd;
Brod*y*r hen, bryd â rhinwedd,
Bob ddau dan yr iau a’r wedd;
Tri a thri mewn traeth o’r âr,
Tew duon yn toi daear.

Yma’n hawdd ym yn eu hôl
Ewch â cherdd i chwech urddol.
Dêl iechyd i le uchel,
Dau, ac yn ieirll Duw a’u gwnêl.
Gweled o feirdd is gwlad Fôn
Gannoes arglwyddi gwynion.
Poed aur cair eu pedair cob!
Poed i rwysg pedw*a*r esgob!

*Ffynhonnell*
Pen 127, 261

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 [ ]eked..sa[ ] 22 ..wedir hain 24 ..mwr brav 28 ..praff 35 ..da yw.. 46 ..krerwr.. 63 brodr.. 74 ..pedwr..

*Awduraeth*

Huw Llwyd

## *27*
## *Awdl foliant i Siôn Trefor*

Sain Siôr Siôn Trefor, sein trefydd—y Mars,
Am wrsib tragywydd;
Selyf iawn farn, sylfaen fydd,
Saith ugeinoes i'th gynnydd.

Bo'ch cynnydd, blaidd rhudd ble rhoddwyd,—urddas
Dewrddoeth a ganmolwyd,
Bron Edward, brau iawn ydwyd,
Braich haearn, llew breuchwyrn llwyd.

Haearnwisg durwisg derwen—o Drefor,
Uwch Maelor awch M*w*len;
Y mae draw am y Drewen
I bwyntio ffair bont a phen.

Pont fawr hyd elawr, adeilwydd—bydol,
Byw Edward ap Dafydd,
Bryncunallt, bron naw cynnydd,
Brins o waed, barwn, y sydd.

Gwaed Ednyfed, rhwydd rhoddion—Iorwerth Foel,
Ail Seirioel, oes Aaron;
Coed Awr fry'n codi o'r fron,
Coffawn hil Cyffin haelion.

O*s* haelion 'dyw Siôn, oed Seth,—a'r wenlloer,
Arianlliw Elsabeth
At enw brig Eutun bregeth;
I'm byw bo'u parch am bob peth.

B*ô*n iau Gwrgenau, Eigr Gwynedd,—Cinast,
Cainc *yn* dwyn anrhydedd,
Canol gwlad yn cynnal gwledd,
Cai di ben coed y bonedd.

Bonedd chwaer Iarll Caer o'r lle carwn—hael,
Hil brenin Aragwn;
Irgoed teg âi o'r gwaed hwn:
Ieirll, dugiaid eraill dygwn.

Ieirll Powys, wenllys winllad,—Iarll Tancrfil,
Dieiddil fedyddiad;
I'w gwregys doeth gwraig o stad;
Onid Euron un doriad?

Toriad aurwisgiad, ar wasgau—dillad
Harddeiliad, heirdd aeliau;
Olwen, dygodd lun Degau,
Yw glaswydr frig Glosedr frau.

Rhyw Glosedr, rhoi a glywsom,
Rhan ddaioni rhôi'n ddinam;
Rhôi'n weddus rhan a wyddom,
—Rho Duw—Eigr o'r rhyw digam.

Duw sy ni ad eisiau'n ei ôl;
Bywyd aur tawdd bid i'r tâl;
Brig ŷd mewn bragod a mêl
I barth y ferch a byrth fil.

Parth, byrddau, seigiau y sydd,
Wythgant a lanwant y wledd;
Ym mlaen y ford aml iawn fydd
Ŵyl Marthin ym win a medd.

Mur a thangadwyn, Marthin godiad,
'Mryd ei ddull am roi dy ddillad;
A*r iw*m*y*n tyrnas, o'r maint irnad,
Â thwrf y pawl onn, o'th arfau plad;
O'th erddyrn cedyrn, codiad—Cai urddas,
Cwmpas y dyrnas, campus dwrnad.

Da iawn ŵr gwaedwyllt ynn ar godiad,
Degle dwg ystyr dy glod gwastad;
Diwarth ewyllys d'aur a'th ddillad,
Da ŵr, yn rhwyddaf dyrnau rhoddiad;
Dy faner rudder, roddiad—ar ddewrion,
Â'th wayw ysgyrion cyrch eigion cad.

Ym mryd gwerin am roi dy gariad,
Ymwelwch, undad, mal eich hendad;
Un wyt â'i wŷr glân yn y tair gwlad,
Y gwŷr, a'u dynion, a'u gair danad;
Eich cledd ar fonedd, arfweiniad—[ ],
Er bylchu deunaw o'r beilch danad.

Cai Hir y'th elwir ar gleidir gwlad,
Calon nai Arthur, colon nerthiad;
Coeliwn i oes dyn, calyn ystad,
Ceiliog aur d'ynys, cai Loegr danad;
Cangau *i*'th la*w* borau, bwriad—Mathau Goch,
Crynu Ffrainc rhagoch *g*an gloch i'w gwlad.

Pwysu*d* Dwy Wynedd, Powys *t*anad,
Porthud y glêr parthau deau gwlad;
Pen a'u tangadwyn, pont yn godiad,
Perl mewn testun parlment diwastad;
Pum canmil is gil, os y gad,—âi i lawr,
A phumcan elawr ar glawr eu gwlad.

Gwyliwch am ddegoes, Gwalch*mai* ddygiad;
Gwelwch mae deufwy Gwalchmai dyfiad;
Gwyliwch mae gorchest Gwalchmai gyrchiad;
Gwelwch mae dewraf Gwalchmai doriad;
Gynhebyg, lewfrig o wlad—Sain Iorys,
I gorfau Peléus ag arfau plad.

C*y*m euro d'emau, Cymro diymwad,
Cael yn ernes y coeli*o*n arnad;
Clywed bod eto clod byd atad,
Cair aur i'r ysgwydd, cyw'r eryr w*i*sgad;
Cowrtiwr, rhyw filwr, rhyfela—dy gas,
Urddas y dyrnas a roed arnad.

*Ffynonellau*
A—Pen 127, 259  B—LlGC 20968B, 41

*Amrywiadau*
5 *A* ..rroddwyd [ ]ss, *B* koch .. 7 *A* [ ]dwart.. 8 *A* [ ]h haiarn.. 10 *A* ..mvlen, *B* ..milenn 17 *AB* gwaed Tynyved.. 19 *B* ..aur.. 21 *AB* o haylion.. 24 *B* ni bv fwy parch.. 25 *AB* bvn, *A* ..gwrgenv.. 26 *A* kainc dwyn.., *B* kanis dwyn.. 31 *B* ..koed.. 33 *B* [Ieirll..winllad] 35 *A* ..gwraic [ ] stad 37

*A* ..ar wasg [ ] dillad 38 *A* ..eilad heirdd ae[ ], *B* ..diliad heirdd adliav 44 *A* ..di cam 45 *A* ..y nol 49 *B* ..fyrddav.. 52 *B* ..yw win.. 54 *B* ..am dy ddillad 55 *A* [ ]wman.., *B* avr rwman..arnad 56 *B* a thwf.. 57 *A* .. kai [ ], *B* ..erddyr.. 58 *A* ..dern [ ]; *B* ..deirnad 59 *A* .. yn ar[ ] 63 *A* ..ar [ ], *B* ..raddiad.. 64 *A* ..kyrch eig[ ] 65 *A* ..gweini am [ ] gariad 66 *A* ymwelw[ ] 67 *A* [ ], *B* ..ai wir glan.. 68 *A* [ ] 69 *A* ..kledd a[ ]dd arfweiniad, *B* y kledd ar fonedd driniad 70 *A* dvr er bylchv..beilch [ ], *B* eura er bylchu.. 72 *A* ..aruthur .. 75 *A* kan gaythlav.., *B* kangaylav borov.. 76 *AB* ..kan.. 77 *A* ..adwy wynedd.., *AB* pwysut..sy danad 78 *A* ..parth a.. 79 *B* pentan ai gadwyn.. 81 *B* ..y gadai i lawr 82 *B* a ffwm kann heliwr.. 83 *AB* .. gwalch ymddygiad 86 *A* ..gwalchmai [ ]d 87 *AB* ..saint .. 88 *B* ..Peilevs.. 89 *AB* kem.. 90 *AB* ..koeliwn.. 92 *AB* ..wysgad

*Awduraeth*
Huw Llwyd

## *28*
## *Annerch Lewys Môn a Huw ap Dafydd*

Annerch Lewys, foddus fardd,—a'm carai,
A'm carwr o'r unardd;
Annerch had profiad prifardd
Ac annerch Huw gynnyrch hardd.

*Ffynhonnell*
Card 2.201 [= RWM 63], 247

*Awduraeth*
Tudur Aled

# *Nodiadau*

## *1*

Dau o ddisgynyddion Dafydd ab Ithel Fychan ap Cynfrig ap Robert … Ednowain Bendew a folir yn y cywydd hwn a'r nesaf (WG1 264; WG2 504; L. Dwnn: HV ii, 298; HPF iii, 100–3). Yn ei farwnad i Ddafydd canodd Dafydd ab Edmwnd glodydd ei chwe mab, Ithel, Gruffudd, Cynfrig, Hywel, Siôn ac Ieuan (DE XLIII), ac ar achlysur arall canodd i erchi chwe ych gan y chwech (*ib.* LIX). Mab Gruffudd ap Dafydd yw'r Pirs a gyferchir yn y cywydd hwn: *Kowudd moliant ir sersiant gryffudd tad i sion gryffyth ag i birs gryffydd ir hwnn oedd wyr y dd ap ithel fychan* (Brog 6). Fel hyn y disgrifir Gruffudd ym marwnad Dafydd ab Edmwnd i'w dad:

> Gruffudd arno a greffais
> gwr y sydd heb garv sais
> gwr a lvdd bob gwir i lawr
> a gwr ffyrf i gorff hirfawr
> bval mawr bvalie im oes
> botfari bid difyrroes. (DE XLIII.27–32)

Penodwyd dau o'r brodyr, Ieuan a Hywel, yn gasglwyr arian cymorth yn Llaneurgain ym mis Tachwedd 1480 (D.J. Bowen, 'Graddau Barddol Tudur Aled', LlCy xviii (1994–5), 95) a bu farw'r chwech cyn 1525 gan i Dudur Aled farwnadu'r olaf, Ieuan ap Dafydd:

> Plant Dafydd, plannwyd dwyfil,
> Pupr yw'r rhyw pe parhai'r hil;
> Yn ôl y rhain, niwl yw'r haf,
> Ieuan ddoeth ai'n ddiwaethaf;
> Daearu pawb o'r derw pur,
> Dydd brawd diwedd y brodyr. (TA LXXVII.25–30)

Cyffelyb yw tystiolaeth Siôn ap Hywel yn ei farwnad yntau i Siôn ap Dafydd a oroesodd bedwar o'i frodyr:

> Y gwŷr o'r gwaed gorau gynt,
> O waed Dafydd y tyfynt …
> Oer yw bod i ŵr bydol,
> Ifan, ei hun, fyw'n eu hôl. (DLlM 40.19–20, 25–6)

Penodwyd Pirs Gruffudd yn sersiant ar 7 Mai 1513: *Peter Griffith. To be sergeant-at-arms, for life, with 12d. a day* (LPFD I(2), 1948.39). Gwelodd Enid Roberts ddogfennau ac ynddynt gyfeiriad at diroedd a ddaliai Pirs yn 1516 a 1532 (GST ii, 176). Ymddengys mai tua 1540 y bu farw:

> … and small parcels of land there [priordy Rhuddlan] lately leased to Peter Griffith ap David ap Ithell (LPFD XV(1), 613.40, dyddiedig 28 Ebrill 1540)

> John ap Howell, groom of the Chamber. To be door-ward of Rutland castle, Flint, vice Peter Griffith, deceased (*ib.* XVI, 947.79, dyddiedig 28 Mehefin 1541)

ond gweler hefyd GST ii, 183 lle y gelwir sylw at *The Inventory of the goods & cattells movable and unmovable of Pyres gruffyth gent latt Dyscessed ... 1576.*

Canodd Siôn Tudur farwnad i'w ddau fab, Siôn (*ib.* cerdd 44, m. 1580) a Phirs (*ib.* cerdd 45, m. 1601). Mallt, chwaer y brodyr, oedd gwraig Siôn Tudur.

2 Camosodiad f.l = l.f., ac felly hefyd yn y ll. sy'n dilyn. Ond ceir cyfatebiaeth reolaidd yn 7.22, *Palf â meddiant plwyf Meddwid*.

3 **Melwas** Dangosodd Thomas Parry mai yn achlysurol y cyfeirir ato, gw. GDG 496–7, ond digwydd ei enw ar bum achlysur yng nghanu Tudur Aled.

**naid** 'Tynged, ffawd, siawns, lwc' yw'r ystyron arferol, gw. GPC 2550, ond bernir mai grym ansoddeiriol, 'llwyddiannus', sydd i'r gair yn y ll. hon.

10 **y Pendew** Ednowain Bendew, sylfaenydd un o'r Pymtheg Llwyth.

Sylwer nad yw'r anadliad caled yn caledu'r gytsain feddal a'i rhagflaena fel y gwna yn ll.12.

11 **Conwy** Afon Conwy. Ond mam Pirs oedd Marsli, merch Siôn Aer y Conwy ap Siancyn Conwy, gw. WG2 326.

13 **Stanlai** Sioned, merch Edmwnd Stanlai, oedd mam Marsli.

16 **Edwin** Priodasai Robert ab Iorwerth ag Adles, merch Ithel Fychan ab Ithel Gam … Uchdrud ab Edwin, gw. WG1 285.

17 **Bwlen** Barnai Enid Roberts i Birs a'i fab Siôn ymladd ym Mwlen rhwng Gorffennaf a Medi 1544 ('Dr William Parry a'i Gefndir', LlCy v (1958–9), 196; GST ii, 183), ond bu farw Pirs, fel y dangoswyd, ryw bedair blynedd ynghynt. Diau mai cyfeiriad at y brwydro yn Ffrainc yn 1513 sydd yma, sef y flwyddyn y penodwyd Pirs yn sersiant. Enwir y

dref, a Therwyn, yng nghywyddau Lewys Môn i Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn (GLM XXXVII.5–8, XXXVIII.15–16) ac yn ei gywyddau i filwyr adnabyddus, a Syr Rhys ap Tomas a Siôn ab Elis Eutun yn eu plith (*ib.* LXXVI.13–14, LXXXVIII.53–6).

18 **Torbog** Mam Siôn Aer y Conwy oedd Elen, merch Syr Harri Torbocs.

41 **Oswallt** Gweler 23.9n.

50 **tor** Ffurf 2 un.grch. y f. *torri,* cf. isod 16.3 a 17.40.

66 **digopyr** Copr a ddefnyddid i wneud yr arian bath rhataf.

*2*

Enwir tri mab Siôn ap Dafydd yng nghywydd marwnad Siôn ap Hywel iddo, sef Wiliam, Syr Harri a Hywel, DLlM 40.57–76. Gellid tybio mai gŵr ifanc oedd Hywel pan ganodd Huw ap Dafydd y cywydd hwn; ni chrybwyllir ei wraig (Sioned, merch Harri Fychan ap Tomas Salbri Hen; ei ail wraig oedd Marged, merch Dafydd ap Goronwy ap Dafydd) na'i blant (enwir pedwar mab a deg merch yn WG2 509; gweler hefyd L. Dwnn: HV ii, 305 a Pen 287, 283).

3 **Bryncynddel** Methwyd â tharo ar yr enw hwn, er bod sawl enw sy'n cynnwys yr elfen *bryn* yn y cyffiniau, e.e. Bryndeugwm, Bryngolau*, Brynyreithin*. Broneirian yw'r cartref a enwir ym marwnad Siôn ap Hywel, DLlM 40.27, ac fe'i rhestrir ymhlith 'Tai Kyvrîvol' Ysgeifiog yn E. Lhuyd: Par i, 76.

4 **naw** Rhif yr oedd y Cywyddwyr yn bur hoff o'i ddefnyddio i gyfleu lluosogrwydd neu helaethrwydd, cf. 1.61–2 uchod, ll. 24 isod, a 15.9 *y naw sir*, a cf. y modd y defnyddir *wyth* yn 5.44, 16.20 a 17.59.

6 Digwydd yr un ll. yn awdl farwnad Gruffudd Hiraethog i Hywel, GGH 9.8.

13–14 **Môn** … / **Arfon** Merch Robert ab Ieuan Fychan o Goetmor yn Llanllechid yn Arllechwedd Uchaf, Arfon … Iarddur oedd Sioned, mam Hywel, WG2 1032. Marsli, merch Edmwnd Stanlai, oedd ei mam, ond merch o Fôn oedd gwraig gyntaf Robert ab Ieuan, sef Gwerful, merch Ednyfed Fychan, WG1 158; PACF 277. Priodasai ewythr Hywel, Cynfrig ap Dafydd, ag Elin, merch Llywelyn ap Hwlcyn o Lwydiarth, Môn.

23 **Rhydderch** Gw. isod ll. 60n.

30 **Coedymynydd** Yn Ysgeifiog. Gelwir Siôn yn *meinwr o goed y mynydd* yng nghywydd marwnad Dafydd ab Edmwnd i'w dad, DE XLIII.47.

32 Twyll gynghanedd *d*.

36 **gwnaeth parc** Am enghreifftiau o beidio â threiglo gwrthrych ar ôl *gwnaeth,* gw. Treigladau 186.

43 **byrau** Ffurf ansicr. Tybed ai ffurf amrywiol ar *byrddau* ydyw?

44 Ceir yr un ll. mewn cywydd o waith Lewys ab Edward i Huw ap Cynfrig ap Dafydd ab Ithel Fychan, GLE 29.12.

49 Neu *Can Baiwn ...*, sef can casgen o win Bayonne, yn Ffrainc.

52 **pedair gŵyl** Y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn, sef y tair gŵyl arbennig, a gŵyl y sant lleol yn bedwerydd. Canodd Gutun Owain gyfres o englynion i ddychanu gŵr 'o Blwy Doewan am na chynhalie ŵyl i fab sant yn well': GO LXVI.3–4 *Y'w byrth kynal gŵyl ni bv, / Na chinio da na chanv.*

55 **gynnar** 'Yn gynnar'.

60 **naw** Y nawyr teilwng, gw. Dafydd Ifans, 'Nawyr teilwng Plas Bodwrda', Cylchg LlGC xviii (1973–4), 181–6; GST ii, 179–80.

**y triael** Nudd, Mordaf a Rhydderch, TYP$^{2}$ 5–6.

*3*

Cofnodir enwau hynafiaid y noddwyr yn drefnus yng nghywyddau Huw ap Dafydd; fel arfer, dilynir yr ach dros dair cenhedlaeth neu bedair, ac y mae'r wybodaeth yn gyson â'r hyn sydd yn WG2. Methwyd â chanfod enw Lewys ab Ithel ap Siôn ap Rhys yn WG2. Y mae'n bosibl nad Ithel oedd tad Lewys, a gall fod un genhedlaeth yn eisiau yn yr ach fel y cofnodwyd hi gan Huw ap Dafydd. Perthynai Lewys i gyff Edwin ap Goronwy, tywysog Tegeingl, (ll. 14), ac ymddengys mai gŵr o Laneurgain (ll. 2) ydoedd.

12 *n* berfeddgoll.

33 **Ffwg** Gw. IGE$^{2}$ 345; *Dictionary of National Biography,* vii (London, 1908), 223–4. Ceir ei hanes yn y chwedl 'Fouke Fitz Warin' a luniwyd yn Swydd Amwythig yn y 13g.

35 Nid oes modd gwirio'r gosodiad hwn, ysywaeth.

38 **Dai Nanclyn** 'Dai nan klyn a wnaethpwyd yn athro a Rroddi ariandlws telyn iddaw' yn eisteddfod gyntaf Caerwys, gw. D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LlCy ii (1952–3), 130. Fe'i henwir yng nghywydd Siôn Tudur, 'Marwnad y Gwŷr wrth Gerdd': GST 140.31–4 *Od aeth hwnt, mae'n adwyth hyn, / Duw â'n huncloc, Dai Nanclyn, / Dug y gŵr, bu deg ei gân, / Dylai'n wir delyn arian*. Trafodir awduraeth y cywydd *ib.* ii, 499. Dyfynnir y ddau gwpled uchod gan D.J. Bowen, *l.c.*, ond *Duw, dan unclo Dai Nantclyn* yw'r darlleniad a gynigia ef. Yng nghantref Rhufoniog yr oedd Nantglyn.

Trafodir cyswllt Dafydd ap Llywelyn ap Madog â chwmwd Is Aled yn Rhufoniog yn y Rhagymadrodd, td. 1.

40 Eb. yw *llys* yn 2.24 fel y prawf yr odl, ac felly yn 13.7, ond eg. yn 13.1.

43 *n* wreiddgoll.

49 Bai crych a llyfn.

54 *f* led-lafarog.

59 **cloc** Tybed ai gwall am *cloch* sydd yma?

*4*

Awgryma C.T. Beynon Davies (CTC cerdd 18 a 293–4), wrth drafod y cywydd hwn, mai yn ystod y blynyddoedd 1500–30 y bu Elis yn brior Rhuddlan. Methwyd â tharo ar enw'r prior yn WG2*,* ond gweler hefyd y drafodaeth ar wrthrych cerdd 3. Siôn Llwyd ab Ieuan ap Dafydd Llwyd ap Gruffudd ap Cynfrig ap Bleddyn Llwyd sy'n erchi'r rhodd (WG1 512; WG2 975). Â Llangernyw yng nghantref Rhos y cysylltir y gŵr hwn a'i deulu. Atgoffir y prior fod Siôn Llwyd yn gâr iddo, ond ymddengys hefyd mai gŵr o Degeingl oedd Elis gan ei fod yn arddel cyswllt ag Ednowain Bendew ac Edwin ap Goronwy. (Sylwer ar y modd y cyplysir y ddau hyn yn y cywydd, ac felly yn 2.11–12). Yr oedd mam Siôn Llwyd, Angharad ferch Llywelyn Fychan, yn un o ddisgynyddion Edwin; y Llywelyn Fychan hwn oedd taid y bardd Siôn ap Hywel.

5 *n* berfeddgoll.

20 Disgrifir y tir yn codi dan draed Dewi yng nghywydd Ieuan ap Rhydderch: IGE[2] LXXXI.85–6 *Cyfodes bryn, cof ydoedd, / Dan ei draed, arglwyddwaed oedd*, ac mewn cywydd ansicr ei awduraeth i'r sant, *ib.* XXXIV.63–4 *Cyfodes, nid oedd resyn, / Dan draed Dewi Frefi fryn*.

28 **Mair** Iddi hi y cysegrwyd eglwys Rhuddlan, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 415.

30 **derw** Yn ddeusill, ac felly *lleinw* yn ll. 56.

31 Ni chyfetyb dim yn ail ran y ll. i'r cytseiniaid sydd yn y gair *cerygl,* a leolir yn y llsgr. ar ddechrau'r cwpled. Fe'i hadleolwyd er mwyn adfer y gynghanedd.

40 Chwe sillaf sydd yn y ll., onid ystyrir *clöi* yn air deusill.

57 Pair y saeth ystaen gwaedlyd ar y gelyn.

62 Twyll gynghanedd *g*.

65 Disgwylid treiglad ar ôl yr ardd. *heb*. Gellid diwygio yn *heb fai,* a rydd gynghanedd draws fantach megis yn ll. 55, ond cf. isod 24.48n.

*5*

Siôn Eutun ab Elis ap Siôn ap Siâms … Tudur Trefor (WG1 894; WG2 1701; L. Dwnn: HV ii, 360). Canwyd marwnadau iddo gan Lewys Daron (GLD cerdd 27) a chan Lewys Môn (GLM LXXVI). Bu farw 28 Medi 1526, a'i gladdu yn eglwys Rhiwabon gyda'i wraig Elsbeth, merch Syr Huw Calfe, a fu farw 11 Mehefin 1524 (HPF ii, 176).

1 **tros dewrgorff** Trafodir y calediad yn Treigladau 386.

2 **Troelus** Mab Priam, a gŵr a fu'n destun sawl cerdd a chwedl yn yr Oesoedd Canol, gw. *Troelus a Chresyd*, gol. W. Beynon Davies (Caerdydd, 1976), 17–20.

6 **dy fab** Siôn Eutun, yr etifedd, llau. 11–15, a'r trydydd i ddwyn yr enw Siôn, gw. yr ach uchod. Esbonnir yn HPF *l.c.* fod i'w dad nifer o blant gordderch; Siôn yn unig a enwir yng nghywyddau Lewys Daron a Lewys Môn.

10 **Maelor** Sef Maelor Gymraeg; yn y cwmwd hwn yr oedd Rhiwabon.

14 *r* berfeddgoll.

Sylweddolodd y copïwr nad oedd yr odl yn rheolaidd, a dileodd *a* yn *helaeth.*

22 **Sin** Sheen, y palas brenhinol yn Richmond, neu ffurf ar y S. *sign*, gw. EEW 149.

29 *n* wreiddgoll.

30 **neuaddau well** Trafodir y treiglad hwn yn Treigladau 66–7. Cf. hefyd 12.54 *Ni bu raid wynebwr well.*

32 Cyfeiriodd Gutun Owain yntau at y gwaith adeiladu y bu Siôn Eutun yn gysylltiedig ag ef: *Ydeiladaeth a wnnaethost / Vwy no chaer Rvvain i chost,* GO L.33–4.

35 Cynghanedd groes o gyswllt sydd hefyd yn cynnwys camosodiad dd.d = d.dd.

42 *n* wreiddgoll.

46 **y gwarae** Y brwydro yn 1485. 'John ab Ellis Eyton greatly distinguished himself by his services on behalf of Henry VII, at the battle of Bosworth, and received from that monarch an extensive grant of lands near Rhiwabon', L. Dwnn: HV ii, 360.

50 **ei weithred da** Saith Weithred y Drugaredd. Ar fur deheuol eglwys Rhiwabon erys olion darlun o'r saith weithred a beintiwyd yn hanner cyntaf 15g., gw. Enid Roberts, *Y Beirdd a'u Noddwyr ym Maelor*, 7–8; Edward Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd* (Harmondsworth,

1986), 269. Cofnodir enghreifftiau yn GPC 1624 sy'n dangos bod *gweithred* yn eg. yn ogystal ag yn eb.

*n* wreiddgoll.

56 **Aiacs** Un o arwyr Tro, a mab Telamon. Delweddir dewrder Siôn a'i filwriaeth ym mherson Aiacs, ei dduwioldeb ym mherson Curig, a chyfleir tristwch ei farw a thrais angau ym mherson Gwrthefyr a laddwyd trwy ddichell ei lysfam, Rhonwen, gw. BD 97.

59 **Gwrthefyr** … **Dofr** Gorchmynnodd Gwrthefyr ar ei wely angau osod ei gorff ar ddelw … *yn y porthloed y gnotaei y Saesson disgynnu yndi ... yr aruthred y'r Saesson ... hyt tra welynt hvy y delv honno a'e gorff ef arnei hi na leuessynt dyuot y tir enys Prydein,* BD 97–8. Mynegir yr unrhyw syniad ym marwnad Lewys Môn, gw. GLM LXXVI.29–46.

70 Disgrifir y beddrod yn HPF ii, 176.

*6*

Gwelir ach Rhisiart yn WG1 907; WG2 1716; hefyd HPF iii, 335–6: Rhisiart ap Hywel ap Morgan ab Iorwerth ap Gruffudd Ddu. Yr oedd Siôn Eutun (gwrthrych y cywydd uchod) yn ewythr i'w wraig, sef Marged, merch Elis Fychan ab Elis ap Siôn. Lluniodd Rhisiart ei ewyllys yn 1529/30 (WMW 225).

4 **Alrhe** Ym Mangor Is-coed ym Maelor Gymraeg.

14 **Tudur** Sioned, merch Tudur Fychan ap Gwilym o Benmynydd, Môn, oedd mam Rhisiart, WG1 673.

17 **Peryddon** Gw. GLM 444–5 lle yr uniaethir Peryddon ag Afon Dyfrdwy. Dyma'r afon sy'n llifo trwy Fangor Is-coed.

24 **hyd olew** Defnyddir *olew* yma'n drosiadol am 'angau', gan mai'r arfer oedd eneinio'r sawl a fyddai ar ei wely angau. Cf. 18.41 *dydd olew*.

28 *r* berfeddgoll.

29 Enwir Elis, ei frawd Rhisiart, a brawd arall Siâms yn WG2, ynghyd â phum chwaer, ond yr oedd i'r brodyr *Chwiorydd, chwech o wraidd chwyrn* yn ôl tystiolaeth Huw ap Dafydd, isod ll. 35.

44 *n* wreiddgoll.

47 **Canol Gwlad** Ai'r Berfeddwlad, sef Gwynedd Is Conwy? Gw. WATU 11.

48 **gwyddiad** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod,* gw. GMW 122.

55 *n* wreiddgoll.

*7*

Rhys ap Siôn ap Maredudd ab Ieuan Llwyd … Rhirid ab Adda o Ddinmael (WG1 746; WG2 1465; gw. hefyd L. Dwnn: HV ii, 351) a anerchir yn y cywydd hwn a'r nesaf. Hyd y gwyddys, dyma'r unig noddwr y canodd Huw ap Dafydd iddo ar fwy nag un achlysur.

6 Twyll gynghanedd *l*, ond *geil* sydd yn y llsgr.

13–14 **Owain … / Brogyntyn** Nain Rhys o du ei dad oedd Gwen, merch Gruffudd ab Adda … Tudur Trefor, ac Angharad, merch Llywelyn ab Owain … Bleddyn ab Owain Brogyntyn, gw. WG1 47, 50, 873.

22 **Meddwid** Yn llsgr. Card 5 y mae'r cofnod cynharaf am y santes hon: *Meddvyth verch Idlos vab llawvrodedd varchawg*. Dengys ewyllys a luniwyd yn y flwyddyn 1530 mai iddi hi y cysegrwyd eglwys blwyf Clocaenog yng nghwmwd Colion, gw. LBS iii, 458.

34 **y Fêl Ynys** Enw cynnar ar Ynys Prydain, TYP$^2$ 228.

35 Dwy gytsain feddal unrhyw nesaf at ei gilydd, ond yn ateb cytsain feddal.

39 **rhifddoeth** 'Doeth ei anrhydedd'; am enghraifft arall o *rhif* yn yr ystyr hon, cf. GIG XXII.15–17 *I Baradwys i brydu / Yr aeth i Fair, iôr uthr fu. / Nid rhaid dwyn yno ond rhif* …

46 Gw. 10.57n.

48 **trwmp** O'r S. *trump*, i. rhoi'r flaenoriaeth i un gyfres wrth chwarae cardiau; ii. '*An obsolete card-game, known also as ruff',* OED d.g. Perthyn y ddwy enghraifft gynharaf i'r flwyddyn 1529.

53 **Margred** Ei wraig, a merch Rhys ap Cwnws, WG2 1183.

54 **y Llaw Arian** Nudd Hael, gw. TA LVIII.42 a 599.

63 **Deinioel** LBS ii, 325–31. Nid oedd cyswllt rhwng y sant ac eglwys yn y gymdogaeth, er bod sawl llan yng ngogledd Cymru wedi ei chysegru iddo.

*8*

3 **y Tywyn** Bu tair cenhedlaeth yn noddi'r bardd Dafydd Nanmor yn y Ferwig ger Aberteifi, ac yr oedd dau Rys yn eu plith, sef Rhys ap Rhydderch, a'i daid, Rhys ap Maredudd (DN cerddi I–X). Disgrifir y canu i'r teulu yn arolwg D. Hywel E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi', LlCy x (1968–9), 100–2.

4 **Glyn-nedd** Yma y trigai Rhys ap Siôn, noddwr Iorwerth Fynglwyd (GIF cerddi 1–5). Ymdrinnir â'r canu iddo yn nwy ysgrif Peredur Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd', *Nedd a Dulais,* gol. H. Teifi Edwards (Llandysul, 1993), 1–25; *Barddas,* 207/208 (Gorffennaf/Awst, 1994), 44–7.

6 **y tair ynys** *Teir Ynys Prydein: Lloegyr a Chymry a'r Alban*, TYP² 228.

12 **Adda Fras** Gw. CLC 7.

20 **Llywarch** Yr oedd Marged, gwraig Rhys, yn un o ddisgynyddion Llywarch Holbwrch. Ond efallai mai Llywarch Hen a olygir am i'r bardd grybwyll tri arwr cynnar yn yr un cwpled, a phedwerydd, Coel Godebog, isod (ll. 34).

21 **Pigodiaid** Methwyd ag esbonio'r cyfeiriad hwn. Cofnodwyd achau'r Pigodiaid yn WG2 1447–51, ond nid ymddengys fod cyswllt amlwg rhwng Rhys ap Siôn ac aelod o'r teulu. Canodd Gruffudd Hiraethog i ofyn sircyn o groen moelrhon gan Syr Robert Pigod, person Derwen, GGH cerdd 102.

26 Digwydd yr un ll. yn y cywydd blaenorol, 7.18.

31 **Bleddyn** (?Fychan) ap Maredudd, un o hynafiaid Rhirid ab Adda, gw. L. Dwnn: HV ii, 351.

34 Cynghanedd drychben, ond ceir cynghanedd reolaidd yn 1.40 lle y digwydd yr un gair (*abl)* yn yr orffwysfa.

41 **dy frodyr** Enwir tri yn WG2, sef Wiliam Llwyd, Morys a Robert.

46 **Syr Lawnslod** Enwir pedwar arwr chwedlonol, a'u gwreiddiau y tu allan i Gymru, sef Lawnslot y Lac, Syr Gei o Warwig, Syr Bŵn o Hamtwn, ac Iorys.

59 **Derwen Anial** Gw. WATU 57.

*9*

Syr Robert ap Siôn ap Gruffudd ab Ieuan ap Dafydd Ddu … Edwin ap Goronwy (WG1 278; WG2 548; HPF iv, 180–1). Dywed Huw ap Dafydd ei fod yn berson Llanfwrog. Enwir rheithorion y plwyf yn D.R. Thomas: HDStA ii, 101–5, ond darniog yw'r wybodaeth; enwir deiliad y swydd yn 1518, ond ceir bwlch o ddeugain mlynedd cyn y cofnod am y deiliad nesaf yn 1557.

23–4 **Dafydd … / … Dinllaes** Brawd Dafydd Ddu oedd hwn, ond fe'i gwneir yn dad iddo yn PACF 274.

25 **Rheinallt** Ni ellir esbonio'r cyfeiriad hwn.

26 **Bleddyn Pothan** Cristin, merch Goronwy Sais (ll. 30) ab Einion (ll. 36), a Gwenllïan, merch Gruffudd ap Dafydd ap Rhirid Fychan, oedd gwraig Gruffudd ab Ieuan, WG1 575, 748. Yr oedd y Pothan Flaidd/Blaidd yn frawd i Ddafydd ap Rhirid Fychan.

32 **afal** Cyffelybir yr uchelwr a'i linach yn fynych i ffrwythau megis *peran* (GSC 5.18), *pwmpa* (GLM XX.10), *orens* (*ib.* LXV.37), a *costart* (isod ll. 43).

34 **Treforiaid** Hynafiaid mam Robert sydd dan sylw yma. Elsbeth, merch Simwnt Thelwal (ll. 38) ap Dafydd a Sioned, merch Siôn Langfford, oedd hi, WG2 1635. Priodasai Dafydd Thelwal â Thibod, merch Siancyn Wyllt o Foras, a Lleucu, merch Dafydd Llwyd … Sandde ab Elidir (ll. 48) … Tudur Trefor, WG1 889.

38 **Ffelwal** Ffurf ar Thelwal, a'r cymeriad llythrennol yn ategu ei dilysrwydd. Gwelir yr un ffurf yn awdl Raff ap Robert i Risiart Thelwal, gw. RR 1.18.

40 **Bruwtwns** Cofnodir y ffurf *brwtwn* yn G 81 o dan *Bryttanyeit,* a digwydd *Brutwn* yn un o gywyddau Lewys Môn, GLM IV.55.

46 **grafiad** Nid yw'r ffurf i'w gweld yn GPC 1523, ond nodir enghreifftiau o'r f. *grafio,* 'cerfio, torri llythrennau' o'r S. *grave*.

48 *n* wreiddgoll.

50 **gwlân aur** Ai cyfeiriad at Iason a'r Cnu Aur? Cf. GSC 8.7–8 *Llaw fain gytgam, llafn gwaetgoch, / Llew a dynn gwlân, llwdn y gloch.*

51 Cynghanedd lusg wyrdro anghyffredin, ond cf. y ll. a ganlyn o eiddo Siôn ap Hywel: *Tair talaith, eu maeth yw Môn,* DLlM 45.79.

68 *n* wreiddgoll.

## *10*

Yr oedd Syr Tomas ap Robert yn ficer Llanynys yn ôl WG2, ond nis enwir ymhlith y ficeriaid a restrir yn D.R. Thomas: HDStA ii, 110–15. Dilynir yr ach o dad i dad dros dair cenhedlaeth (Syr Tomas ap Robert ap Dafydd ap Wiliam, WG2 973) ond rhoddir mwy o amlygrwydd i'r hynafiaid o ochr y fam, sef Lleucu, merch Rhys (ll. 21) ap Goronwy o Lanfair Talhaearn (llau. 22–3), ap Cynfrig (ll. 24) ap Bleddyn Llwyd (ll. 26) ap Bleddyn Fychan (llau. 27–8). Canwyd y cywydd ar ran gŵr o'r enw Rhys (ll. 47). Tybed a berthynai i'r un cyff â Syr Tomas ap Robert gan na chrybwyllir yr un o'i hynafiaid?

6 *r* wreiddgoll.

7 **Sain Tomas** Yr apostol.

18 **Beli Mawr** Mab Mynogan, TYP[2] 281–3.

29–30 **Heilyn … / Frych** Priod Rhys ap Goronwy oedd Gwen, merch Dafydd ap Gruffudd Llwyd … Heilyn Frych, WG1 198 a WG2 1341, ac Annes, merch Rhys ab Iorwerth o Ffynnon-fair, Rhos, ap Llywelyn Ddu … Cynon ap Llywarch Holbwrch, WG1 613 a WG2 1190.

34 **Cynan** Ai Cynon, mab Llywarch Holbwrch?

41 Wrth ddiwygio *wyt* yn *wyd*, sicrheir cynghanedd groes o gyswllt reolaidd, ond ar draul y gyfatebiaeth rhwng yr orffwysfa a'r brifodl.

57 **pais Iesu** 'Yna y milwyr, wedi iddynt groeshoelio'r Iesu, a gymerasant ei ddillad ef … a'i bais ef … Hwythau a ddywedasant wrth ei gilydd, Na thorrwn hi, ond bwriwn goelbrennau amdani', Ioan xix.23–4.

47 Dyfais gyfarwydd yn y canu gofyn yw i'r bardd ei uniaethu ei hun â'r eirchiad. Mae'n bosibl fod ail fraich y cwpled yn cyfeirio at weithgarwch y bardd sy'n datgan ei gywydd yng ngŵydd y prelad neu at Rys a weithredai fel datgeiniad o ryw fath.

63 *n* wreiddgoll.

## *11*

Pirs Salbri, y Rug a Bachymbyd, a mab Siôn Salbri ap Tomas Salbri Hen (WG2 1577; PACF 222; L. Dwnn: HV ii, 331; ByCy 845–6; ByCyAt 159–60). Ei fam oedd Lowri, merch Robert ap Maredudd ap Tudur ap Hywel ap Cynfrig Fychan ap Cynfrig (WG1 697; WG2 1328), a'i mam hithau oedd Myfanwy, merch Dafydd ap Hywel Coetmor … Gruffudd ap Cynan (WG1 449; WG2 830). Trwy briodas Pirs â Marged Wen, merch ac aeres Ieuan ap Hywel ap Rhys, arglwydd y Rug, y daeth yr ystad i feddiant y teulu. Ond ni sonia Huw ap Dafydd yn ei gywydd am wraig Pirs, nac am diroedd yng nghyffiniau Corwen.

3 **coeliwn i** Dilynir *coelio* yn fynych gan yr arddodiad *i*, cf. 14.41 a 27.73 isod.

7 **Dôns** Elsbeth, merch Siancyn Dôn, oedd gwraig Tomas Salbri Hen; *Mam Elizabeth don oedd Elizabeth vz sr pirs o dytwn*, GLM 464.

**Winsawr** Ond *Winsor*, isod ll. 54, cf. GLM XXXVI.42 (*Winsawr)* a LVII.10 (*Winsor)*.

12 **Fenabl** Cyfeiria Tudur Aled ato ar sawl achlysur, e.e. TA V.28, XX.14 (awdl a chywydd i Syr Rhoser Salbri), a XXIII.42 (cywydd i Feibion Siôn Salbri ap Tomas Salbri Hen; Pirs yw'r cyntaf a enwir, llau. 5–16).

14 **Prins** Harri VIII, yn ddiau, a fu'n teyrnasu rhwng 1509–1547. Yn 1537 y ganed ei fab, Edward VI, gw. y drafodaeth ar gyfnod y canu uchod td. 8.

15 **Rhobert** Taid Pirs o ochr ei fam (gw. uchod).

17 **Llywarch Rudd** I dylwyth Lowri y perthynai, a barnu wrth leoliad y cwpled sy'n ei enwi, ond ni lwyddwyd i daro ar ei enw, ac y mae lle i amau'r wybodaeth yn PACF 204 (gw. ymhellach WG1 507) lle y nodir bod Cynfrig yn briod â Dyddgu, a bod Llywarch Goch yn orhendaid iddi. Crybwyllir Llywarch Goch ymhlith cyndeidiau Robert Salbri, ewythr Pirs (isod 13.16).

21 **Gruffudd Goch** Priodasai Dafydd ap Hywel Coetmor â Lleucu, merch Gruffudd Goch.

29 **Ystiwart** 'Of late was brought to this Council a priest from Piers Salisbury, steward of Ruthyn …', LPFD XII(1), 1202, dyddiedig 14 Mai 1537.

62 *n* wreiddgoll.

*12*

Mab Syr Tomas Salbri ap Tomas Salbri Hen oedd Syr Rhoser Salbri (WG2 1570). Bu farw yn 1530 (ByCyAt 158). Canodd Lewys Môn iddo cyn ei urddo yn farchog, ond yr oedd erbyn hynny (GLM 473) yn gwnstabl castell Dinbych (er 1506) ac yn stiward arglwyddiaeth Dinbych (er 1508). Priododd ag Elen ferch Siôn Hwgs yn gyntaf, ac wedyn ag Elsbeth ferch Siôn Pilstwn Hen.

2 **Morda'** Un o'r tri hael, TYP[2] 5.

5 *f* led-lafarog.

7 **Salmon** *Selyf* yw'r ffurf ar yr enw a welir fynychaf, ond ceir *Salmon* yn GIF 29.60.

14 **gŵyl Sadwrn** Cysylltir y sant hwn â Henllan, LBS iv, 127–8. Awgrymir mai 29 Tachwedd oedd dyddiad ei ŵyl.

24 Efallai y dylid diwygio'r ll.: *Acw'n ei ddydd, cwyno'i ddawn.*

26 Yn GLM 461–2 gelwir sylw at l. nid annhebyg sy'n digwydd yng nghywydd marwnad Tudur Aled i Domas Salbri Hen, TA LXXVIII.14, a chysylltir y sôn am faich â'r cyfeiriadau yng nghanu'r Cywyddwyr at y baich drain.

27 **daered** Sef i. 'tâl i ŵr eglwysig dros y meirw', GPC 878. Awgrymir i'w deulu gyflwyno ei arfau yn rhodd i'r eglwys. ii. 'pridd'. Y pridd

bellach sy'n gorchuddio ei arfau, fel y mae'r *main ar lled* (ll. 28) yn cuddio anian y llew.

28 **maner** i. 'rhywogaeth'; ii. 'baner'.

**llew** Arwydd herodrol y Salbrïaid, DWH ii, 516. Ymfalchïai Tudur Aled *Nid ai'r llew pasant i'r lle pwysoch,* TA V.54.

32 Darlun dramatig o'r cynhebrwng gan un a fu'n llygad-dyst i'r digwyddiad.

39 **Elen** Bu Elen, mam yr ymerawdwr Custennin, ar bererindod i Gaersalem, a hi, yn ôl y traddodiad, a ddarganfu'r Grog, cf. ll. 40 isod, a gw. TYP$^{2}$ 341–3.

41 Enwir pedwar mab Syr Rhoser isod (ond crybwyllir pumed, Wiliam, yn WG2). Ei ddwy ferch oedd Gras a Siân. Gelwir Tomas yr *hynaf o'r henw a fu* am mai Tomas oedd ei daid (m. 1505) a'i hen daid (m. 1490).

57 **Ffrainc** Yn LlGC 6496C, 293 cofnodwyd englyn *a wnaeth Sr Roger Salusbury pen oedd ef gwedi vnill Twrney a Therwyn gida gwyr i wlad:*

Dowch allan, or gorlan gav, ir Maes
i ymossod ag arfav:
Vn am vn, o no minav
ni chryn llaw o daw dav.

ac un arall *wrth ganv ffarwell ir Trevi vchod*:

ffarwel i dwrnai, ffair wych a Therwyn
ni Thariai mwy wrthych:
mi a adre i Edrych
am wenn a dewais i yn wych.

62 **Eidol** Iarll Caerloyw, BD 99.

70 *n* berfeddgoll.

77 **Emrys** Emrys Wledig, TYP$^{2}$ 345–7.

78 **Syr Rhys** Syr Rhys ap Tomas a fu farw yn 1526, ByCy 790–1. Bu'r Salbrïaid yn gefnogwyr ffyddlon i blaid Lancastr, a maentumiodd Tudur Aled wrth foli Syr Tomas Salbri, tad Syr Rhoser, *Twyso'r wyt ti a Syr Rhys / Yr iau flaen i'r Fêl Ynys,* TA XXIV.67–8.

82 **clos gwydr** Y tŷ gwydr y carcharwyd Myrddin ynddo, TYP$^{2}$ 474; Eurys I. Rowlands, 'Y Tri Thlws ar Ddeg', LlCy v (1958–9), 51–3.

**Ercles** Mae'r gynghanedd lusg yn mynnu'r ffurf *Erclais* yn 9.45.

*13*

Robert Salbri o'r Plas Isaf yn Llanrwst, a mab Tomas Salbri Hen, a anerchir yn y cywydd hwn (WG2 1573). Ei wraig oedd Gwenhwyfar, merch Rhys ab Einion Fychan ab Ieuan ap Rhys Wyn … y Penwyn … Iorwerth ab Iddon … Marchudd (WG1 693; WG2 1319).

12–13 **Dytwn … / … Fenabl** Gw. 11.7, 12 uchod.

16 **Llywarch Goch** Rawling Salbri oedd taid Tomas Salbri Hen, a'i wraig ef oedd Marged, merch Ieuan ap Cadwgan … Llywarch Goch, WG1 604–5.

25 *n* wreiddgoll.

26 **alaethan'** I ail hanner y ganrif y perthyn yr enghraifft gynharaf o'r f. *alaethu* a gofnodir yn GPC 73.

41 *n* wreiddgoll.

42 **ych bôn** 'Rhoid yr ychen cadarnaf ym môn y wedd bob amser', gw. Ffransis G. Payne, *Cwysau* (Llandysul, 1980), 10.

44 **trigain hynys** Gw. Treigladau 137 ar yr anadliad caled *h*- yma ar ôl y rhifol.

46 Cyfatebiaeth t = d.

*14*

Bu Syr Siôn Aled, mab y bardd Tudur Aled, yn ficer Llansannan rywbryd rhwng 1522 a 1536 (D.R. Thomas: HDStA ii, 57), a gellid tybio mai yn ystod y blynyddoedd hyn y canwyd y cywydd. Fe'i henwir hefyd mewn dogfen gyfreithiol pan gafodd brydles ar dir yn ardal Llansannan yn 1520 (Cledwyn Fychan, 'Dau o feibion Tudur Aled', Cylchg LlGC xx (1977–8), 205). Crybwyllir galar y mab yng nghywydd marwnad Raff ap Robert i Dudur Aled:

Aeron o gorff yr un gŵr,
Un i Dduw yn weddïwr:
Dyna roi, un da'n ei raid,
Syr Siôn ar siars ei enaid.
Peri alaeth i'r prelad
Fu oer a dwys farw ei dad. (RR 6.47–52)

a thrachefn yn englynion marwnad Owain ap Gruffudd ap Dafydd Fychan:

Od aeth Tudur bur i'r bedd,
O'i gladdiad, mae prelad prudd. (TA 752)

Olrheinir ach Syr Siôn fel a ganlyn: Syr Siôn Aled ap Tudur Aled ap Robert ab Ithel ap Llywelyn Chwith o Chwibren, ap Cynfrig (nas enwir yn y cywydd) ap Bleddyn Llwyd … Hedd Alunog (WG1 511; WG2 971). Ymdrinnir â chysylltiadau teuluol Tudur Aled yn ysgrif Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', Cylchg LlGC xxiii (1983–4), 45–74, ond yn fwyaf penodol 50–7. Cynigir mai gŵr o Iâl oedd Tudur yn hytrach na brodor o Lansannan, a bernir mai cyswllt ei fab, Syr Siôn, â'r cwmwd oedd man cychwyn y traddodiad am gyswllt Tudur ei hun â'r fro.

7 Bai crych a llyfn.

9 **llawn o deiriaith** Sonnir am feistrolaeth Syr Siôn ar Roeg a Lladin yn llau. 31, 36 isod.

12 Ceir ll. debyg yn un o gywyddau Guto'r Glyn: *A bwrdd tâl y beirdd wyt ti,* GGl$^{2}$ XLII.68.

21 **ach** 'Cenedl'.

24 **Olwynog** Digwydd y ffurfiau *Elwynog* (Arch Camb lxxx (1925), 292–3), a *Molwynog* (Owain Gwynedd: Gw 24.62 *O lin Hedd Amolwynawg*).

27 **taid** Yr oedd Robert ab Ithel yn daid i Syr Siôn Aled, ond fe'i crybwyllwyd eisoes (ll. 13). Robert ab Iorwerth ap Rhirid … Ednowain Bendew yw hwn, taid Llywelyn Chwith o ochr ei fam, Angharad, WG1 263.

30 **lynaets** Gw. Cledwyn Fychan, *art.cit.* 72; ffurf ar y S. *lineage*. Nis nodir yn GPC 2074, ond cf. *llinys, lines,* gw. *ib.* 2187.

31 **Gwrecsam** Gw. Cledwyn Fychan, *art.cit.* 57 lle y trafodir cyswllt Tudur â'r ardal. Ymddengys i un o'i feibion ymsefydlu yn y dref.

32 **Ithel Gam** Nid enwir gwraig Tudur Aled na'i fam yn WG2, ond hynafiaid Angharad sydd dan sylw yn y llau. hyn. Gwraig Robert ab Iorwerth oedd Adles, merch Ithel Fychan ab Ithel Gam, WG1 285.

35 **Sierôm** Enwir pedwar o dadau a diwinyddion cynnar yr Eglwys, Sierôm (Jerome, NCE 7, 872–4), Awstin (Augustine, *ib.* 1, 1041–58), Ambros (*ib.* 1, 372–5), a Grugor (Gregory, *ib.* 6, 766–70).

36 *r* wreiddgoll.

42 **Yniwl** Iarll, tad Enid, TYP$^{2}$ lxxxii, 347–8.

60 **gŵyl Sannan** 13 Mehefin, LBS iv, 194.

61 Cyfatebiaeth d = t.

63 **Caradog** Mae sawl posibilrwydd: i. y brenin Brythonig a fu'n gwrthsefyll ymosodiadau'r Rhufeiniaid, CLC 75; ii. mab Brân Fendigaid,

TYP[2] 297–9; iii. Caradog Freichfras, TYP[2] 299–300; iv. Caradog, Iarll Cernyw, BD 72.

64 **Caer-wynt** Awgrymir yn Cledwyn Fychan, 'Dau o feibion Tudur Aled', Cylchg LlGC xx (1977–8), 205, ddarfod canu'r cywydd yn ystod y bwlch o flwyddyn a fu rhwng marw'r Esgob, y Cardnal Thomas Wolsey (29 Tachwedd, 1530) a chysegru Stephen Gardiner, ei olynydd (3 Rhagfyr, 1531).

68 **Emyn Curig** Gweddi am ddiogelwch rhag peryglon, gw. LBS ii, 194–5; Brynley F. Roberts, 'Rhai Swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 202–3.

*15*

Bu farw Tudur Aled yn 1525 (CLC 589, ond yn 1527 yn ôl Eurys Rowlands yn ei bennod ar y bardd yn GWL ii, 322).

1 **Aled** Rhennid cantref Rhufoniog yn dri chwmwd; Is Aled, Uwch Aled a Cheinmeirch, WATU 190. Yn Uwch Aled y mae Llansannan, cartref tybiedig Tudur, ond dangosodd Cledwyn Fychan mai gŵr o Iâl oedd y bardd (gw. nodyn brig cerdd 14). Cyfarch y bardd wrth ei enw priod a wneir yma, nid ei uniaethu â dau gwmwd Aled. Dangosodd Cledwyn Fychan ymhellach fod o leiaf un aelod arall o'r tylwyth yn arddel yr enw 'Aled', gw. 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', Cylchg LlGC xxiii (1983–4), 70.

11 **Iolo … Lywelyn** Iolo Goch a Llywelyn Goch ap Meurig Hen, ond efallai mai cyfeiriad at Lywelyn Chwith, un o hynafiaid Tudur, sydd yma.

12 **y Chwith** Gw. nodyn brig y cywydd blaenorol.

14 **maen a throsol** Cyfeiria Lewys Daron at gryfder corfforol Tudur: *Maen a bar mwya' 'n y byd, / Ni bwriai neb o wryd*, GLD 25.43–4. Mynnai Guto'r Glyn nad oedd hafal i Harri Ddu am daflu maen a throsol: *Ni thrwsiodd maen na throsol, / Ni bu neb na bai'n ei ôl,* GGl[2] LXXXIII.43–4, a gw. ymhellach *ib.* LXXV.39–40 a CXXIV.15–16. Ond ni restrir taflu maen a throsol ymhlith y pedair camp ar hugain y disgwylid i uchelwr eu meistroli, gw. IGE[2] 387.

22 **cof** Y tri chof y disgwylid i'r beirdd eu meistroli, GP xc–xci.

24 **Catwn** Cf. *Bwriwyd cyty brawd Catwn*, GLM LXXVIII.13. Cyfeiria'r beirdd yn fynych at ddoethineb Cado Hen, sef Dionysius Cato, TYP[2] 291.

25 **tunnell** 'Casgen win'; y llestr yn cynrychioli'r cynnwys, a cf. GLM VI.47–8. Pur wahanol yw'r ll. hon yn nhestun T. Gwynn Jones: TA 728 *Deuai llu, eu deuwell oedd.*

27 **Tydai … Tad Awen** Yn Llyfr Du Caerfyrddin y ceir y cofnod cynharaf amdano, yn Englynion y Beddau, J. Gwenogvryn Evans, *The Black Book of Carmarthen* (Pwllheli, 1907), 63. Digwydd ei enw yn gyson ym marwnadau'r beirdd i'w cyd-brydyddion, e.e. marwnad Iorwerth Fynglwyd o waith Lewys Morgannwg, GIF 45.21–2, a marwnad Wiliam Llŷn i'w athro Gruffudd Hiraethog, OBWV 99.51.

32 **dwned** Seiliwyd yr adran ar y rhannau ymadrodd yn y gramadegau barddol ar ramadegau Lladin Priscianus a Donatus, GP xxxiv.

37 **aur dafod** Neu *Aur Dafod*, os bernir mai cyffelybu Tudur i Edern Dafod Aur oedd bwriad Huw ap Dafydd, fel y gwnaeth Siôn ap Hywel yn ei farwnad ef, gw. DLlM 38.47–8. Yn ôl y traddodiad, bu'n rhoi trefn ar reolau cerdd dafod yn y 13g., CLC 173.

38 **o wŷdd Mai** Awgrymir bod deunydd crai'r bardd yn ir a phrydferth fel tyfiant y gwanwyn, ond gall yr ardd. gyfleu'r ystyr 'rhag'. Cynigiodd Siôn Ceri mai yn gynnar yn y flwyddyn y bu farw Tudur: *Och o'r floedd ddechrau'r flwyddyn*! / *O chuddiwyd och Dduw a dyn*!, GSC 45.5–6, tra gresynai Lewys Môn: *och oeri'r hin ddechrau'r haf*, GLM XCI.15.

41 Parthed yr awgrym fod Tudur yn awdurdod ar gerdd dafod a cherdd dant, gw. TA xxxviii–xxxix; GLM 527; D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LlCy ii (1952–3), 130.

46 **un ŵyl uchel** Eisteddfod gyntaf Caerwys, 1523?

52 **gwisg lwyd** Yng Nghwrt y Brodyr Llwydion yng Nghaerfyrddin yr oedd Tudur pan fu farw, wedi cymryd ohono wisg brawd o urdd San Ffransis.

55 *m* wreiddgoll.

57 **Caerfyrddin** Daliai Syr Rhys ap Tomas, noddwr mwyaf adnabyddus Tudur Aled, swydd siambrlen sir Gaerfyrddin.

58 Wyth sillaf yn y ll.

61 **bloesgyn** 'Bloesgni', yn hytrach nag 'un â thafod tew'; i'r flwyddyn 1644 y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 289.

71 *f* led-lafarog.

72 **'geinnyn** *(U)gain + dyn.*

## *16*

Ceir ach Robert ap Rhys ap Maredudd yn WG2 1331–2; PACF 204; L. Dwnn: HV ii, 344. Cynigir braslun o'i yrfa yn ByCy 735–6, ac yn ysgrif Enid Roberts, 'Teulu Plas Iolyn', TCHSDd xiii (1964), 38–110, yn fwyaf arbennig 53–62. Profwyd ei ewyllys yn 1534.

1 *m* wreiddgoll. Yr unig enghraifft y sylwyd arni yn y canu.

7 **gwynfyd** i. 'llawenydd, dedwyddwch'; ii. 'soriant, cenfigen' (enghraifft gynharaf yn 1567 yn ôl GPC 1774). Diau fod yma amwysedd bwriadol.

19 **y Cardnal Coch** Penodwyd Robert ap Rhys yn gaplan i'r Cardnal Wolsey, ac yn groesgludydd iddo (ll. 78). Awgrymir yn y cywydd fod Robert wedi tramgwyddo, a'i fod wedi gorfod ei amddiffyn ei hun gerbron y Cardnal. Bu cryn anniddigrwydd yn esgobaeth Bangor yn 1525 pan benodwyd Wiliam Glyn yn archiagon, yn hytrach na Thomas Runcorn, yr ymgeisydd a gefnogai Wolsey (A. Cynfael Lake, 'Dau Gywydd i'r Doctor Wiliam Glyn', Cylchg HSG liv (1993), 91–105), ond bu gwrthdaro rhwng Robert ap Rhys a'r Salbrïaid yn esgobaeth Llanelwy yn y dauddegau a'r tridegau a chafodd y Salbrïaid (?*wŷr blaen f'ynys* ll. 11) beth llwyddiant wrth geisio dwyn eu cymydog o Hiraethog i gyfrif wedi i haul Wolsey fachlud yn 1529, gw. Enid Roberts, *art.cit.* 57–60.

23 **gwrit** *Y gert* yn y llsgr., ffurf ar *cart, card*, ond ceir gwell ystyr o dderbyn mai ffurf ar y S. *writ* sydd yma, '*A written command, precept, or formal order issued by a court in the name of the sovereign',* OED d.g. Yn yr un modd, gellid cyfiawnhau diwygio *dowtiaw* > *ditiaw* (S. *indite*) yn y ll. flaenorol.

24 **atwedyd** i. 'ailadrodd', GPC 233, enghraifft gynharaf 1567; ii. 'dad-ddywedyd', enghraifft gynharaf 1604.

28 Twyll gynghanedd *d*.

46 **tylodi** Rhaid wrth air deusill. Ond gellid diwygio'r ll.: *Tlodi maent ei olud maith.*

48 Wyth sillaf yn y ll.

55 Gadawyd bwlch yn y llsgr. ar gyfer y llau. hyn.

68 *n* o dan yr acen yn yr orffwysfa yn ateb *nr* yn y brifodl.

80 Camosodiad gr. ll = ll. gr.

*17*

Dilynir ach Elis ap Hywel yn drefnus dros chwe chenhedlaeth yn rhan gyntaf y cywydd: Elis ap Hywel ap Gruffudd ap Rhys ab Ieuan ap Llywelyn Ddu (WG1 52; WG2 115; L. Dwnn: HV ii, 124–5; HPF vi, 47–8, 103–4). Ni chrybwyllir cywydd moliant Huw ap Dafydd yn y drafodaeth ar y canu i deulu Branas a Chrogen yn NBM 41–5, ond gelwir sylw at gywydd gan Siôn Trefor i ofyn pedair caseg gan Hywel ap Gruffudd a'i feibion dros Rhoser ap Siôn Eutun. Enwir Elis a dau o'i frodyr yn y cywydd hwn.

Dengys y tri chwpled a ychwanegwyd ar ymyl y ddalen yn LlGC 1580B i Elis ap Hywel fod yn brwydro ym Mwlen (gw. ymhellach 1.17n).

11 **Eutun** Siôn Eutun ap Siâms, tad yng nghyfraith Gruffudd ap Rhys, WG1 894.

**Môn** Gwraig gyntaf Hywel ap Gruffudd oedd Catrin, merch Gruffudd ab Ieuan ab Einion ap Gruffudd, ac Isabel, merch Ieuan ab Adda ab Iorwerth Ddu o Bengwern. Priodasai Ieuan ab Adda ag Angharad, merch Ednyfed ap Tudur ap Goronwy o Drecastell, Môn, WG1 680, 728, 882.

12 **dau Einion** Enwir un Einion uchod. Methwyd â tharo ar ail Einion yn yr ach.

27 Ceisiodd copïwr LlGC 1580B wella'r gynghanedd wallus yn y ll. fel y'i ceir yn LlGC 278B; dileodd *braff* a rhoes *gawr* yn ei le. Cadwyd y darlleniad gwreiddiol a diwygio *gwych* yn *brych*.

36 Wyth sillaf yn y ll. Gellid dileu'r cysylltair ar ddechrau'r ll. heb amharu ar yr ystyr.

38 Cf. 2.2, *Bryn a dôl barwnwaed yw.*

42 **Constans** *Gvr doeth a glev oed hvnnv, a gvr a lauuryei yn wuy no neb y achuanegu kyffredin arglvydiaeth Ruuein,* BD 69.

49 **Ffrolo** *Tywyssavc ar Freinc*, a *gvr mavr aruthyr ... ac anuedravl y dewred a'e gedernyt a'e glevder,* BD 154–5.

55 *n* berfeddgoll.

## *18*

Ach: Siôn ap Hywel Fychan ap Hywel ap Gruffudd ap Siancyn ap Llywelyn ab Einion ap Celynin o Lwydiarth (WG1 19; WG2 23; L. Dwnn: HV i, 294). Trigai'r bardd Tudur Penllyn (*fl. c.* 1420–85, CLC 589) ar un adeg yng Nghaer-gai, ac yno yn ôl pob tebyg y ganed ei fab, Ieuan (GTP x–xi; xxx–xxxi; CLC 291), ond yn HPF vi, 145 cofnodir mai Hywel Fychan a gartrefai yno erbyn 1521.

2 **Caergynyr** Ym mhlwyf Llanuwchllyn ym Mhenllyn y mae Caer-gai. Yn TYP$^2$ 306 a GTP 144 gelwir sylw at y traddodiad mai Cai ap Cynyr a roes ei enw i'r cartref, ond adwaenid ef wrth yr enw Caergynyr hefyd. Gellid tybio mai dwyn i gof berchenogion tybiedig y cartref yn y gorffennol oedd amcan Huw ap Dafydd yn y ddau gwpled agoriadol.

6 **Mechain** Yn Llanfihangel-yng-Ngwynfa, yng nghwmwd Mechain Uwch Coed, y saif Llwydiarth.

14 **Eifionydd** Mam Siôn oedd Elin, merch Siôn ap Maredudd o Ystumcegid, ab Ieuan ap Maredudd, WG1 457; WG2 846.

25 **Elsabéth** Gwraig Siôn oedd hi, a merch Siôn Grae ab Wmffre Grae ap Harri Grae, ac Elen, merch Owain ab Ieuan Teg, WG2 21.

27 **anrhydeddynt** *Anrhydedd* + *hynt*.

30 **Glosedr** Priodasai Harri Grae, Iarll Tancrfil, ag Antigone, merch Wmffre, Dug Caerloyw, mab ieuaf Harri IV, CP vi, 138–9.

34 **Syr Gruffudd** Gwraig gyntaf Owain ab Ieuan Teg oedd Catrin, merch Rheinallt ap Syr Gruffudd Fychan, Broniarth, ac Ales ferch Gruffudd o Abertanad (ond ni nodir yn WG1 481 ai Catrin ynteu Meddefus ferch Gwilym, ail wraig Owain, oedd mam Elen).

40 **sir Gaer** Sir Gaernarfon, cf. GLM XLVIII.32 a TA CXVIII.6.

47 Bai crych a llyfn. Diwygiwyd *tiroedd* y llsgrau. er mwyn sicrhau odl reolaidd.

48 Cyplysir Maelgwn a chyfeiriadau at filgwn yn fynych. Awgrymodd Eurys Rowlands fod yr hanes am y brenin a adroddir yng nghywydd Dafydd Llwyd i Dydecho yn esbonio'r cyfeiriadau hyn, GLM 396–7, ond nid llai tebygol yr esboniad mai anghenion y gynghanedd a barodd y mynych gyfosod, yn yr un modd ag yr esgorodd gofynion odl ar 'draddodiad' am Oswallt a'i wallt hardd. Gw. isod 23.9 a GSC 31.19n.

57 Enwir Hywel Fychan yng nghywydd cymod adnabyddus Tudur Aled i Wmffre ap Hywel, Ynysymaengwyn (TA LXVI; y cywydd a briodolir i Hywel Llwyd yn y casgliad hwn (cerdd 24), ac ysgrif Enid P. Roberts, 'Cywydd Cymod Hwmffre ap Hywel ap Siencyn a'i Geraint', Cylchg CHSFeir iv (1961–4), 302–17). Canodd Tudur Penllyn ar achlysur cynharach i gymodi Hywel ap Gruffudd ap Siancyn a Hywel ap Gruffudd Derwas, GTP cerdd 22.

58 **stentiaw** Gw. EEW 120 ac OED d.g. *stent*, '*To extend, stretch out or set in its proper position*'.

*19*

Cywydd i Lewys ab Owain ap Hywel a laddwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy yn 1555 (ByCy 673). Cofnodir ei ach yn WG2 1202; L. Dwnn: HV ii, 236; PACF 363. Daliai swydd siryf Meirion yn 1545, a thrachefn yn 1554 (LSEW 260; Pen 128, 782).

7 **Hywel Ddu** Ei daid, ond odid, ond Hywel y'i gelwir yn y cyfrolau uchod. Gruffudd Ddu oedd taid yr olaf.

9 **Ynyr** Mam Lewys oedd Gwenhwyfar, merch Meurig ab Ieuan … Meurig ab Ynyr … Bleddyn ap Cynfyn, WG1 79.

11 Nid atebir *n* yr orffwysfa.

15 **gweddiad** ‘Arweddiad, ymddygiad’; ni chofnodwyd yn GPC 1611–12 yr un enghraifft sy’n gynharach na’r 18g.

17 Ceir wyth sillaf yn y ll. Wrth ddiwygio’r brifodl sy’n ddiacen yn y ddwy lsgr.—ond ysgrifennwyd *od gwn* ar ymyl y ddalen yn llsgr. A—enillwyd cynghanedd, ond ceir bellach gwpled a’i ddwy fraich yn diweddu’n acennog.

18 *r* wreiddgoll.

33 **llanwayw** Cyfuniad o *llanw* + *gwayw.*

48 Twyll gynghanedd *l*; *f* led-lafarog.

60 **Melan** Dinas Milan yn yr Eidal a oedd yn enwog am ei chleddyfau dur, EEW 62.

63 **gloyw** Yn ddeusill.

65 **dirgywaeth** *Dir* (i. ‘enbyd’; ii. ‘trais, caledi’) + *cywaeth.*

74 **pwmel** ‘*A pomell of a sworde’,* diffiniad William Salesbury a ddyfynnir yn EEW 111.

80 **y cadarn a’r cêl** Ymgais y Barwn i wastrodi’r herwyr.

84 **Cadw** Nid amhosibl yma’r fe. *cadw* ‘amddiffyn’.

## *20*

Yng Ngartheryr yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant y cartrefai Lewys Cyffin ap Siôn ap Wiliam ap Morys ab Ieuan Gethin ap Madog Cyffin (WG1 38; WG2 88). Canodd Wiliam Llŷn farwnad iddo, a mydryddodd flwyddyn ei farw (CM 21B, 81–4):

> oed dvw n bvmthegkant vnion
> trvgain anaw braw y mob bron.

Soniodd hefyd am gampau Lewys ar faes y gad yn Ffrainc:

> aed trossodd bann gyffrodd ffraink
> ar llew gida Ieirll Iefaink.

Lowri, merch Rheinallt ap Gruffudd ap Hywel, oedd ei wraig gyntaf. Mydryddir yr ach yn y cywydd, ond y tro hwn, mawrygir yn ogystal gysylltiadau daearyddol yr hynafiaid.

4 **Llywarch** Llywarch Hen. Ond tâl nodi bod Cynfrig ap Llywarch yn un o gyndeidiau Rhys ap Maredudd, gw. ll. 23.

13 **Collen** Nawddsant Llangollen yng nghantref Swydd y Waun, gw. LBS ii, 160. Yno y cartrefai teulu yng nghyfraith Wiliam ap Morys. Alis, merch Ieuan Fychan o Bengwern, ab Ieuan ab Adda … Owain ap Bleddyn ap Tudur, oedd ei wraig, gw. WG1 882; WG2 1683.

16 **Owain** Y gŵr a enwir uchod, neu Owain Brogyntyn, un o hynafiaid gwraig gyntaf Morys ab Ieuan Gethin, WG1 53.

18 **Cadell** Mab Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr, ByCy 55.

19 **Tegeingl** Priodasai Ieuan Fychan o Bengwern ag Angharad, merch Hywel ap Tudur … Edwin ap Goronwy, tywysog Tegeingl, WG1 285.

21 **Gwynedd** Anodd gwybod at bwy yn union y cyfeirir yma.

23 **Hiraethog** Chwaer Robert ap Rhys (gw. cerdd 16 uchod) oedd gwraig Siôn ap Wiliam, sef Catrin, merch Rhys ap Maredudd o Hiraethog, WG2 1331. Cyfeiria Tudur Aled at epil Rhys ap Maredudd:

> Ple ’n y Mars, pa lwyn ym Môn,
> Neu ba dir na bo d’wyrion? …
> A’th ŵyrion yng Ngarth Eryr,
> A theg yw’r llwyth, Eigr a Llŷr! (TA LVIII. 21–2, 27–8)

28 *hwn* yw darlleniad Pen 91, ond b. yw cenedl *llys* yn 2.24 (gw. hefyd 3.40n).

37 *n* wreiddgoll.

50 Chwe sillaf sydd yn y ll. oni chyfrifir *hydr* yn air deusill.

58 **milwr** Ai Hu Gadarn a ymenwogodd fel amaethwr, GIG XXVIII. 63–78?

## *21*

Cofnodir ach Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn, Siambrlen Gwynedd (m. 1531) yn WG2 1268; PACF 185. Gweler hefyd ByCyAt 95–8 ac Eurys I. Rowlands, ‘Tri Wiliam Gruffudd’, LlCy ii (1952–3), 256–7.

12 **Gruffudd** Gwilym Fychan ap Gwilym ap Gruffudd oedd taid y Siambrlen.

17 **Siân** Pilstwn, ail wraig Syr Wiliam Gruffudd, a merch Siôn Pilstwn Hen. Cysylltir y teulu ag Emral ym Maelor Saesneg, ond ymsefydlasai cangen yng Nghaernarfon erbyn dechrau’r 16g.

19 **Enid** Un o dair rhiain ardderchog llys Arthur, TYP[2] 347–8, a merch Yniwl Iarll, gw. 14.42n.

24 **Gwent** Mam Siân Pilstwn oedd Elen, merch Robert Chwitnai ac Elsbeth ferch Tomas Fychan. Llysfrawd yr olaf oedd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, WG2 1454, 1748.

25 *n* berfeddgoll.

26 **gwyrdd** Y dillad a gâi'r beirdd yn rhodd gan eu noddwyr. Cf. GSRh 3.96n a GIG VI.15–20:

Gnodach o'i law iddaw oedd
Ar ŵyl fry roi lifreioedd
A brethynnau brith honnaid
Ac o'r gwyrdd gorau a gaid
I gerddorion breisgion brisg,
I glerwyr, no galarwisg.

45 **Bwlen** Bu Syr Wiliam yn ymladd yn Ffrainc yn 1513, GLD 11.15.

*22*

Gadawodd y copïwr, Wiliam Bodwrda, fwlch ar ddechrau'r cywydd ar gyfer tua 24 ll. Enwir y rhoddwr, rhyw Elisau, yn y cwpled clo.

1 **bronllydan** Disgwylir i ail elfen y cyfansoddair afryw dreiglo pan fo'r elfen gyntaf yn eb. (Treigladau 20). Gwelir yma enghraifft o galedu *nl* yn *nll*, cf. *bronlliain, bronliain,* GPC 333.

5 Mae'r ll. yn rhy hir, ond nid yw'r odl yn rheolaidd oni chyfrifir *gyffröer* yn air trisill.

14 **dwrn** 3 un.pres.myn. y f. *dyrnu* 'taro'. Cwyd y gwreichion (*tân*) wrth i'r pedolau daro'r llwybr. Cyfleir yr un syniad yn y cwpled a ganlyn o waith Lewys Daron, *Geirwon fydd ei garnau fo, / Gwydr a haul gwedi r' hoelio,* GLD 22.59–60.

17 *r* berfeddgoll ac *f* led-lafarog. Gellid gwella'r gynghanedd trwy ddiwygio *cefnfyr* yn *carnfyr*.

26 **march efydd** Trafodir arwyddocâd chwedlonol yr ymadrodd yn GLD 22.69n.

34 **Ynys y Gwin** Ymadrodd a luniwyd ar ddelw *Ynys y Mêl*, uchod 20.5, ac *Y Fêl Ynys,* uchod 7.34.

*23*

9 **Oswallt** Brenin a sant, gw. NCE 10, 810–11. Sonnir yn fynych yn y canu am ei wallt, a gellid tybio mai gofynion y gynghanedd a'r odl, yn hytrach na thraddodiad am wallt Oswallt, sy'n esbonio'r hyn sydd yn y ll. hon, ac mewn cwpledi megis GGl[2] XLIV.49–50 *Oswallt, fireinwallt frenin*, / *Ysgar glwyf esgair a glin;* Pen 67, 174 *y karw kwyrwallt vn dwf ac oswallt / a roir dan i wallt ayrwy avr vlltvt*. Mae'n arwyddocaol na ddigwydd y darlleniad hwn yn llsgrau. Llywelyn Siôn, nac yn y llsgrau. sy'n priodoli'r cywydd i Lewys Glyn Cothi (ac un llsgr. gynnar, Pen 83, yn eu plith).

10 Bai crych a llyfn, ac *r* berfeddgoll.

12 *n* berfeddgoll.

16 **Sandwig 'ry syndal** Cf. GLGC 12.50 *a'r ail o Sandwis ar ael Syndal.* Esbonnir mai cyfeiriad at gastell Sandal ger Wakefield sydd yn awdl Lewys Glyn Cothi, ond yr e.c., 'lliain main', sydd yn y cywydd hwn. Yr oedd Sandwig, neu Sandwis, gw. EEW 245, yn borthladd pwysig gynt, a diau mai'r cyfoeth a fewnforid sy'n esbonio'r cyfeiriad hwn. Deellir *'ry* yn gywasgiad o *ar y.*

19 *n* berfeddgoll.

21 *n* berfeddgoll.

23 **hoedl** Yn ddeusill, a *marw* yn ll. 41.

27 **Tegau** Eurfron, un o dair diweirwraig Ynys Prydain, TYP[2] 174–5.

30 **cunog** Tarddair o *cun* 'hardd' nas cofnodir yn GPC 630. Digwydd y ffurf ym mhob un o'r llsgrau. Mae'n bosibl hefyd mai *cunnog* yw'r darlleniad cywir, sef lliw disglair y llaeth a gesglid yn y llestr godro.

32 **Eirchion** Meirchion (darlleniad Llst 133), tad March y deuir ar ei draws yn y chwedl am Drystan ac Esyllt, TYP[2] 456–7.

*r* wreiddgoll.

34 Camosodiad f.r = r.f.

38 *m* berfeddgoll.

44 *n*, *r* berfeddgoll.

45 *n* berfeddgoll, *f* led-lafarog.

*24*

Ach: Wmffre ap Hywel ap Siancyn ab Iorwerth ab Einion ap Gruffudd ap Llywelyn ap Cynfrig (WG1 727–8; WG2 1427–8; L. Dwnn: HV ii, 230;

hefyd Bob Owen, 'Cipolwg ar Ynysymaengwyn', Cylchg CHSFeir iv (1961–4), 97–118). Daeth y Ddôl Goch ac Ynysymaengwyn i feddiant y teulu pan briododd Llywelyn ap Cynfrig â Nest, aeres Gruffudd ab Adda. Canodd Tudur Aled i gymodi Wmffre ap Hywel â'i geraint (TA LXVI), ac yn ei hymdriniaeth â'r cywydd yn Cylchg CHSFeir iv (1961–4), 302–17, dangosodd Enid Roberts mai anghydfod rhwng teulu Ynysymaengwyn ac eraill o ddisgynyddion Gruffudd Derwas a ysgogodd Tudur i lunio ei gywydd adnabyddus. Bu aelodau'r tylwyth yn croesi cleddyfau ar sawl achlysur dros gyfnod o hanner canrif a mwy. Awgrymodd Dr Roberts mai cefndir cywydd Tudur oedd helyntion y blynyddoedd 1512–13, a geill mai i'r un cyfnod y perthyn y cywydd dan sylw.

12 **dug** Gwraig Wmffre oedd Annes, merch Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn; yr oedd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yn ewythr i'r olaf. Yr oedd mam Wmffre, hithau, yn ferch i farchog, sef Syr Rhoser Cinstwn.

26 *r* wreiddgoll.

28 **cyngor call** Cywydd cymod (cynharach) Tudur Aled?

29 *n* wreiddgoll.

44 **Camlan** Cyfeiria Tudur yn ei gywydd ef at y tair ofergad, *A'r drydydd oedd waethaf. Sef oedd honno, Camlan*, TYP[2] 206–10 a gw. TA LXVI.41–52. Parthed y berthynas rhwng Arthur a Medrod, 'ei nai', a'r anghydfod rhyngddynt, gw.TYP[2] *ib.* 160–2, 454–5. Crybwyllir y modd y bu Iddog Cordd Prydain yn peri cynnen rhwng Arthur a Medrod, a gellid tybio mai swyddogaeth gyffelyb sydd i'r Iddew yn y cwpled nesaf, megis yng nghywydd Tudur Aled*:* TA XXI.63–4 *Yn Iddew, un a weddai, / Wrth roi'n null* [= brwydr] *Arthur a'i nai*. Trafodir lleoliad Camlan yn TYP[2] 160. Parthed yr awgrym y dylid lleoli Camlan ar lan Afon Camel yng Nghernyw, cf. TA XXXVII.42 *Yng nglan afon Gamlan gynt*.

47 *f* led-lafarog.

48 *f* led-lafarog. Rhaid cyfrif *bwrw* yn air deusill.

Dangosir yn Treigladau 389 mai'r awydd i ddynodi'r sain gywir yn hytrach nag ymgais i anwybyddu'r treiglad sy'n esbonio ymadroddion megis *heb pechod*, *heb perigl.* Ni ellir cyfiawnhau darlleniad y llsgr. *heb bwrw* ar y tir hwn, ond digwydd yr ymadrodd *heb bai* yn 4.65.

55 *r* berfeddgoll.

56 **Einion … Ynyr** Gw. yr ach uchod. Trwy briodas Elin ferch Gruffudd Derwas â Siancyn ab Iorwerth yr ymgysylltai Wmffre ag Ynyr. Nid yw'r bardd yn enwi'r 'ewythrydd', ond ymgydnabyddir â phrif gymeriadau'r anghydfod teuluol trwy ystyried tystiolaeth cywydd Tudur Aled, a thrafodaeth Enid Roberts.

*25*

Erchir y rhodd gan Siancyn ap Siôn ab Ieuan Fychan, Caethle (WG1 838; WG2 1606). Priodasai Siôn ab Ieuan Fychan ag Angharad, merch Siancyn ab Iorwerth ab Einion, Ynysymaengwyn, ac yr oedd Siancyn ap Siôn ac Wmffre ap Hywel (cerdd 24) yn ddau gefnder. Enwir Siancyn yng nghywydd cymod Tudur Aled (TA LXVI.23–4). Aelod o deulu enwog y Tywyn yn ne Ceredigion oedd gwraig Siancyn ap Siôn, sef Mawd, merch Rhydderch ap Rhys ap Maredudd (WG2 926). Trafodir y canu i'r teulu yn NBM 21–4, ond yr unig ganu i Siancyn ap Siôn a grybwyllir yw'r cywydd a luniodd Ieuan Rhaeadr iddo. Canodd Syr Owain ap Gwilym awdl farwnad i Siancyn ap Siôn (GSOG cerdd 29), a chynigiwyd mai mab Siôn ab Ieuan Fychan oedd hwn. Geilw'r bardd ef yn ustus ac yn siryf, ac y mae ei enw i'w weld ymhlith siryfion Meirion yn LSEW (bu'n gwasanaethu rhwng Tachwedd 1541 a Thachwedd 1542). Yn NBM, fodd bynnag, mynnir i Syr Owain goffáu Siancyn Fychan, ŵyr Siancyn ap Siôn. Perthynai canu Syr Owain i'r blynyddoedd 1533–64 (GSOG iii); o ystyried cyfnod ei ganu, a'r ffaith i ddau o farwnadwyr Syr Owain, Huw Arwystl a Wiliam Llŷn, gyfarch mab Siancyn ap Siôn, diogelach dilyn GSOG.

Ni leolir yr eirchiad yn y cywydd, ond nodir yn y ddwy lsgr. mai ar ran Siôn ap Rhys ap Morys y deisyfwyd y bwcled. A barnu wrth dystiolaeth WG2*,* nid oedd un gŵr o'r enw hwn yn byw yng Ngwynedd, ond trigai Siôn ap Rhys ap Morys ap Madog ab Einion (ll. 18) yn Llanfihangel-yng-Ngheri yn sir Drefaldwyn. Mam Siôn oedd Efa, merch Hywel ab Owain ap Gruffudd. Angharad, modryb Efa, oedd gwraig gyntaf Ieuan Fychan, Caethle, er nad hi oedd mam Siôn (WG1 396; WG2 714). Gellir nodi ymhellach fod cyfnither Siôn ap Rhys, Catrin, yn briod â Ieuan Gwyn, brawd Siancyn ap Siôn.

8 **coed Rhydderch** Gwraig Einion o Ynysymaengwyn oedd Tangwystl, merch Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Parcrhydderch yn Nyffryn Aeron, WG1 179.

20 Diwygiwyd y ll. am mai gŵr o Bowys sy'n erchi'r rhodd.

22 **cae Esyllt** 'Rhywbeth o werth arbennig', BU 105; TYP$^2$ 350.

24 **pos** *Pys* yn y llsgrau., ond diau mai *pos* sy'n gweddu orau. Awgrymir mai ffurf sy'n cyfateb i *bos* ydyw, trosiad a ddefnyddir yn gyson wrth ddyfalu bwcled (a chyd-destun yr holl enghreifftiau a ddyfynnir yn GPC 302, o waith Gutun Owain, Lewys Glyn Cothi, Huw Cae Llwyd a Thudur Aled).

26 **torwyn** *Tôr* ('mantell', hefyd *torun, toron, toryn*) + *gwyn.*

28 **Tubal** ‘Hyfforddwr pob crefftwr copr a haearn’, GB 1413–14.

38 **meurwys** Ffurf sy’n cyfateb i *merwys;* gw. TA 633 lle yr esbonnir y gair: i. ‘aderyn du’; ii. ffurf ar *merys*, ‘pren medler’.

48 *r* wreiddgoll.

*26*

Trafodir y cywydd, a hanes y gwyrda a enwir ynddo, yn CTC (cerdd 110 a 496–502). Awgrymir, ar sail yr hyn sy’n hysbys am y pedwar abad, mai yn ystod y blynyddoedd 1528–35 y’i lluniwyd.

1 Diwygiwyd y ll. er mwyn sicrhau bod cynghanedd ynddi.

4 **Sain Bened** Tai Sistersaidd oedd Ystrad Marchell, Cymer, Aberconwy a Glyn-y-groes. Dilyn rheoliadau Sain Bened a wnâi’r urdd hon.

6 **Abad Siôn** Yr abad olaf a wasanaethodd yn Ystrad Marchell, a hynny rhwng tua 1527 a’r adeg y diddymwyd y sefydliad. Canwyd nifer o gerddi i Ddafydd ab Owain pan oedd yn abad Ystrad Marchell (cerddi 104–109 yn CTC), ond ni welwyd yr un cyfeiriad at yr Abad Siôn. Yn CTC mynnir ei fod yn fab i Robert ap Rhys, Plas Iolyn, ac yn frawd i’r Doctor Coch, sef Elis Prys. Er bod gan Robert ap Rhys fab o’r enw Siôn (WG2 1332), ac er i ddau o’i feibion gael eu penodi yn abadau Aberconwy, ni chrybwyllir gyrfa Siôn yn ByCy 735 nac yn Enid Roberts, ‘Teulu Plas Iolyn’, TCHSDd xiii (1964), 53–83.

12 **Abad Lewys** Dyma’r unig gyfeiriad ato yn y canu. Yr oedd yn abad Cymer erbyn 1528, a daliodd y swydd hyd nes y diddymwyd yr abaty yn 1535/6. Gw. hefyd NBM 52–4.

14 **Sieffre** Johns. Olynodd Hugh Price yn abad Aberconwy yn 1528/9, ac ymddiswyddodd yn 1535, o’i anfodd, pan fu symudiad ar droed i wneud Rhisiart, un o feibion Robert ap Rhys, yn abad.

20 **soelbraff** Cynganeddir *Salbri* a *seilbraff* yn 12.44, a *Salbri* a *seilbren* yn 11.5, a phriodol fai diwygio darlleniad y llsgr. Ond cynigir yn CTC mai ffurf ar y S. *assoil* (OED d.g.), ‘rhoi maddeuant’ + *praff* sydd yma.

**Abad Salbri** Yr oedd yntau yn abad erbyn 1528, ond dug anfri ar yr abaty pan gyhuddwyd ef o ladrata ac o fathu arian drwg. Yr oedd dan glo yn Nhŵr Llundain erbyn 1535. Ni wyddys pa gyswllt a oedd rhyngddo a’r tri Salbri a folir yng ngherddi 11–13.

23–4 **Syr Tomas … / Hanmer** o’r Owredd, a mab Rhisiart ap Gruffudd ap Siancyn, gw. WG2 949–50; ByCy 315. Bu farw yn 1545. Priodasai ei fodryb, Elsbeth, ag Elis Eutun (gw. isod).

25–6 **Siôn … / Eutun** Mab Siôn ab Elis Eutun, gw. cerdd 5 uchod.

29–30 **Siôn …. / Trefor** Yn CTC cynigir mai mab Siôn ap Siôn ap Rhisiart ap Siôn Trefor Hen oedd hwn, y gŵr a adeiladodd Drefalun yn 1576 ac a fu farw yn 1589, hanner canrif a rhagor wedi dyddiad tybiedig y cywydd gofyn, gw. WG2 1692; ByCy 920–1. Diogelach tybio mai ar ran Siôn Trefor o Wigynt y canodd y bardd, sef y gŵr a gyferchir yng ngherdd 27. Mab Edward ap Siôn Trefor Hen oedd hwn, ac Elsbeth, merch Siôn ap Siôn ab Elis Eutun, y chweched gŵr a gyferchir yn y cywydd, oedd ei wraig, gw. WG1 883; WG2 1691; L. Dwnn: HV ii, 328–9; Pen 127, 264, 267.

31 *r* berfeddgoll.

33 *n* wreiddgoll.

34 **Gent** Y dref yng Ngwlad Belg, yn ôl CTC.

60 **Luwcas** Yr ych yw symbol yr apostol Luc, gw. GLGC 35.55–62.

65 **traeth** Sef 'llain o dir gwastad', cf. GSC 52.5 *Traethen rhwng tair o ieithoedd.*

*27*

Awdl foliant i Siôn Trefor o Wigynt, a mab Edward Trefor ap Siôn Trefor Hen o Fryncunallt, ab Edward ap Dafydd ab Ednyfed Gam ab Iorwerth Foel (gw. 26.29n). Ai hwn tybed oedd 'John Trevor, yeoman of the Guard' a gafodd les ar diroedd yn Sandford ac Osleston yn Arglwyddiaeth Croes-oswallt yn 1529 (LPFD IV (3), 5406.12)? Yn 'Siôn Trefor o Wigynt', B v (1929–31), 40–1, mae I. Williams yn trafod y posibilrwydd mai ef a luniodd 'Buchedd Sant Martin' (gwaith a gopïodd Gutun Owain yn 1488) a'r Llyfr Arfau (yn llaw'r bardd drachefn). Tystia'r cywydd uchod mai yn nhridegau'r 16g. yr oedd Siôn Trefor yn ei flodau, gw. ymhellach *art.cit.* 33–40.

Y Mesurau:

| | |
|---|---|
| 1–40 | cadwyn o 10 englyn unodl union |
| 41–4, 49–52 | proest cadwynog |
| 45–8 | proest cyfnewidiog |
| 53–94 | cyfres o 7 gwawdodyn hir |

10 **Mwlen** Awgrymir yn 26.29–34 i Siôn ddilyn y fyddin i Ffrainc.

11 **y Drewen** Bu Edward Trefor yn gwnstabl Castell y Dre-wen, HPF ii, 177.

17 Nid oes cynghanedd yn y ll. hon.

19 **Awr** Priodasai Dafydd ab Ednyfed Gam â Gwenhwyfar, merch Adda Goch ab Ieuaf ab Adda ab Awr.

20 **Cyffin** Ann, merch Sieffre Cyffin, oedd mam Siôn Trefor.

23 **Eutun** Teulu yng nghyfraith Siôn. Elsbeth, merch Siôn Eutun ap Siôn (gw. cerdd 5) ab Elis oedd ei wraig.

25 **Gwrgenau** Mam Elis Eutun oedd Gwenhwyfar, merch Einion ab Ithel ap Gwrgenau Fychan ap Gwrgenau, gw. WG1 747.

**Cinast** Ermin, merch Syr Rhoser Cinast, WG2 1702, ac Elsbeth, merch Harri Grae, Iarll Tancrfil, WG2 131, oedd ail wraig Siôn Eutun ap Siôn, a hi oedd mam Elsbeth Eutun.

27 **canol gwlad** Yn drosiadol, ond cf. y cyfeiriad at *Canol Gwlad* (6.47n).

29 **Iarll Caer** Gw. 18.30n.

30 **Aragwn** Cysylltiadau Sbaenaidd Harri IV? Ail wraig ei dad, John o Gawnt, oedd Constance o Gastilla.

36 Neu *Enid, Euron un doriad*. Ysgrifennwyd *e* uwchben yr *o* yn *onid*, ond heb ddileu'r llythyren honno.

**Euron** Cariadferch y bardd Llywelyn ab y Moel, a enwir yn ei gywyddau i'r Bedwlwyn ac i'r Farf, IGE[2] LXII.42, LXIX.3, a thrachefn yng nghywydd marwnad Guto'r Glyn iddo, GGl[2] V.31–2 *Clywed y mae merched Môn / Cloi derw am serch clod Euron.*

39 **Olwen** Cariadferch Culhwch.

44 **Eigr** Mam Arthur, gw. G 456; TYP[2] 366n3.

52 **Gŵyl Marthin** Saif Llanfarthin ryw dair milltir i'r gogledd o Wigynt, WATU 304.

54 Yn 'Buchedd Sant Martin' adroddir am y sant yn rhannu ei fantell â chardotyn, gw. E.J. Jones, 'Buchedd Sant Martin', B iv (1927–9), 189–207, 305–10.

65 Y mae'r pennill hwn bellach yn annarllenadwy yn Pen 127.

71 Cynghanedd sain deirodl.

72 **nai Arthur** Gw. 24.44n.

75 **Mathau Goch** Y milwr enwog o Gymro a fu'n brwydro yn Ffrainc yn y 15g., gw. GGl[2] cerdd III; YB ix (1976), 85–91.

88 **Peléus** Yn acennog, a'r odl gyrch, o ganlyniad, yn anfoddhaol, ond dyma'r darlleniad cywir, yn ddiau. Cymeriadau niwlog yw Pelis—am yr ymddiddan rhyngddo a Mechydd ap Llywarch Hen, gw. CLlH 28–9; hefyd WCD 460—a Phelis Enwir, y dewin, BD 195 a GLM 492–3. Tad Archiles oedd Peléus (gw. TA XLI.4 am gyfeiriad arall ato), ac enwir yn y canu sawl arwr clasurol arall, megis Aiacs, Erclais, Ector: gw. Enwau personau isod.

89 **cym** Ffurf dafodieithol *cymer*, cf. GSC 44.63.

# *Geirfa*

*Os digwydd yr un gair neu ymadrodd fwy nag unwaith yn yr un gerdd, cofnodir yr enghraifft gyntaf yn unig. Ni restrir ffurfiau personol berfau—rhoddir berfenwau'n unig. Ni chynhwysir ychwaith enwau'r personau y cyfeirir atynt yn ach y gwrthrych.*

**abad** 26.13; *ll.* **ebyd** 26.1
**aberthwr** offerennwr 4.35
**abid** gwisg crefyddwr 26.13
**act** gweithred, camp 1.48, 6.61, 21.1
**adeilad** cynnydd [moesol] 7.47
**addwyn** tyner, teg 12.36
**ael** cwr gwisg *ll.* **aeliau** 27.38
**aesawr** tarian 8.48
**alaethu** gofidio 13.26n
**aliwn** 18.24
**annwyl** gwerthfawr 3.51, 23.40
**anrhydeddynt** 18.27n
**araf** doeth 11.38
**archiagon** 9.44
**arfwng** mwng 22.11
**art** dysg 9.44, 10.12
**arwain** dwyn, cludo 17.47
**arwydd** dangosiad, baner 10.1, 11.55, 23.33
**astrus** ystrywgar 19.63
**asur** maen gwerthfawr o liw glas 10.21, 13.64, 17.14
**atwedyd** 16.24n
**aurbwynied** dagr fechan wych 19.70
**aur dafod** 15.37n
**awenyddaidd** crefftus 4.52
**bagl** ffon esgob 14.66
**Baiwn** gwin o Bayonne 2.49
**banc** ariandy 3.44, 24.4
**bar** pawl, gwaywffon 1.40, 6.9
**barddawd** barddoniaeth, cerdd 15.57
**bardd cadeiriog** 15.36
**bario** cau â bar, diogelu 10.55
**barneisio** lliwio â farnais 9.45
**barwn** 2.4, 9.6, 10.19, 11.24, 17.38, 27.16
**barwnwaed** 1.28, 2.2
**barwnwalch** 3.1; *ll.* **barwnweilch** 24.26
**bas** S. *base* 25.38
**berw** bwyd wedi ei ferwi 2.46
**bicar** 14.64
**bidog** dagr 19.59
**biff** eidion, 11.48
**bilaen** taeog, dihiryn 25.36
**bilio** 16.12, 18.57 (gw. hefyd **cydfilio**)
**bliant** lliain main 1.25
**bloesgyn** 15.61n
**blowmon** dyn du *ll.* **blowmoniaid** 26.54
**bragod** diod frag 27.47
**braisg** cadarn 4.30, 7.13, 11.29, 21.36
**branar** braenar, tir wedi ei droi 2.37
**brau** hael; llym 1.39, 4.45, 5.45, 7.13, 9.21, 10.25, 11.8, 12.62, 13.33, 15.67, 18.55, 20.10, 21.36, 22.1, 25.21, 26.24, 27.7 bregus 4.50

**brawd**[1] barn 12.10
**brawd**[2] ffrir *ll.* **brodyr** 26.63
**brawn** cig (baedd) 11.48
**brenin, y** 1.28, 5.42, 16.76
**brigog** llewyrchus 7.30
**bronllydan** 22.1n
**brud** 13.53; *ll.* **brudiau** 21.53
**Bruwtwns** 9.40n
**bw** braw 16.40
**bwrdd tâl** y bwrdd uchaf yn y neuadd 14.12
**byrau** ?byr(dd)au 2.43n
**cadeirio** cynyddu 24.60
**cae Esyllt** 25.22n
**cainc** cangen, yn drosiadol am waywffon *ll.* **cangau** 27.75
**calyn** canlyn 13.20, 27.73
**camp** 4.36, 14.18, 17.41, 19.53; *ll.* **campau** 10.38
**cannu** gwynnu, gloywi 10.34, 20.21
**canon** y gyfraith eglwysig 9.10, 26.16
**cantref** 25.45
**cap** 1.66
**card** cerdyn 7.42
**caregl** cwpan Cymun *ll.* **cerygl** 4.31
**careio** torri'n gareiau (wrth aredig) 26.48
**cas** gelyniaeth 16.44, 24.55; *ll.* **casau** 16.41, 25.22
**cefnog** gŵr cefnog 11.36
**cefnu** trechu 12.66, 16.51
**cêl** gŵr sy'n cuddio, herwr 19.80
**cêr** taclau 4.40
**cerdd dant** 15.41 **cerdd dannau** 6.56
**cerygl** gw. **caregl**
**ceseilbraff** 11.13, 12.8
**claim** 14.49, 17.45
**clas** cwfaint 9.22
**cleidir** tir cleiog, 11.26, 27.71
**clêr, y glêr** 6.47, 7.59, 8.62, 12.5, 14.59, 17.53, 21.43, 27.78
**cloch, y gloch** 11.31
**clod, y glod** 1.33
**clöi** terfynu, darfod 4.40
**clos gwydr** 12.82n
**clud** baich, cyfoeth 23.30
**cnithio** ergydio 1.68
**cnot** S. *knot* 2.66, 5.31
**cob** clogyn 26.73
**cof** 15.22n
**colon** colofn 27.72
**cordio** cymodi 11.40
**corf** corf, colofn *ll.* **corfau** 27.88
**coron** 6.13, 16.36 **y Goron** 2.5
**corsed** arfwisg 7.1
**corsen** *ll.* **cyrs** 23.22
**corwalch** *ll.* **corweilch** 13.56
**cost** traul 2.45, 5.29, 10.36, 16.39, 17.59, 25.39
**costart** afal o gryn faint 9.43
**costio** talu 20.61
**cowrtiwr** gŵr llys 27.93
**craffwydd** 11.21, 18.9
**Cred** 1.38, 14.39, 16.80, 26.3
**crest** helm, llun herodrol 11.17, 13.63
**creuwr** un sy'n llunio neu greu 26.46
**croes** arwydd herodrol *ll.* **croesau** 13.63
**Croes, y Groes** 12.40
**Crog, y Grog** 20.35
**crwys** croes 25.37
**cunog** hardd 23.30n
**curas** arfwisg 11.4, 18.4
**cwfr** caead, cysgod, amddiffyn-nydd 6.26 **cyfr** 11.35
**cwrser** rhyfelfarch 5.43, 18.40; *ll.* **cwrseriaid** 17.30
**cwrt** 1.26, 5.19, 8.36, 11.36
**cwynfa** galarnad 16.8
**cydfilio** 16.9

**cydrinwedd** 9.25
**cyfelin** mesur hyd, cufydd 6.57
**cyfiawni** gwneud cyfiawnder 11.36
**cyfr** gw. **cwfr**
**cyfraith sifil** 9.7, 10.11
**cyngyd** amcan 19.46
**cymin** cymaint 10.46
**Cymro** 12.77, 16.79, 24.67, 27.89
**cynheiliad** cynhaliaeth 2.42
**cynyddiaeth** swydd cynydd 6.48
**cysur** gwroldeb 22.22
**cytir** tir cyffredin 2.40
**cytsain** 15.59
**cytysg** dysg gydradd 15.24
**cywydd** 15.38, 19.12, 25.20
**chwarel** cloddfa gerrig (yn ffig. am 'lu, amlder') 20.47
**chwit** S. *quit*, yn barod i ildio 16.43
**daered** 12.27n
**damasg** sidan patrymog 18.29
**dart** 6.59
**datgeiniad** 10.48
**degle** 27.60n
**derw, derwen** arch o bren derwen 5.9, 15.36
**dewinio** darogan 20.54
**diarfu** diarfogi 15.43
**difeinwr** diwinydd 4.15
**digofen** digofaint 25.31
**digopyr** 1.66n
**dirgywaeth** 19.65n
**diwastad (***di-* + *gwastad*) 27.80
**dôl** dolen, torch 13.23
**dowtio** amau 16.22
**dragwn** 8.58
**drwsbost** 25.39
**durfrisg** llwybr cadarn 17.8
**duriad** calediad 19.73
**dwned** 15.32n
**dyfal** dyfaliad 15.62
**dyfeisio** cynllunio, rhagluniaethu 5.55
**dyledog** bonheddig 11.40
**ebyd** gw. **abad**
**edling** etifedd (brenin) 20.40
**efydd** 22.26n
**eidiog** (creadur) nwyfus 22.23
**einwch** eiddoch 9.72
**elestren** lili 19.63
**emprwr** 25.14
**Emyn Curig** 14.68n
**erchwyn** cynhaliwr 26.8
**erwydden** ffon *ll.* **erwydd** 1.67
**estynwlad** 2.22
**eurbrint** 7.28, 26.27
**eurgloch** 3.47
**euro** anrhydeddu, urddo yn farchog 14.45, 20.68, 21.7, 26.23, 27.89
**eusys** eisoes 3.28
**fowart** blaenfyddin 16.3
**ffair** ymladdfa, maes y gad 17.17, 27.12
**ffawcwn** hebog 12.52
**fflwch** 1.46
**ffraeth** huawdl; buan 3.62
**ffrâm** 26.14
**ffres** egnïol 1.20, 26.31
**ffris** brethyn blewog 26.56
**ffrith** ffridd 12.51
**ffurfaidd** lluniaidd 11.9
**gair** clod, bri 3.33, 4.69, 9.18, 13.16, 14.3, 19.20
**galawnt** (gŵr) bonheddig 5.26
**galont** 1.35
**gildio** talu 3.24
**gloyn Duw** 9.12
**glyw** pennaeth 24.16
**gne** gwawr, pryd 23.10
**gofal** gofalaeth 26.37
**gofyniad** eirchiad 26.29
**gorfod** gorchfygu 3.31

**gorffod** bod o dan raid 12.57
**gorwydd** march 25.43
**gosgedd** gwedd, ffurf 9.66, 23.20
**gosteg** cyfres o englynion 15.66
**gown** 24.10 (gw. hefyd **gŵn**)
**grafiad** y weithred o gerfio 9.46n
**grafio** cerfio 15.40
**growndwal** sail 9.23, 15.64
**grymiol** cadarn 2.25
**gwâr** ufudd, hynaws 13.30, 26.60
**gwart** gwarchodaeth, nodded, gosgordd 6.69, 13.19
**gwarthafl** dolen i gynnal troed marchogwr 7.2
**gweddiad** 19.15n
**gweddu** darostwng 19.67, 24.63
**gwewyr** gw. **gwayw**
**gŵn** 23.25; *ll.* **gynau** 23.4 (gw. hefyd **gown**)
**gwn** *ll.* **gwns** 9.40
**gwridog** gwaedlyd 18.18
**gwrit** 16.23n
**gŵr march** 7.64
**gwyn** sanctaidd 10.6, 19.83
**gwymp** rhagorol 5.2
**gwynfyd** 16.7n
**gŵyr** drygioni 24.43
**hab** 25.9 (gw. **hap**)
**hafog** hael 13.29
**hap** 6.32, 7.18, 8.26, 10.15, 13.14, 16.1, 18.20, 21.22, 26.27
**hawddamor** 14.7
**hefaid** 2.27
**heilio** arllwys 25.34
**help** 2.6
**hilio** cenhedlu 6.36
**holli** hollti 26.44
**honni** datgan, mynnu 25.19
**hoywen** (*hoyw* + *gwen*) 19.78
**hudol** deniadol 23.23
**hwylio** 3.45
**hygarw** carw gwych, arweinydd 20.42
**hynaf** pennaeth 20.15; *ll.* **hynaif** 17.11
**hys** anogiad 7.36
**hytgyrch** (*hyd* + *cyrch*) 19.75
**Iddew** 24.45
**impren** 25.14
**iraidd** bywiog 11.37
**is gil** dan draed 27.81
**iwmon** *ll.* **iwmyn** 21.28, 27.55
**lynaets** S. *lineage* 14.30n
**Lladin** 14.36
**llaesu** gostwng 19.25
**llaeswr** darostyngwr 19.26
**llais** un sy'n lleisio 4.57
**llanwayw** (*llanw* + *gwayw*) 19.33
**lleithig** gorsedd 2.13, 8.19, 10.34
**llên** offeiriad 4.37, 9.15, 14.9, 16.74
**llesiant** budd 19.27
**llinon** gwaywffon, onnen 25.6
**llithio** darparu 4.70
**llochi** amddiffyn 11.43
**llomddifiog** 19.68
**llonydd** araul; cwrtais 3.18
**llurig** 23.13
**llwrf** llwfr 20.65
**llwyd** sanctaidd 25.28
**llwydwyn** teg a sanctaidd 5.32
**mabsant** 16.49
**mael** arfwisg 19.60
**maen** carreg, carreg (i'w thaflu), carreg ar fedd, carreg werthfawr 6.28, 15.14, 16.21, 24.21; *ll.* **main** 5.5, 8.35, 10.40, 12.28, 26.5
**maen gwn** 1.42
**maen rhigal** carreg werthfawr 21.18
**maner** 12.28n, 21.49
**marcio** pennu, penodi 2.40
**marchwriaeth** 6.50
**medd** awdurdod 6.64
**meddiant** awdurdod 7.22, 16.27

**meitr** penwisg esgob 14.65
**menybr** carn (arf) 21.53
**meurwys** 25.38n
**minio** awchu 17.20, 20.2, 21.9
**moddus** gweddaidd 19.20, 28.1
**molt** 21.65
**môr-lowyr** (*môr* + *glo* + *gwŷr*) 26.61
**mŵn** gwddf gwaywffon 21.54
**mwnai** 12.86
**nadwylo** (*nâd* + *wylo*) 11.16
**naid** llwyddiannus 1.3n
**naw, y naw** 2.60n, 25.15
**neithr** yn eithr 4.64
**newidiad** cyfnewidiad 25.13
**nodidog** 3.5
**nodyn** nod 25.15
**od** nodedig 9.15, 19.1, 24.31
**olew** angau 6.24n, 11.60, 18.41
**olwyn** ar ffurf olwyn 22.6
**opiniwn** 6.63
**osgl** cangen (o gyrn carw) *ll.* **osglau** 18.50
**osglog** brigog, canghennog 17.36
**pab** 16.34, 17.60, 19.39
**pais** 1.9, 7.46, 10.49, 14.3, 22.16, 23.24
**palf** 7.22, 11.64, 16.53; *ll.* **palfau** 20.13
**palfais** ysgwydd 1.3
**palfod** ergyd 8.46
**palfog** â llaw gadarn 1.2
**palis** mur, gwahanfur 1.17
**parc** 2.36n, 5.12, 13.2; *ll.* **parcau** 5.27
**parlment** 27.80
**part** 1.7
**pasiwn** dioddefaint 12.91, 23.39
**pawl** polyn 4.60, 27.56
**pedair gŵyl, y** 2.52n
**pêl, y bêl** 6.19
**penaig** pendefig 7.19, 25.2
**pennod** nod 1.44, 11.1
**pen-rhaith** 4.11, 7.35, 19.38, 21.29
**pentis** S. *penthouse* 23.5
**perbren** 1.15
**pinagl** 6.15
**plad** 27.56
**plaid** mur 2.28, 6.10, 10.54
**plât** trosiadol am darian13.64
**pos** 25.24n
**power** 12.61, 14.27, 21.36
**pregeth** patrwm 7.30, 16.17, 17.18, 27.23
**preins** gw. **prins**
**prelad** 10.48, 16.1
**prins** tywysog 5.24, 11.14, 27.16 **preins** 2.1
**prior** 4.3
**pupr** 2.51
**pwmel** 19.74n
**pwynt** 22.17
**pwyntio** cyfeirio, arwain 27.12
**pwyso** cynnal 10.57, 13.59
**rhaement** gwisg 21.3, 24.21
**rhediad** cwrs, llinach 9.39
**rheiol** 9.16, 12.47, 13.35, 17.37, 18.59, 26.40
**rhent** 9.70
**rhest** gorffwysle gwaywffon 21.11
**rhifddoeth** 7.39n
**rhwysg** urddas, awdurdod 26.74
**rhydain** carw ifanc 1.16, 7.63, 14.23
**rhyfyg** urddas 26.21
**rhywart** tâl 9.3
**safedlawr** safadwy 19.37
**said** carn 5.11
**saig** 1.60; *ll.* **seigiau** 11.49, 21.35, 27.49
**Sais** 20.20
**sefyll** aros, cynnal 9.7
**seilbraff** 12.44
**seilbren** 11.5
**sein** arwydd 26.4, 27.1

**seined** sêl 3.5
**selio** 12.9, 13.9
**sersiant** 1.30
**sew** cawl 11.52, 21.32
**sgrin** beddrod 5.70
**sgwierbrint** 5.23
**siars** S. *charge* 14.33
**siêd** fforffed 12.14, 15.9
**sir** S. *cheer*, llawenydd, llwyddiant 7.18, 8.26
**soelbraff** 26.20n
**stentio** lledu, cynyddu 18.58n
**stiwart** gw. **ystiwart**
**stryd** llwybr, cwrs 1.23, 20.39 (gw. hefyd **ystryd)**
**swyddog** 8.55
**swyddwr** 11.31
**syndal** defnydd main sidanaidd 23.16n
**tadwys** tad 15.28
**tair ynys, y** 8.6n
**talaith** coron 14.62, 23.24
**tangadwyn** 27.53
**tasel** S. *tassel* 1.56
**tewyn** ffagl, marworyn 19.69
**tid** cadwyn (carchar); cadwyn, torch 11.66, 13.21, 15.10, 17.46
**ton** croen 10.55, 17.15
**top** 1.36, 7.44, 8.40
**toriadwr** un sy'n creu bwlch neu rwyg 19.26
**torwyn** 25.26n
**traeth** llain (o dir) 11.28, 17.14, 21.38, 26.65n
**tri hael** 25.47 **y triael** 2.60n
**trinod, y** 4.68
**trosol** bar 15.14n
**trotian** tuthio 22.5
**trwch** trist 5.7
**trwmp** 7.48n
**trŵn** gorsedd 15.73
**trydar** brwydr 19.26
**trythyll** gwyllt, angerddol 3.63
**tudded** gorchudd 19.70
**tunnell** casgen win 15.25n
**twrnad** gweithred, gorchest 27.58
**tyrnas** teyrnas 5.60, 17.54
**unclo** 3.38
**wrsib** S. *worship,* parch 1.30, 27.2
**wyneb** anrhydedd 1.62, 2.18, 8.59, 17.66, 19.21, 21.65
**wynebwr** gŵr mawr ei barch 10.16, 12.54, 15.29
**ych bôn** 13.42n
**ymwanog** ymladdgar 21.50
**ymwasgu** mynnu, gorfodi 7.26
**ysgraff** bad 1.4
**ysgwâr** caboledig, cymesur 12.55
**ysgwargerdd** 15.44
**ysgwïer** 5.24, 26.31
**ystâl** rhan o fyddin 21.63; S. *stall,* rhaniad mewn adeilad 26.18
**ystent** 9.70
**ystiwart** 11.29, 12.59; **stiwart** 12.56
**ystoc** S. *stock*, hil 11.8
**ystod** cwrs 11.45
**ystryd** 1.64, 17.19, 18.45 (gw. hefyd **stryd**)

## *Enwau personau*


**Adda Fras** 8.12n
**Aiacs** 5.56n
**Aaron** 27.18
**Ambros, Syr** 14.38
**Arthur** 1.20, 7.2, 17.44, 20.48, 24.46 **nai Arthur** 27.72n
**Awstin** 14.37 **Sant Awstin** 4.2
**Beli Mawr** 10.18n
**Bened, Sain** 26.4n
**Beuno** 26.19
**Bŵn, Syr** 8.48
**Cadell** 20.18n, 22.31
**Cadw** 19.84 (gw. **Catwn**)
**Cai** 1.18, 21.50, 27.57 **Cai Hir** 16.74, 21.45, 27.71
**Caradog** 14.63n
**Cardnal Coch, y** 16.19n
**Catwn** 15.24n (gw. **Cadw**)
**Coel Godebog** 8.34
**Collen** 20.13n
**Constans** 17.42n
**Crist** 10.2
**Curig** 5.58 (gw. **Emyn Curig**)
**Cynan** 8.20
**Dai Nanclyn** 3.38n
**Deinioel** 7.63n
**Dewi** 4.20
**Dwynwen** 23.6
**Ector** Hector 1.48, 6.61, 21.1, 25.8
**Eidol** 12.62n, 16.70
**Eigr** 18.33, 27.25
**Eirchion** 23.32n
**Eisag** 9.58
**Elen** 12.39n
**Emrys** 12.77n
**Enid** 21.19n
**Erclais** Hercules 9.45 **Ercles** 12.82n
**Esyllt** 8.16 (gw. **cae Esyllt**)
**Euron** 21.24, 27.36n
**Ffranses, Sain** 15.53
**Ffrolo** 17.49n
**Ffwg** 3.33n, 20.46
**Gai, Syr** 21.5 **Syr Gei** 7.6, 8.47
**Grugor, Sain** 14.39
**Gwalchmai** 14.54, 18.62, 27.83
**Gwenfrewy** 23.7–8
**Gwrthefyr** 5.59n, 10.45
**Harri** Harri VIII 17.48
**Hu** 26.38
**Huw** Huw ap Dafydd 28.4
**Iarll Tancrfil** 27.33
**Iesu** 7.46, 10.57n, 12.21, 16.61, 18.66, 23.39
**Ifor Hael** 9.5 **Ifor** 3.39, 26.25
**Iolo** Iolo Goch 15.11
**Iorwerth** Iorwerth Fynglwyd 8.10
**Iorys** 8.51 **Sain Iorys** 27.87 (gw. **Sain Siôr**)
**Lawnslod, Syr** 8.46n
**Lewys** Lewys Môn 28.1
**Luwcas** 26.60n
**Llaw Arian, y** 7.54n (gw. **Nudd**)
**Llŷr** 6.18, 8.20
**Llywarch** Llywarch Hen 20.4
**Llywelyn** Llywelyn Goch ap Meurig Hen 15.11
**Macsen** 11.56, 21.41
**Maelgwn** 18.48, 23.26 **Maelgwn Gwynedd** 21.34
**Mair** 3.67, 4.28n, 12.2
**Marthin** 27.52n
**Mathau Goch** 27.75n
**Meddwid** 7.22n
**Melwas** 1.3n
**Moesen** 9.58, 13.11, 26.17
**Mordaf** 12.2n
**Nanmor** Dafydd Nanmor 8.9
**Nudd** 1.3, 3.18, 17.6 (gw. **y Llaw Arian**)

**Olwen** 27.39n
**Oswallt** 1.41n, 22.22, 23.9n
**Owain Glyndŵr** 24.62
**Pawl** 4.17
**Pedr** 10.3, 26.10
**Peilad** 10.58
**Peléus** 27.88n
**Rhodri** Rhodri Mawr 21.42
**Rholant** 16.1, 21.10
**Rhydderch** 2.23n
**Rhys, Syr** Syr Rhys ap Tomas 12.78n
**Sadwrn** 12.14n
**Siôr, Sain** 27.1 (gw. **Iorys**)
**Salmon** 12.7n (gw. **Selyf**)
**Sannan** 14.42n
**Sant Awstin** gw. **Awstin**
**Seirioel** 27.18
**Selyf** 27.3 (gw. **Salmon**)
**Seth** 27.21
**Sierôm** 14.35n
**Taliesin** 22.33
**Tegau** (Eurfron) 23.27n, 27.39
**Tewdwr** 6.14, 9.31
**Tomas, Sain** 10.7
**Troelus** 5.2n, 7.58, 21.40
**Tubal** 25.28n
**Tydai Tad Awen** 15.27n
**Tywysog Cyfeiliog** Owain Cyfeiliog 24.64
**Urien** 9.27
**Yniwl** 14.42n

*Enwau lleoedd*

**Aberconwy** 26.16
**Abertanad** 18.33
**Alrhe** 6.4n
**Aragwn** Aragon 27.30
**Arfon** 2.14n (gw. **sir Gaernarfon**)
**Bachymbyd** 11.23
**Bala, y** 18.43
**Berfeddwlad, y** 12.23
**Bryncunallt** 27.15
**Bryncynddel** 2.3n
**Bwlen** Boulogne 1.17n, 21.45n (gw. **Mwlen**)
**Caer** 12.12, 20.51
**Caer-gai** 18.3
**Caer** Caerloyw 27.29
**Caerfyrddin** 15.57
**Caergynyr** 18.2n
**Caeroswallt** 12.17
**Caer-wynt** 14.64n
**Caint** Caer-gaint 10.5 (gw. **Cent**)
**Calais** 26.33
**Camlan** 24.44n
**Canol Gwlad** 6.47n
**Cent** 21.4 (gw. **Caint**)
**Clwyd** 8.8, 11.26
**Coedymynydd** 2.30n
**Conwy** 1.11n, 13.46, 24.39
**Cymer** 26.9
**Cymru** 16.77, 24.68
**Chwibrain** 14.26
**Derwen Anial** 8.59n
**Dinbych** 11.27, 12.26
**Dinmael** 7.10, 8.63
**Dofr** 5.59n, 18.11
**Dolgellau** 19.35
**Drewen, y** 27.11
**Dwy Faelor** gw. **Maelor**
**Dwy Wynedd** gw. **Gwynedd**
**Dyffryn Aled** 14.58
**Ddôl Goch, y** 24.15
**Edeirnion** 17.16
**Egwestl** Glyn-y-groes 26.18
**Eifionydd** 18.14
**Eurgain** 3.2
**Fêl Ynys, y** gw. **Ynys y Mêl**
**Fenis** 17.20
**Fflint, y** 2.28, 6.10 **sir y Fflint** 1.46
**Ffrainc** 1.14, 12.57n, 21.62, 26.31, 27.76
**Gartheryr** 20.8
**Gent** 26.34n
**Glosedr** 18.30n, 27.40
**Glyn, y** gw. **Glyn-nedd**
**Glyn Clywedog** 8.8
**Glyn-nedd** 8.4n **y Glyn** 8.10
**Grigs** Groeg 14.31
**Gwent** 21.24, 24.22
**Gwrecsam** 14.31
**Gwy** 21.23
**Gwynedd** 9.14, 10.23, 11.52, 12.2, 13.9, 16.74, 17.10, 19.2, 20.21, 21.8, 24.16, 25.2, 26.13, 27.25 **Dwy Wynedd** 14.50, 21.2, 27.77
**Hafren** 18.11
**Hiraethog** 16.12, 20.23
**Hwmbrlond** 21.60
**Iâl** 8.60, 14.32
**Iorc** 1.51
**Llanfair** Llanfair Talhaearn 10.22
**Llanfwrog** 9.6
**Llanrhaeadr** Llanrhaeadr-ym-Mochnant) 20.49
**Llanrwst** 13.6
**Llanuwllyn** 18.19 (gw. **Uwch-y-llyn**)
**Lleweni** 12.4, 13.4
**Lloegr** 12.40, 16.80, 27.74

**Llundain** 1.24, 10.39, 16.17, 24.23
**Llwydiarth** 18.12
**Maelor** 5.10n, 6.3, 21.21, 27.10 **Dwy Faelor** 6.16
**Mars** 12.6, 21.22, 27.1 **Mers** 21.22
**Mechain** 18.6n
**Meirionnydd** 18.38, 24.26, 25.20
**Melan** 19.60n
**Mers** gw. **Mars**
**Mochnant** 20.25
**Môn** 2.13, 6.14, 12.79, 17.11, 21.15, 26.71
**Môr Tawch** Môr y Gogledd 16.66
**Mwlen** Boulogne 21.62, 27.10 (gw. **Bwlen**)
**Mynyw** 21.4
**Nanmor** gw. dan Enwau personau
**Nannerch** 2.23
**Pabilon** 19.50
**Paris** 1.22, 11.2
**Penllyn** 18.1
**Penrhyn, y** 21.25
**Peryddon** 6.17n
**Powys** 18.39, 25.1, 27.33
**Rhiwabon** 5.8, 26.28
**Rhôn** Rouen 9.70
**Rhos** 10.31
**Rhuddlan** 1.55, 4.4
**Rhufain** 1.54, 8.36, 12.76, 26.21
**Rhuthun** 7.20, 8.57, 11.28, 20.23
**Sandwig** Sandwich 23.16
**Sieb** Cheap(side) 8.2, 10.14, 16.35, 18.25
**Sin** Sheen 1.27, 5.22n, 16.75, 21.37
**sir Gaer** sir Gaernarfon 18.40n (gw. **Arfon**)
**sir y Fflint** gw. **Fflint, y**
**Tegeingl** 20.19
**Troea** 12.79
**Tywyn, y** 8.3n (yng Ngheredigion), 24.10 (ym Meirion)
**Uwch-y-llyn** 18.23 (gw. **Llanuwllyn**)
**Waun, y** 20.17
**Winsawr** 11.7 **Winsor** 11.54
**Wlster** 21.22
**Ynys y Gwin** 22.34n
**Ynys y Mêl** 20.5 **y Fêl Ynys** 7.34n, 20.34
**Ysgeifiog** 2.26
**Ystrad Marchell** 26.8

# *Llawysgrifau*

*Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copïwr. Ceisir dyddio'r rhannau hynny sy'n cynnwys y cerddi sy'n digwydd yn y gyfrol hon.*

*Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor*

**Bangor 13512:** llaw anh., hanner cyntaf y 18g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' 13473–16978 (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor).

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bodley Welsh f 1:** Iaco ab Dewi, diwedd yr 17g.–dechrau'r 18g., gw. G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953), 48–9.

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**BL Add 10313:** Dafydd Jones o Drefriw, ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1836–1840, 29; W. Gerallt Harries, 'Un arall o lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974–6), 161–8.

**BL Add 14966:** Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. CAMBM 1844, 46–7; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LlGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', *id.* xix (1975–6), 300–10.

**BL Add 14967 [= RWM 23]:** llaw anh., yn ystod teyrnasiad Harri VIII (1509–1547), ac Edward ap Roger (m. 1587), gw. RWM ii, 996–1014; CLC 173.

**BL Add 24980 [= RWM 39]:** llaw anh., 1600–25, gw. RWM ii, 1082–7.

**BL Add 31059:** Richard ap John o Sgorlegan, *c.* 1590, gw. CAMBM 1876–1881, 154.

**BL Add 31072:** Owain Myfyr a Hugh Maurice, 1804 (yr wynebddalen), gw. *l.c.*

**BL Add 31075:** Owain Myfyr a Hugh Maurice, 1804 (yr wynebddalen), gw. *l.c.*

*Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Brog 6:** llaw anh., 17g., 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru), i, 13–14.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd*

**Card 2.114 [= RWM 7]:** llaw anh., 1564–5, gw. RWM ii, 110–28.

**Card 2.201 [= RWM 63]:** ychwanegwyd englyn Tudur Aled mewn llaw anh. ar waelod y ddalen, gw. *ib.* 266–72.

**Card 2.623 [= Haf 13]:** Iaco ab Dewi, ar ôl 1690, gw. *ib.* 314–18; Garfield H. Hughes, *op.cit.* 35.

**Card 4.10 [= RWM 84]:** Dafydd Jones o Drefriw, ail hanner y 18g.

**Card 5.44:** Llywelyn Siôn, hanner cyntaf yr 17g.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 139 [= RWM 14]:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. RWM ii, 56–7 (gwall yw 'early xvith century').

**J 140 [= RWM 15]:** llaw anh., 1600–25, gw. *ib.* 57–64.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LlGC 278B:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. NLWCM 194; *The Cefn Coch Mss.*, ed. J. Fisher (Liverpool, 1899), xiii–xiv.

**LlGC 435B:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. NLWCM 321–5.

**LlGC 644B:** llaw anh., 17g., gw. HMNLW i, 44.

**LlGC 834B:** llaw anh., 17g., gw. *ib.* 64.

**LlGC 970E:** Llywelyn Siôn, yn ystod teyrnasiad Iago I (1603–25), gw. RWM ii, 372–94; HMNLW i, 77.

**LlGC 1580B:** llaw anh., 17g.–18g., gw. HMNLW i, 134.

**LlGC 3051D [= Mos 148]:** llaw anh., cyn 1594, gw. RWM i, 196–212.

**LlGC 5474A:** Benjamin Simon, 1747–51, gw. RWM ii, 395–408; HMNLW ii, 104.

**LlGC 6681B:** John Jones, Gellilyfdy, dechrau'r 17g., gw. HMNLW ii, 204–5.

**LlGC 20574A:** llaw anh., 1652, gw. Llawysgrifau 20001–21700 (catalog yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

**LlGC 20968B:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. *ib.*

**LlGC 21248D:** llaw anh. (Wmffre Dafis yn ddiau), 17g., gw. *ib.*

**LlGC 21290E:** Llywelyn Siôn, diwedd yr 16g./dechrau'r 17g., gw. *ib.*

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 47:** Llywelyn Siôn, *c.* 1630, gw. RWM ii, 516–23.

**Llst 125:** Wiliam Bodwrda, ar ôl 1638, gw. RWM ii, 649–62; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LlGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', *id.* xix (1975–6), 300–10.

**Llst 133:** Iaco ab Dewi, 1712, gw. RWM ii, 664–94; Garfield H. Hughes, *op.cit.* 37–40.

**Llst 134:** Llywelyn Siôn, yn ystod teyrnasiad Iago II (1685–8, ond yn ystod teyrnasiad Iago I, 1603–25, y gweithiai Llywelyn Siôn), gw. RWM ii, 695–712; CLC 383.

**Llst 163:** llaw anh., 1550–75, gw. RWM ii, 746–7.

**Llst 168:** llaw anh., tua diwedd yr 16g., gw. *ib.* 757–9.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 64:** Simwnt Fychan, ar ôl 1577, gw. RWM i, 448–54.

**Pen 72:** John Jones, Gellilyfdy, ei law gynnar, gw. *ib.* 477–86.

**Pen 83:** llaw anh., tua diwedd yr 16g., gw. *ib.* 540–3.

**Pen 86:** llaw anh., 16g., ond rhannau o'r llsgr. yn llaw Gruffudd Hiraethog a Simwnt Fychan, gw. *ib.* 550–6.

**Pen 91:** llaw anh., *c.* 1641, gw. *ib.* 566–9.

**Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, cyn 1610, gw. *ib.* 671–86.

**Pen 117:** awgrymir bod y Cywydd i Risiart ap Hywel yn llaw'r bardd, ond ymddengys fod y llaw yn ddiweddarach na hanner cyntaf yr 16g., gw. *ib.* 710–17.

**Pen 127:** llaw anh., 1531–44, gw. RWM i, 775–85.

*Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Wy 1:** Thomas Wiliems (1545/6–1622), 16g., gw. 'Schedule of the Wynnstay Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru), 1–2.

# *Mynegai i'r llinellau cyntaf*


*Td.*

A brau, ‘n llidiog, bronllydan ........ 66
Annerch Lewys, foddus fardd,—a'm carai ........ 83
Bardd Aled, beirdd a wylant ........ 47
Bryn y sydd o breins heddiw ........ 16
Caer ddyffryn Penllyn pióedd ........ 56
Ebyd sydd â bywyd saint ........ 76
Elis wrol, ais eryr ........ 53
Mae act ar drum Ector draw ........ 63
Mae hap Rolant, ein prelad ........ 50
Mawr wae'r byd am ŵr âi i'r bedd! ........ 40
Mwy sôn no maes o wenith ........ 45
Piau pennod pob bonedd ........ 37
Pwy'n y gorchest pan gyrchynt? ........ 13
Pwy o wreiddion pur addysg? ........ 32
Pwy'r gŵr od, pêr gariadwaith ........ 58
Pwy sy ‘chlaw Powys â chledd? ........ 74
Pwy yw eryr gwŷr a'u gwin ........ 22
Sain Siôr Siôn Trefor, sein trefydd—Mars ........ 79
Troes Duw oergwymp tros dewrgorff ........ 24
Wylo'r wyf ail yr afon ........ 26
Y barwnwalch brau annwyl ........ 19
Y dyn a'r gwallt dan aur gwiw ........ 68
Y ddeuRys oedd ddihareb ........ 30
Y gŵr a'i glog yn graig las ........ 61
Y gŵr o ddysg, arwydd oedd ........ 35
Y gŵr sy tan gorsed dur ........ 28
Y llys teg mawr, llesâd dyn ........ 43
Y mab a'i glod ym mhob glyn ........ 71

# *Mynegai i'r gwrthrychau*

*Cerdd*

Elis ap Gruffudd, prior Rhuddlan ........ 4
Elis ap Hywel, Crogen ........ 17
Elisau ........ 22
Huw ap Dafydd ........ 28
Hywel ap Siôn ap Dafydd, Bryncynddel ........ 2
Lewys ab Ithel, Llaneurgain ........ 3
Lewys, abad Cymer ........ 26
Lewys ab Owain, Dolgellau ........ 19
Lewys Cyffin a Lowri, Gartheryr ........ 20
Lewys Môn ........ 28
Pirs Gruffudd, Caerwys ........ 1
Pirs Salbri, Bachymbyd ........ 11
Robert ap Rhys, Plas Iolyn ........ 16
Robert Salbri a Gwenhwyfar, Llanrwst ........ 13
Rhisiart ap Hywel, Alrhe ........ 6
Rhys ........ 10
Rhys ap Siôn ap Maredudd, Derwen ........ 7, 8
[ ] Salbri, abad Glyn-y-groes ........ 26
Siancyn ap Siôn, Caethle ........ 25
Sieffre Johns, abad Maenan ........ 26
Siôn ab Elis Eutun, Rhiwabon ........ 5
Siôn, abad Ystrad Marchell ........ 26
Siôn ap Hywel Fychan, Caer-gai ........ 18
Siôn ap Rhys ap Morys, Ceri ........ 25
Siôn ap Siôn ab Elis Eutun, Rhiwabon ........ 26
Siôn Llwyd ab Ieuan, Llangernyw ........ 4
Siôn Trefor o Wigynt ........ 26, 27
Syr Rhoser Salbri, Lleweni ........ 12
Syr Robert ap Siôn, person Llanfwrog ........ 9
Syr Siôn Aled, ficer Llansannan ........ 14
Syr Tomas ap Robert, ficer Llanynys ........ 10
Syr Tomas Hanmer o'r Owredd ........ 26
Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn ........ 21
Tudur Aled ........ 15
Wmffre ap Hywel, Ynysymaengwyn ........ 24